

Buchedd Dewi (fersiwn Peniarth 27ii)

golygwyd gan Jenny Day

Testun golygedig

Llawysgrifau a thrawsysgrifiadau

Cyfeiriadau a byrfoddau

Atodiad: cyfieithiad Saesneg

Rhagymadrodd

Nawddsant Cymru yw Dewi Sant, a dethlir ei wyl ar 1 Mawrth. Prif ganolfannau ei gwlt oedd Mynyw (Tyddewi) a Llanddewibrefi, yn y de-orllewin, ond cysegrwyd dros hanner cant o eglwysi a chapeli iddo ar draws de Cymru (James 2007: 44–6) a cheir olion o'i gwlt yn Llydaw a de-orllewin Lloegr (Harris 1940: 69–70; Tanguy 2007). Yn yr achau fe'i cysylltir â llinachau brenhinol Deheubarth a Gwynedd ac â nifer o seintiau eraill (gw. [n. 1](#) (ar *Kyredic Vrenin*)), a'i linach ef a geir gyntaf yn 'Bonedd y Saint' (Lewis 2023: §1).

Cyfeiriadau cynnar at Ddewi

Mae cofnodion mewn blwyddnodau o Iwerddon, sy'n galw Dewi'n *Dauid Cille Muine* 'David o "fynachlog" Mynyw' (Wade-Evans 1923: vii; gw. hefyd Evans 2007: 30), yn awgrymu iddo farw yn 588 neu, yn debycach, yn 589; ar y llaw arall, ceir cyfeiriad at *Dauid episcopus moni iudeorum* yn *Annales Cambriae* a all awgrymu mai yn 601 y bu farw (HW i, 157–8; BDe xii (n7); Williams 1959: 105–6; am drafodaeth ddiweddar ar yr ymadrodd *moni iudeorum*, gw. Aitchison 2019). Cofnodwyd gŵyl Dewi mewn dau ferthyriadur a ysgrifennwyd yn Iwerddon yn gynnar yn y nawfed ganrif, y naill mewn Lladin a'r llall mewn Gwyddeleg, a cheir cyfeiriad at Ddewi yng Nghatalog Seintiau Iwerddon (*Catalogus sanctorum Hiberniae*), sy'n dyddio, mae'n debyg, i'r nawfed neu'r ddegfed ganrif (Wooding 2007: 11; BDe xvii). Mae'n bosibl, hefyd, y gellir olrhain rhai bucheddau seintiau Gwyddelig sy'n crybwyll Dewi i'r wythfed neu'r nawfed ganrif (Sharpe 1991: pennod 10; Charles-Edwards 2013: 620; gw. hefyd Wooding 2007: 12).

Ceir cyfeiriad Cymreig cynnar at Ddewi mewn arysgrif ar garreg yn Llanddewibrefi, Ceredigion, a ddyddiwyd yn ddiweddar i'r nawfed ganrif. Erbyn hyn mae'r garreg wedi torri'n ddarnau, a dau ohonynt i'w gweld yn rhan o fur yr eglwys, ond cofnodwyd yr arysgrif gyfan gan Edward Lhuyd yn yr ail ganrif ar bymtheg ac ymddengys iddi goffâu gŵr o'r enw Idnert a laddwyd yn ystod ymosodiad ar yr eglwys

(*propter predam sancti David* ‘o ganlyniad i ysbeilio Dewi Sant’). (Gw. Gruffydd and Owen 1956–8; Gruffydd and Owen 1960–2; Edwards 2007: 150–3 (rhif CD9).)

Mae buchedd Paul o Léon, a gyfansoddwyd yn Llydaw yn 884, yn nodi bod *sanctus Devius* yn cael ei alw’n *Aquaticus* am ei fod yn byw ar fara a dŵr (Cuissard 1881–3: 421; Doble 1960: 13). Hwn, mae’n debyg, yw’r cyfeiriad cynharaf at Ddewi fel ‘dyfrwr’, agwedd ar ei fywyd asgetig a grybwyllir yn ei fucheddau Lladin a Chymraeg (gw. VSD §2 (cf. §42); BDe 3.8–9; [BDewi \(Pen 27ii\)](#) §4; ac, ymhellach, Wade-Evans 1923: 62). Cyfeirir at ymosodiadau ar awdurdod Dewi Sant (*parochia Sancti Degui*) ac ar ei fynachlog (*monasterium*) ym muchedd y Brenin Alfred, a gyfansoddwyd tua 885 gan y Cymro Asser (BDe xviii; Davies 2007b: 299); ac yn wir, mae gyrfa Asser, yn ogystal â’i eiriau, yn tystio i bwysigrwydd Mynyw fel canolfan ddysg yn y cyfnod (Wooding 2007: 14; Charles-Edwards 2013: 452–66).

Mae’r cyfeiriad cynharaf at Ddewi mewn barddoniaeth Gymraeg yn perthyn i’r ddegfed ganrif; crybwyllir ei enw nifer o weithiau gan fardd dienw ‘Armes Prydain Fawr’ wrth iddo alw ar y Cymry a’u cynghreiriaid i uno dan faner Dewi yn erbyn y Saeson (Williams 1955; Isaac 2007). Awgrymir yn gryf fod gan Ddewi rym arbennig ac uchafiaeth dros holl seintiau Prydain, er nad oes sicrwydd a yw hyn yn adlewyrchu ei statws gwirioneddol ar y pryd neu, yn hytrach, ddyheadau’r awdur, a hwnnw’n glerigwr o’r de yn ôl y farn gyffredin (Williams 1955: xi–xvii; BDe xix–xx; Isaac 2007: 165, 168; ond gw. hefyd Charles-Edwards 2013: 532–3, lle awgrymir y gall mai bardd o Wynedd oedd awdur y gerdd).

Rhygyfarch ap Sulien a’r fuchedd Ladin wreiddiol

Cyfansoddwyd buchedd Ladin Dewi, *Vita Sancti David* (VSD), gan Rygyfarch ap Sulien (m. 1099), brodor o Lanbadarn Fawr, Ceredigion. Er nad oes gennym lawysgrif o amser Rhygyfarch sy’n cynnwys y fuchedd, mae fersiynau ohoni wedi goroesi mewn nifer o lawysgrifau diweddarach, a’r rhai hynaf yn dyddio o’r ddeuddegfed ganrif (James 1967; Sharpe 2007). Dangoswyd yn ddiweddar (Sharpe 2007) fod bwriad gwreiddiol Rhygyfarch yn cael ei gynrychioli orau mewn testun a gedwir yn Cotton Vespasian A.xiv (am olygiad a chyfieithiad Saesneg o’r fersiwn ‘Vespasian’ hwn, gw. VSD).

Roedd Rhygyfarch yn aelod o deulu pwysig o glerigwyr ac ysgolheigion a chanddynt rôl flaenllaw yng nghlas Llanbadarn dros dair cenhedlaeth, o leiaf. Mae cerddi Lladin gan Rygyfarch a chan ei frawd Ieuan wedi goroesi, a gwyddys bod eu tad Sulien, a fu’n esgob Tyddewi ddwywaith (1072/3–8 a 1080–5), wedi derbyn addysg yn Iwerddon ac yn yr Alban yn ogystal ag yng Nghymru (ByCy Ar Lein d.e. *Sulien*; Lapidge 1973; Graham 1996). Roedd hwn yn gyfnod cythryblus yn hanes yr Eglwys Gymreig; y rheswm y daeth Sulien yn esgob Tyddewi am yr eilwaith oedd am fod yr Esgob Abraham wedi cael ei ladd yn ystod ymosodiad gan Lychlynwyr yn 1080, a’r flwyddyn ganlynol ymwelodd Gwilym Goncwerwr â Thyddewi ‘er mwyn gweddi’ (HW ii, 393–4; Evans 2007: 33, 39).

Daeth annibyniaeth yr Eglwys Gymreig dan fygythiad wrth i'r Normaniaid, ar ôl goresgyn Lloegr, ymsefydlu mewn rhannau helaeth o Gymru a dechrau ymyrryd â phenodiadau eglwysig. (Mor gynnar â 1092, etholwyd un o gaplaniaid y Brenin Gwilym Goch, Llydäwr o'r enw Hervé, yn esgob Bangor drwy ddylanwad Hugh, iarll Caer; gw. HW ii, 447–8.) Mynegir ymateb teimladol, pwerus i ddyfodiad y Normaniaid, ac yn arbennig i'w llwyddiant wrth gipio rhannau helaeth o dde Cymru yn 1093, yn *Planctus* Rhygyfarch, galargan y credir iddi gael ei llunio yn 1094 neu 1095 (HW ii, 398–403; Lapidge 1973: 73–4; ceir golygiad a chyfieithiad o'r gerdd ibid. 89–93). Dywed, er enghraifft, fod 'gyddfau rhydd wedi eu rhoi dan yr iau' (ll. 7, *libera colla iugo subdere*), a chwyna am drethi'r Normaniaid yn ogystal â'r difrod a'r creulonderau yr oeddynt yn gyfrifol amdanynt.

Nid oes sicrwydd a ysgrifennodd Rhygyfarch ei *Vita S. David* cyn, neu ar ôl, y *Planctus* a digwyddiadau 1093, ac, wrth reswm, nid oes sôn am y Normaniaid yn y fuchedd ei hun (ar ei dyddiad, gw. James 1967: xi; Davies 2007a: 160; Thomas and Howlett 2003: 76). Serch hynny, gellir ei hystyried hithau'n ymateb i'r bygythiadau yr oedd Tyddewi, yr Eglwys Gymreig, a'r Cymry'n gyffredinol yn eu hwynebu. Pwysleisir teilyngdod ac awdurdod Dewi drwyddi draw, ynghyd â'i rinweddau a'i alluoedd. Rhoddir sylw gofalus i'w urddas fel archesgob, gan nodi iddo gael ei urddo gan neb llai na phatriarch Caersalem, a bod pawb, o bob statws, o blith 'y genedl Brydeinig' wedi cydsynio i'r apwyntiad hwnnw yn synod Breff (VSD §§46, 53). Yn wir, honnir iddo gael ei gydnabod yn bennaeth ac yn dywysog y genedl i gyd (VSD §57).

Mae'r *Vita* yn adrodd stori bywyd Dewi o'r adeg cyn ei eni hyd ei farw, a llawer o elfennau'r stori'n adnabyddus hyd heddiw. Ceir hanes y cyfarfod rhwng ei dad Sant a'r angel a ragfynegodd ei eni a'i rinweddau (VSD §§1–2); hanes Sant Padrig yn bwriadu ymsefydlu yn *Vallis Rosina* ond yn cael ei anfon i Iwerddon i wneud lle i Ddewi (§3) (ar *Vallis Rosina* neu Lyn Rhosyn, gw. n. 68); amgylchiadau cenedlu Dewi, yn fab i'r lleian Non (§4); anallu Gildas i bregethu ym mhresenoldeb Non pan oedd Dewi yn ei chroth (§5); geni Dewi, a storm yn ei amddiffyn ef a'i fam rhag gormeswr cenfigennus (§6); ei fedyddio, pan iachawyd dyn dall heb na thrwyn na llygaid (§7); ei addysg gynnar yn *Vetus Rubus* (Hen Fynyw) a'r golomen, symbol o'r Ysbryd Glân, a gadwai gwmni iddo (§8); ei addysg bellach gyda Paulinus, a'i olwg yntau'n cael ei adfer drwy wyrth arall (§§10–11); y mynachlogydd a sefydlodd ar draws Cymru a Lloegr, gan gynnwys Glastonbury (§13); hanes sefydlu ei fynachlog yn *Vallis Rosina*, a'r gwrthwynebiad gan y pennaeth lleol, Boia, a'i wraig (§§14–20); a'r bywyd asgetig a dreuliodd ef a'i ddilynwyr yno (§§21–31).

Wedyn disgrifir nifer o wyrthiau Dewi, gan gynnwys taith ei gyn-ddisgybl Scutinus (Scuithín) dros Fôr Iwerddon ar gefn anifail morol er mwyn ei rybuddio am gynllwyn i'w wenwyno (§§33–43). Ceir stori taith Dewi ei hun i Gaersalem yng nghwmni Eliud (Teilo) a Phadarn, a'i urddo'n archesgob (§§44–8);

hanes synod Brefi'n cael ei alw i wrthwynebu athrawiaeth Pelagius, a neb yn gallu pregethu i'r gynulleidfa enfawr, fel bod Paulinus yn awgrymu y dylid gwahodd Dewi (§49); ymateb gostyngedig Dewi ac ymdrech lwyddiannus Daniel (Deiniol) a Dubricius (Dyfrig) i'w berswadio i ddod i'r synod ar ôl iddo wrthod y tri gwahoddiad cyntaf (§50); y mab i wraig weddw a atgyfododd Dewi ar ei ffordd i'r synod (§51); gwyleidd-dra Dewi yn y synod, a'r golomen yn disgyn ar ei ysgwydd, a'r tir yn codi'n wyrthiol dan ei draed wrth iddo bregethu mor eglur fel y gallai pawb ei glywed (§52); synod pellach a elwid yn 'Synod Buddugoliaeth' (§55); awdurdod a rhinweddau Dewi, ei hawl i roi nawdd, ei statws fel pennaeth cenedl Prydain a'r oedran mawr a gyrhaeddodd, sef 147 o flynyddoedd (§§56–8); yr angel a ddaeth i ddweud wrtho am baratoi at ddiwedd ei fywyd daearol (§59); ei eiriau olaf, a'i ymadawiad am y nefoedd ar ddydd Mawrth, y diwrnod cyntaf o fis Mawrth (§§60–5).

Ar ddiwedd y *Vita* cyfeiria Rhygyfarch at ei ffynonellau, sef 'ysgrifau hynaf ein gwlad', ac, yn arbennig, y rhai a gedwid ym mynachlog Dewi (VSD §66). Mae'n bosibl fod y ffynonellau hyn yn cynnwys copi o reol wreiddiol y fynachlog, a bod Rhygyfarch wedi gweld sawl testun arall o'r cyfnod hwnnw gan gynnwys llyfr penyd (Morris 1966: 349–50n4, 384–5; Dumville 2001: 15). At hynny, gallai fod wedi ymgynghori â deunydd merthyrolegol o Iwerddon (Ó Riain 1981: 294–5).

Mae'n debyg fod Rhygyfarch wedi ysgrifennu'r *Vita* er mwyn hybu cwlt Dewi ac i amddiffyn statws esgobaeth Tyddewi yn ystod cyfnod cythryblus, a diau ei fod wedi llwyddo. Bu farw Rhygyfarch yn 1099, ond byddai cwlt Dewi'n parhau i ffynnu drwy gydol yr Oesoedd Canol ac mae ganddo rôl bwysig yn niwylliant Cymru hyd heddiw.

Cwlt Dewi a'i ddylanwad o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen

Cydnabuwyd pwysigrwydd Dewi gan y Pab Calixtus II (a deyrnasai 1119–24), ac yntau'n annog pererinion o Loegr i ymweld â Thyddewi drwy ddweud bod dwy daith yno yn gyfwerth ag un i Rufain (cofnodwyd hyn gan William o Malmesbury; gw. Sharpe 2007: 103; Mynors et al. 1998–9: I.778–81; a gw. hefyd DewiIG llau. 7–10; DewiIRh llau. 115–18). Ymddengys y gellir cysylltu hyn ag ymdrechion Bernard, a oedd yn esgob Tyddewi rhwng 1115 a 1148, i hybu cwlt y sant (Sharpe 2007: 102–3). Yn amser Bernard, hefyd, yr adeiladwyd cadeirlan newydd yn Nhyddewi a gysegrwyd yn 1131 (Evans 2003; adeiladwyd y gadeirlan bresennol rhwng 1180 a 1220 yn bennaf; gw. Coflein d.e. *St David's Cathedral*); ac mae'n debyg mai iddo ef y lluniwyd fersiwn newydd o'r *Vita* a elwir yn 'Nero-Digby', sef fersiwn cryno yr ymddengys iddo gael ei addasu ar gyfer cynulleidfa y tu allan i Gymru (Sharpe 2007: 103–5; Davies 2007a: 158–9). Gall y fuchedd hon fod wedi ei llunio yn y 1120au cynnar, yng nghyd-destun y gystadleuaeth rhwng Bernard a'r Esgob Urban o Landaf (Sharpe 2007: 102).

Nid oedd y statws arbennig a hawliwyd i Ddewi yn *Vita* Rhygyfarch wedi ei anghofio yn y cyfnod hwn. Ymddengys fod claswyr neu ganoniaid Tyddewi, a brodyr Rhygyfarch yn eu plith, o bosibl, yn parhau i ymgyrchu dros hawl Tyddewi i gael ei chydabod yn archesgobaeth yn hytrach nag yn esgobaeth, fel na fyddai'r Eglwys Gymreig yn ddarostyngedig i Gaer-gaint nac yn agored i ymyrraeth y Normaniaid (Evans 2007: 36–8; ac ar esgobion ac archesgobion Cymreig cyn y Normaniaid, gw. ymhellach HW ii, 447–8; Charles-Edwards 1971: 257; Davies 2007b). Dechreuodd yr Esgob Bernard ymddiddori yn yr achos hwn yn ystod ei gyfnod yn Nhyddewi, er ei fod yn Norman ac wedi ei benodi drwy ffafr brenin Lloegr, Harri I (Evans 2007: 32–5; Pryce 2007b: 306). Erbyn i Bernard ddod yn arddelwr i'r achos (tua 1125 yn ôl Sharpe 2007: 102–3), mae'n debyg fod fersiwn 'Nero-Digby' o'r *Vita* wedi ei lunio'n barod, a diau fod y fersiwn cryno hwn o'r fuchedd yn gymorth wrth hybu statws archesgobol Tyddewi, yn enwedig y tu allan i Gymru. Credir mai o'r fersiwn 'Nero-Digby' y tarddodd y fersiwn o *Vita* Dewi a ysgrifennwyd yn ddiweddarach yn y ddeuddegfed ganrif gan Gerallt Gymro, arddelwr enwocaf yr ymgyrch dros archesgobaeth Tyddewi (gw. golygiad a thrafodaeth Paul Russell (VSDauidGerald); hefyd Bartlett 1983; Sharpe 2007: 96–7; Evans 2007: 27–31; Russell 2022b; ac ar Gerallt Gymro, gw. ByCy Ar Lein d.e. *Giraldus Cambrensis*; Roberts 1982; Richter 1992; Bartlett 2006; Henley and McMullen 2018).

Perthyn i'r ddeuddegfed ganrif hefyd y mae'r fersiwn cryno o'r *Vita* a luniwyd yn rhan o gasgliad o fucheddau i briordy Leominster, yn ôl pob tebyg, ac a gedwir mewn llawysgrif a elwir yn Lincoln, Cathedral Library 149 (Sharpe 2007: 103; Russell 2022a; a gw. golygiad a chyfieithiad Paul Russell (VSDauidLincoln)). Lluniwyd fersiwn cryno arall gan John o Tynemouth, mynach o St Albans, ar gyfer ei gasgliad ef o fucheddau yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg (Sharpe 2007: 103). At hynny, ceir 'Fersiwn Gwyddelig' o'r *Vita* yn rhan o gasgliad adnabyddus o fucheddau'r seintiau, a'r rhan fwyaf yn seintiau Gwyddelig; credir bod y fersiwn hwn, sydd hefyd yn gymharol fyr, wedi ei lunio'n gynnar yn y drydedd ganrif ar ddeg (James 1967: xxvi–xxix, xxxvii–xxxviii; Sharpe 1991: 247–96; Sharpe 2007: 93; Waidler 2022). Ar berthynas y fersiynau byr hyn o'r fuchedd Ladin â'r fersiwn 'Vespasian' ac â'i gilydd, gweler Sharpe 2007; Russell 2022a; Waidler 2022.

Yn ogystal ag ymddangos mewn nifer o fucheddau seintiau o Iwerddon, crybwyllir Dewi yn aml mewn bucheddau Cymreig, gan gynnwys bucheddau Cadog, Carannog, Illtud, Cybi, Padarn, Beuno, Teilo, Gildas a Chynydd (BDe xxvi–xxvii). Parhâi i fod yn adnabyddus ymhlith y beirdd hefyd, ac mae nifer o gerddi iddo wedi goroesi. Mae 'Canu i Ddewi' gan Wynfardd Brycheiniog yn dyddio o ail hanner y ddeuddegfed ganrif (DewiGB; Parry Owen 2022), a chanwyd cywydd iddo gan Iolo Goch, un o feirdd mwyaf y bedwaredd ganrif ar ddeg (DewiIG). Canwyd nifer o gerddi iddo yn y bymthegfed ganrif, gan Ddifydd Llwyd o Fathafarn, Ieuan ap Rhydderch, Lewys Glyn Cothi a Rhisiart ap Rhys (gw. DewiDL, DewiIRh, DewiLGC1, DewiLGC2, DewiRhRh).

Erbyn yr Oesoedd Canol diweddar mae'n amlwg fod Dewi yn cael ei ystyried yn sant pwerus iawn a'i fod wedi hen ennill ei blwyf fel nawddsant Cymru. Yng ngherdd Dafydd Llwyd, y credir iddi gael ei chanu i gefnogi achos Harri Tudur cyn brwydr Bosworth, gelwir ar Ddewi i gynorthwyo'r Cymry i ennill eu rhyddid (adlais cryf o 'Armes Prydain Fawr'), a chyfeiriodd Ieuan ap Rhydderch at ei gyfrifoldeb arbennig dros eneidiau'r Cymry, fel y gwnaethai Gwynfardd Brycheiniog o'i flaen (DewiDL llau. 89–90; DewiIRh llau. 125–6; DewiGB llau. 35–40). Er bod darlun y beirdd o Ddewi yn bur gyson â'r hyn a geir yn *Vita* Rhygyfarch, ceir ganddynt rai manylion gwahanol sy'n dangos bod gwybodaeth annibynnol amdano wedi ei chadw yn y traddodiad barddol (gw. BDe xxvii n17; TWS, pennod 1; DewiGB: Rhagymadrodd; Parry Owen 2022). (Ar gyfeiriadau at Ddewi yn y farddoniaeth, gw. ymhellach Parry Owen 1997; Parry Owen 2008.)

Parhâi Dewi i fod yn sant adnabyddus yn Lloegr. Roedd wedi ei grybwyll mewn rhai calendrau ers cyn 1100, gan gynnwys yr un yn y Leofric Missal (Llyfrgell Bodley, Bodley 579) a luniwyd yng Nghaer-gaint yn ôl pob tebyg, ond cofnodwyd ei wyl yn amlach mewn calendrau o Loegr ar ôl i'w *Vita* ddechrau cylchredeg (Harris 1940: 8–10; BDe xxvi; Huws 2007: 221). Yn 1398 gorchmynnwyd cadw ei wyl ym mhob eglwys yn archesgobaeth Caer-gaint (ibid. 222); nid oes, ar y llaw arall, unrhyw dystiolaeth fod ei gwlt wedi cyrraedd archesgobaeth Efrog, yn y gogledd (Harris 1940: 10). Adlewyrchir enwogrwydd Dewi yn Lloegr, a'r cysylltiad cryf a welid rhyngddo a'r Cymry, mewn golygfa yn nrama Shakespeare, *Henry V* (IV.7), pan ddywed Ffluellin wrth y brenin, 'Your Majesty takes no scorn to wear the leek upon St Tavy's Day'. Ni wyddys pryd dechreuwyd cysylltu cennin â Dewi a Chymru, er bod gwahanol draddodiadau'n disgrifio'r sant yn cynghori'r Cymry i'w gwisgo mewn brwydr yn erbyn y Saeson, neu'n eu cysylltu â brwydrau Poitiers neu Crécy (Davies 1911: 70).

Adfywiwyd yr ymgyrch i fynnu hawliau archesgobol i Dyddewi yn amser Owain Glyndŵr, a'r dadleuon yn cael eu mynegi'n gryf mewn dau lythyr a ysgrifennodd ef yn 1406 at Siarl VI, brenin Ffrainc (Livingston and Bollard 2013: 120–1, 124–5, 348–50). Unwaith eto, fel yn amser yr Esgob Bernard a Gerallt Gymro, ofer fu'r ymdrech. Ond byddai Dewi (megis Glyndŵr ei hun) yn parhau i fod yn rhan bwysig o ymwybyddiaeth genedlaethol y Cymry. Hyd yn oed ar ôl y Diwygiad Protestannaidd, dethlid Dydd Gŵyl Dewi yn eang fel gŵyl genedlaethol; ac yn wir, roedd y traddodiad am fywyd asgetig Dewi a'i ddilynwyr yn apelio at y diwygwyr Cymreig fel patrwm o 'Eglwys Geltaidd' bur, ddilygredig yr hoffent ddychwelyd ati (Williams 1979: 118–19; Morgan 2016: penodau 9 ac 11).

Yn ôl Glanmor Williams (1979: 124–5), mae Dewi wedi bod yn ffigur pwysig i nifer o wahanol enwadau Cristnogol, gan gael ei ystyried yn genhadwr cynnar dros yr Eglwys Rufeinig, neu'n gynrychiolydd i'r Eglwys frodorol, neu'n un yr oedd yn well ganddo fywyd syml, duwiol na rhwysg yr Eglwys sefydledig. Datgysylltwyd yr Eglwys Gymreig yn 1920, gan arwain at sefydlu'r Eglwys yng

Nghymru yn archesgobaeth o fewn y Cymundeb Anglicanaidd, ac yn sgil hyn adnewyddwyd cysegr Dewi yng nghadeirlan Tyddewi a'i hailsefydlu yn gyrchfan i bererinion (Morgan-Guy 2007). Wedyn, yn 1934, cwblhawyd capel Catholig newydd, capel y Forwyn Fair a'r Santes Non, ar yr arfordir i'r de o Dyddewi ac yn agos at adfeilion y capel canoloesol a gysylltir â genedigaeth Dewi (ibid.; Rees 2008: 22–4). Yn ddiweddar, adnewyddwyd cysegr Dewi yn y gadeirlan unwaith eto, a'i hailgysegru ar 1 Mawrth 2012.

Dewi yn y diwylliant gweledol

Gwelir gwedd dywysogaidd ar Ddewi, gan adlewyrchu ei dras brenhinol, mewn darlun yn Llyfr Oriau Hastings a luniwyd cyn 1483 (Lord 2003: 256–7). Mae'n debygol fod unwaith ddarlun cynnar arall ohono yn eglwys Rhychwyn Sant, Llanrhychwyn, Conwy, oherwydd ceir yn un o'r ffenestri yno ddarn o wydr lliw ac arno'r ysgrifen *sancte Davy*, a'r ail air wedi ei gofnodi'n llawn yn *Davyt* gan Wallter Mechain (m. 1849) ynghyd â'r dyddiad 1533 (LBS iv, 113; Lewis 1970: 72; Crampin 2020: 3; Crampin 2022: 351). Gall y ffaith fod yr eglwys hon yng ngogledd Cymru adlewyrchu pwysigrwydd Dewi fel sant cenedlaethol erbyn yr Oesoedd Canol diweddar (Gray 2000: 34).

Mae'r golomen a grybwyllir ym mucheddau Lladin a Chymraeg Dewi yn elfen gyffredin yn ei eiconograffi, fel ei bod yn hawdd ei adnabod fel arfer. Mewn darluniau niferus o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a rhai diweddarach, portreadir Dewi yn esgob neu'n archesgob mewn gwisg eglwysig foethus ac â meitr am ei ben, a'r golomen wrth ei glust yn aml. Fodd bynnag, mae arlunwyr yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, yn enwedig o tua 1950 ymlaen, wedi tueddu rhoi llai o sylw i'w statws (arch)esgobol, gan ganolbwyntio ar agweddau eraill megis ei asgetigiaeth, ei Gymreictod, a'i rôl fel arweinydd ysbrydoledig ar yr Eglwys Geltaidd gynnar. Gweler ymhellach Crampin 2020; Crampin 2022.

Y fuchedd Gymraeg a'i chynsail Ladin

Mae'r fersiwn cynharaf o fuchedd Dewi sy'n goroesi yn y Gymraeg i'w gael yn llawysgrif J 119, *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (Llyfr yr Ancr), a ysgrifennwyd yn 1346. Ymddengys fod y testun hwn, a'r holl destunau Cymraeg diweddarach (gw. [Llawysgrifau](#)), yn tarddu yn y pen draw o un gynsail Gymraeg goll, a bod hon yn gyfieithiad o ryw gynsail Ladin. Ni wyddys pryd ysgrifennwyd y fuchedd Gymraeg wreiddiol, ond dadleuwyd ar sail ieithyddol nad oes rheswm cryf dros ystyried ei bod yn gynharach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a gall nad oedd yn llawer hŷn na thestun J 119 (BDe xl; WLSL liv; a chymharer Sims-Williams 2018: 8–12 (ar Fuchedd Beuno)).

Mae'r fuchedd Gymraeg yn fyrrach na *Vita S. David* Rhygyfarch ac mae nifer o gyffelybiaethau rhyngddi a'r fersiwn Lladin cryno yn llawysgrif Lincoln 149 (BDe xxxix; Harris 1940: 18n; James 1955: 5–6; Williams 1959: 111; a gw. [n. 71](#) (ar *mewn kraic vchel*), [n. 82](#) (*twr*), [n. 108](#) (*Ac yn Rrvvain ir vrddwyd yn*

archesgob); am olygiad a chyfieithiad o destun Lincoln 149, gw. VSDauidLincoln). Mae fersiwn Lincoln 149 yn llawer rhy gryno i fod yn gysail y fuchedd Gymraeg, ond mae Paul Russell wedi dangos yn ddiweddar (Russell 2022a) fod y fuchedd Gymraeg a fersiwn Lincoln 149 yn tarddu o'r un gysail Ladin goll, sef fersiwn a oedd yn fwy cryno na'r fersiwn hir ('Vespasian') ond heb ei grynhoi cymaint â'r fersiwn yn Lincoln 149.

Er ei bod yn debygol fod y fuchedd Gymraeg wedi ei llunio mewn un o brif ganolfannau cwlt Dewi yn y de-orllewin, sef Llanddewibrefi, o bosibl, neu Dyddewi, ymddengys iddi gael ei bwriadu ar gyfer cynulleidfa ehangach na *Vita S. David* Rhygyfarch (BDe xxxiii; WLSL liv). Ni chrybwyllir athrawiaeth Pelagius, na'r ail synod ('Synod Buddugoliaeth'), hepgorir y disgrifiad o drefn mynachlog Dewi, a chwtogir y darnau litwrgiaidd a geir ar ddiwedd y *Vita* (VSD §68). Mae hanes y gormeswr cenfigennus a ddymunai ddrwg i Ddewi a'i fam Non ymhlith y pethau eraill a hepgorir, ynghyd â rhai o'r gwyrthiau a gyflawnwyd ar ôl i Ddewi ymsefydlu yng Nglyn Rhosyn (*Vallis Rosina*), er cadw hanes y cynllwyn i'w wenwyno. Ni cheir yn y fuchedd Gymraeg hanes taith Dewi i Gaersalem; nodir, yn hytrach, ei fod wedi ei urddo'n archesgob yn Rhufain, a hwn yn fanylyn a geir hefyd yn y fersiwn Lladin yn Lincoln 149 (BDe 50; James 1955: 14; VSDauidLincoln §30). At hynny, nid yw'r fuchedd Gymraeg yn disgrifio'r golomen yn disgyn ar ysgwydd Dewi yn synod Brefi, ac ni nodir beth oedd oedran Dewi pan fu farw. Ni cheir, ychwaith, eiriau diymhongar Rhygyfarch ar ddiwedd y fuchedd. Mae'r rhan fwyaf o'r pethau a nodwyd uchod wedi eu hepgor o fersiwn Lladin Lincoln 149 hefyd, er cadw yno fwy o'r gwyrthiau a ddisgrifir ar ôl hanes sefydlu mynachlog Dewi yng Nglyn Rhosyn.

Ar y llaw arall, ceir yn y fuchedd Gymraeg gryn dipyn o ddeunydd ychwanegol o'i chymharu â'r testunau Lladin (Lincoln a 'Vespasian'). Dau ychwanegiad arbennig o arwyddocaol yw'r darn sy'n gosod ffiniau noddfa Dewi, a disgrifiad estynedig o hyfrydwch y nefoedd a'r cwmni mawr o seintiau eraill a drigai yno. Mae'r ail ddarn hwn wedi ei gynrychioli, yn fyr iawn, yn nhestun Lincoln 149, ac mae'n bosibl iddo darddu o gysail gyffredin goll y fersiwn hwnnw a'r fuchedd Gymraeg, neu iddo gael ei ysbrydoli gan ddisgrifiad tebyg ym muchedd Ladin Cybi (James 1955: 4, 19). Wrth drafod nodweddion y fuchedd Gymraeg yn gyffredinol, o'i chymharu â'r bucheddau Lladin ('Vespasian' a Lincoln), nododd D. Simon Evans ei bod yn canolbwyntio ar Dyddewi a'r ardal leol, ar wyrthiau Dewi, ac ar ei ddaioni, ei dduwioledeb, ei ostyngeddrwydd a'i ddefosiwn, ar draul agweddau eraill (WLSL lii). Ymddengys mai'r prif fwriad wrth lunio'r fuchedd Gymraeg oedd darparu testun defosiynol, addas i leygwyr a lleygwagedd, i'w ddarllen gan unigolion neu'n gyhoeddus, er ei bod yn bosibl fod amddiffyn statws Dewi a'i esgobaeth dan amgylchiadau newydd y cyfnod ar ôl concwest 1282/3 yn gymhelliad pellach (Sims-Williams 2018: 14–16; Williams 1966: 90). (Ar y gwahaniaethau rhwng y bucheddau Lladin a Chymraeg, gw. ymhellach BDe xxx–xxxiii; WLSL xlvi–liii; James 1955: 4–6; Russell 2022a.)

Er nad yw testun gwreiddiol yr addaswr Cymraeg wedi goroesi, credir bod y testunau cynnar a gedwir yn J 119, Llst 27 a rhai llawysgrifau eraill yn bur debyg iddo (gw. [Llawysgrifau](#)); yr unig fersiwn canoloesol sy'n sylweddol wahanol yw'r 'aralleiriad' yn Pen 27ii, llawysgrif sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif. Cyhoeddwyd golygiad cynhwysfawr o destun J 119 gan D. Simon Evans (WLS), a lluniodd ef olygiad cyfansawdd hefyd (BDe), seiliedig yn bennaf ar destun Llst 27 ond gan dynnu ar ddarlleniadau llawysgrifau eraill wrth geisio creu testun 'a ddôï mor agos ag y gellid ei ddwyn at y gwreiddiol' (BDe xxxix). Felly, er mwyn cyflwyno testun nas cyhoeddwyd o'r blaen, ac un a luniwyd mewn cyfnod gwahanol, diweddarach, dewiswyd 'aralleiriad' Pen 27ii i'w olygu yn rhan o'r prosiect hwn ([BDewi \(Pen 27ii\)](#)). Cyflwynir hefyd drawsysgrifiad o'r fersiwn Modern Cynnar a ysgrifennodd Roger Morris yn rhan o'i gasgliad pwysig o fucheddau seintiau yn Llst 34 (trafodir y fersiwn hwn yn [Llawysgrifau](#) ac, ymhellach, yn Day 2022a).

Yr 'aralleiriad' yn Peniarth 27ii

Crëwyd llawysgrif Pen 27ii yn ail hanner y bymthegfed ganrif gan ysgrifydd dienw a hanai, yn ôl pob tebyg, o ogledd Cymru (RepWM i, 346–7). Yn ogystal â fersiwn o fuchedd Dewi, ceir ynddi fucheddau Mair Fadlen a Gwenfrewy (yr olaf yn anghyflawn), fersiwn o 'Bonedd y Saint', a nifer o amrywiol destunau eraill gan gynnwys deunydd seryddol a meddygol, croniclau a barddoniaeth (RepWM i, 346–7; RWM i, 355–8).

Er bod y fersiwn hwn o fuchedd Dewi yn sylweddol wahanol, mewn manau, i'r testunau Cymraeg cynharach a drafodwyd uchod, mae rhai darlleniadau'n ddigon agos i awgrymu iddo darddu yn y pen draw o'r un gysail gyffredin. Mae'n debyg ei fod yn perthyn yn agosaf i destunau J 119 a Pen 15, er nad ymddengys iddo darddu o'r naill na'r llall (gw. [Llawysgrifau](#)). Mae'n bosibl, felly, fod testun Pen 27ii yn cynnwys darlleniadau sy'n cynrychioli'r cyfieithiad Cymraeg gwreiddiol yn well na'r testunau cynharach sydd wedi goroesi. Gallai darlleniadau unigryw eraill fod yn aralleiriadau cynnar, a gedwid wrth i'r fersiwn hwn gael ei drosglwyddo, ac wrth gwrs, gallai ysgrifydd dienw llawysgrif Pen 27ii fod wedi gwneud newidiadau pellach ei hunan. Yn wir, gellir gweld ychydig o dystiolaeth am hyn yn narlleniadau'r llawysgrif. Mewn dau achos, er enghraifft, ymddengys fod gair sy'n bresennol yn y testunau cynharach wedi ei gynrychioli'n rhannol yn Pen 27ii, heb ei orffen ac wedi ei ddileu, fel pe bai'r ysgrifydd wedi ailfeddwl a phenderfynu addasu'r testun (a'i gwtogi ychydig) yn hytrach na'i gopio'n ffyddlon. Yn gyntaf, ceir yn y testunau cynharach *A'e wreic a uedrawd arnaw yno, ac a ovynnawd idaw* (BDe 7.14–15), ac yn Pen 27ii, *ai wraic a ddoyth ato ~~yn~~ ac a ovynoð iddo* (td. 39 (llau. 19–20)); ac yn ail, cymharer '*... Wrth bynny, heb wynt [J 119 heb yr hōynt] 'dabre y gyt a ni ...'* (BDe 15.14) â darlleniad Pen 27ii, *wrth byny ~~wyn~~ debre gyda ni* (td. 45 (ll. 3)). Am ddarlleniadau eraill a all awgrymu addasu diofal wrth ysgrifennu, gweler [n. xlvii](#) (testunol) a hefyd [n. 117](#), [n. 120](#), [n. 140](#), [n. 145](#) (esboniadol) a [n. viii](#) a [n. ix](#) (testunol).

Fel y disgwyliid, mae'r orgraff wedi ei diweddarau rywfaint yn nhestun Pen 27ii o'i gymharu â'r testunau cynharach. Er enghraifft, ceir *dd* neu *ð* yn hytrach na *d* am 'dd' (newidiwyd *ð* yn *dd* yn y testun golygedig), *d* yn hytrach na *t* am 'd' ar ddiwedd gair, *rr* yn lle *r* am 'rh', ac *ai* yn lle *ei* mewn geiriau fel *gwraic* a *gallai*. Defnyddir *w* yn lle *ʋ* yn rheolaidd am 'w', er bod un achos o *ʋ* mewn enw personol (gw. [n. 92](#), ar *Esgʋdyn*), ac mewn achosion eraill, hefyd, gwelir anghysondeb yn y diweddarau. Er enghraifft, fel arfer yn y testun hwn ceir *-oð* (neu weithiau *-odd*) yn hytrach nag *-aʋd* '-awdd' yn derfyniad berfau trydydd unigol gorffennol (e.e., *myddyliodd* ac *adeiloð* yn §§2, 11 (dyma ddarlleniadau'r llawysgrif, tt. 35 (llau. 10–11), 39 (ll. 2)); gthg. *medylyaʋd* ac *adeilaʋd* yn J 119, 93r (ll. 19), 95v (ll. 1)), ond ceir tair wedi eu diweddarau'n rhannol, sef *trymygawð*, *govynawð* ac *atebawð* (§§2, 5, 20; Pen 27ii, 35 (ll. 14), 37 (ll. 1), 43 (ll. 27)); gthg. *tremygaʋd*, *gouynnaʋd* ac *attebaʋd* yn J 119, 93r (llau. 22–3), 94r (ll. 12), 99r (ll. 6)).

Ceir yr argraff gyffredinol nad oedd yr ysgrifydd yn brofiadol iawn, a'i fod heb dderbyn rhyw lawer o addysg ffurfiol, o bosibl, o'i gymharu â rhai ysgrifwyr cynharach. Ymddengys yn aml ei fod yn cofnodi geiriau yn ôl sut y'u clywai, yn hytrach na dilyn confensiynau orgraff safonol. Er enghraifft, ceir *gwnayth* ac *oydd* yn rheolaidd, yn lle *gwnaeth* ac *oedd*, ac *ow* lle disgwyliid *aw* yn y gair *Mowrth* (§§25, 27, 28), ac, yn yr un modd, mae'r ffurfiau *ynoyth lvmvn*, *ni allwn i* a *gwybyddwchwi* yn adlewyrchu ynganiad (testun golygedig, §15 *y[n] noythlvmvn*, *ni allwn [n]i*, §21 *gwybyddwch [ch]wi*). Ymddengys fod terfyniadau geiriau, yn arbennig, wedi newid dan ddylanwad yr ynganiad llafar, e.e., *nycba* (§§3, 14, 18, 19, 22, 25, 28) lle ceir *nachaf* yn y manau cyfatebol yn BDe, *plwy* (§5) yn lle *plwyf*, *eisie* (§17) yn lle *eisseu*, a *[g]eirie* (§§14, 15) yn lle *geireu*. Yn y ddau achos olaf, gallai ychwanegiad yr ail *i* fod yn arwydd o ddiweddarau neu o ddylanwad tafodiaith y gogledd (cymharer yr enghreifftiau a ddyfynnir yn GPC d.g. *gair*¹ ac *eisiau*, a gw. hefyd Thomas 1993: 26–8, 38–9). Ceir yn y fersiwn hwn hefyd y ffurf *diwaytha* (§§10, 25) yn hytrach na *diwethaf* (BDe 5.10, 19.8), ac mae'n ddiddorol fod Jane Cartwright wedi tynnu sylw at ddefnydd yr un ffurf (*diwaytha*) yn y fersiwn o fuchedd Gwenfrewy yn Pen 27ii, wrth drafod ffurfiau llafar neu dafodieithol a welir yn y testun hwnnw (Cartwright 2022: 245); at hynny, defnyddir sillafiad tebyg, *diyaethaf*, yn y fersiwn diweddarach o fuchedd Dewi yn Llst 34, llawysgrif a ysgrifennwyd yn sir Ddinbych. Fodd bynnag, a dychwelyd at nodweddion tafodieithol testunau Pen 27ii, ni welir cynifer o ffurfiau 'gogleddol' ym muchedd Dewi, o'i chymharu â buchedd Gwenfrewy. Er enghraifft, cytuna'r fersiwn hwn o fuchedd Dewi â'r testunau cynharach (deheuol) wrth ddefnyddio'r terfyniad *-unt/-vnt* ar gyfer arddodiaid trydydd lluosog, yn hytrach na'r terfyniad *-ynt* (fel yn Gymraeg diweddar) a welir ym muchedd Gwenfrewy, ac a all fod wedi tarddu o'r gogledd-ddwyrain yn wreiddiol (Cartwright 2022: 245; ac ar arwyddocâd *-ynt*, gw. Sims-Williams 2013: 19–20, 44). (Defnyddir *-ynt* yn y fersiwn o fuchedd Dewi yn Llst 34 hefyd.)

Mae'n ddiddorol fod dylanwad ynganiad yr iaith lafar i'w weld yn aml yn y darnau araith uniongyrchol, fel pe bai'r ysgrifydd yn ceisio bywiogi ei destun; gweler §5 yn enwedig, a chymharer y cywasgu a welir

mewn dau ymadrodd sy'n cynnwys y rhagenw meddiannol *fj*, sef *v'wyneb i a v'enaid* (§§10, 25; BDe 5.15 *vy wyneb i*, 19.21 *vy eneit*). (Cymharer hefyd y draffodaeth ar ddefnydd y ddwy ffurf ar enw'r sant, David a Dewi, mewn araith uniongyrchol, yn [n. 20](#).) Nid oes patrwm cyson, er hynny; er enghraifft, yn §15 ceir *odde* yn y naratif ac *oddef* mewn araith sy'n dilyn. Efallai fod rhai ffurfiau llafar neu dafodieithol wedi ymddangos yn y fersiwn hwn o'r fuchedd bron drwy hap a damwain wrth iddo gael ei drosglwyddo (yn enwedig yn ystod cam(au) olaf, gogleddol ei drosglwyddiad). Gwelir tystiolaeth am hyn, o bosibl, yn y ffaith fod fersiwn Pen 27ii yn defnyddio'r ffurf *ef* fel geiryn rhagferfol fel arfer, fel y gwelir hefyd yn y testunau cynharach, ond bod un achos o'r ffurf *vo*, yn yr ymadrodd *vo a ymddangoses ffynon* (gthg. BDe 4.14 *ef a ymdangosses*, a gw. [n. 33](#)).

Un nodwedd neilltuol ar fersiwn Pen 27ii o'r fuchedd yw hepgor llythrennau o ganol geiriau, yn enwedig yn rhan olaf y testun. Gallai rhai achosion fod yn ffurfiau llafar, megis yr arddodiad trydydd unigol gwrywaidd *yno* yn §22 (ceir y ffurf safonol *ynddaw* yn §9), a'r enw *tywysoc* yn §§13, 23 a 24 (ceir y ffurf safonol *tywysoc* mewn ail achos yn §23). Nodir y ddwy ffurf hyn yn amrywiadau yn GPC d.g. *yn*¹ a *tywysog*, a'r gyntaf yn ffurf 'ar lafar' a gofnodwyd yn ardal Bangor yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif (gw. Fynes-Clinton 1913: 577). Yn yr un modd, gallai'r ffurf *klwyd* (§27) fod yn gywasgiad ar lafar o ryw ffurf amhersonol gorffennol ar *clywed* (gw. [n. 156](#)). Ar y llaw arall, mae'n annhebygol fod ffurfiau fel *pregev* (§23, am *pregethv*) a *kenav* (§21, am *kenadav*) yn ffurfiau llafar hyfyw; yn hytrach, gallai'r rhain fod naill ai'n llithriadau wrth ysgrifennu ar frys neu'n rhyw fath o 'law-fer' fwriadol, hyd yn oed (gw. [n. xxxii](#) a [n. xxix](#) (testunol)).

Rhywbeth arall a all beri anhawster wrth ddarllen ei fersiwn ef o'r fuchedd yw'r dryswch gydag enwau priod. Llurguniwyd rhai enwau: darganfyddir y 'tri rhyfeddod' ger *avon ddofn* (§1) yn hytrach nag *auon Teiui* neu *auon Deiui* (gw. [n. 5](#)); newidir yr enw *Repecwn* (Repton) yn **Pepawn* (§11; [n. 49](#)); troir *Llann Gyfuelach* (Llangyfelach), enw eglwys bwysig i'r gogledd o Abertawe, yn *Llan Gyvelan* (§11; [n. 56](#)); ac mae dryswch rhwng enwau'r afonydd Tywi a Dyfi (§24) yn peri symud ardal nawdd Dewi ymhell i'r gogledd o'i brif eglwys yn Nhyddewi (gw. [n. 135](#); cymharer hefyd [n. 76](#), ar *awn i Ddyved*). O ran yr achos olaf hwn, ymddengys sillafiad enw afon Tywi yn wallus neu'n ansafonol yn y testunau cynharach sydd wedi goroesi, fel ei bod yn hawdd gweld sut y gallai fod wedi ei gamddehongli'n enw afon arall; ond mewn achosion eraill mae darlleniadau Pen 27ii mor wahanol nes awgrymu bod y gynsail yn anodd neu'n amhosibl i'w darllen mewn manau. Ategir hyn gan y ffaith fod un enw, *Henllan*, wedi ei hepgor, ond gan adael bwlch yn y llawysgrif fel pe bai'r ysgrifydd yn bwriadu ei ychwanegu'n ddiweddarach (§1; [n. 6](#)). Ni cheir ychwaith y pâr o enwau *Linbenllan* a *Litonmaucan/Liton Mancan*, a'r cyntaf yn enw arall ar Henllan, mae'n debyg (BDe 1.15–16; WLSD 1.14; a gw. [n. 7](#)), ac, yn wahanol i'r testunau cynharach, ni nodir *Hennllwyn* yn enw Cymraeg am *Vetus Rubus* (sef Hen Fynyw; gw. [n. 36](#)). At hynny,

‘crëwyd’ lle newydd yn Iwerddon, sef *Rosin*, o ganlyniad i ddryswch gydag enw Glyn Rhosyn (§2, a gw. [n. 15](#)).

Os oedd y gynsail yn anodd ei darllen, byddai'n naturiol i enwau lleoedd anghyfarwydd gael eu llurgunio i raddau mwy na'r enwau cyffredin; yn sicr, ymddengys nad oedd ysgrifydd testun Pen 27ii, ac yntau'n dod o'r gogledd yn ôl pob tebyg (RepWM i, 346), yn gyfarwydd iawn ag enwau lleoedd neu afonydd y de, neu â hanes Dewi. Ceir ffurfiau annisgwyl ar rai enwau personol hefyd yn ei destun ef, megis *Kvchen*, *Elldrud* a *Dvnt* (§§2, 11, 15; gthg. BDe 2.21 *Cruchier* (J 119 *Kruchier*), 6.16 *Nailtrum* (J 119 *Nailtrum*; VSD §13 *Martrun*), 9.13 *Dunawt*). At hynny, mae anghysondeb mawr weithiau; er enghraifft, gelwir athro Dewi yn *Pawlys*, *Powls* a *Pawlus* (§§10, 11, 20; gthg. BDe 5.4 *Paulinus*, 19 *Paulinus*), ac enw negesydd Aidan yw *Esgodyn*, *Ysgodyn* neu *Ysgodun* (§§18, 19; gthg. BDe 11.4, 5, 18, 12.3, 4 *Scuthyn*) (gw. hefyd [n. 66](#) (*Eliut*) a [n. 62](#) (*Gloyslan*)). Crëwyd enw newydd hefyd, sef *Dvlcon* (§19), yn llurguniad ar yr enw cyffredin *diagon*, fwy na thebyg (BDe 12.1).

Yn ogystal â diweddarau orgraff, gwelir tuedd yn fersiwn Pen 27ii i ddiweddarau geiriau neu eu newid yn ffurfiau mwy cyfarwydd. Mewn sawl achos, ceir *[g]wnayth* yn ferf gynorthwyol yn lle'r ffurf Gymraeg Canol *[g]loruc* (gw. [n. 13](#), [n. 45](#)), a cheir hefyd, er enghraifft, *[t]ri rryveddod* yn lle *tri dyuot* (§1 a [n. 4](#); BDe 1.11); *[b]ywyd* yn lle *[b]uched* (§2; BDe 2.2); *[d]iddanv* yn lle *dubudaw* (§3; BDe 2.11); *eilwaith* yn lle *elchwyl* (§5; BDe 3.14); a *lle* yn lle *[c]yueir* (§15; BDe 9.10). Mae'n werth nodi bod rhywfaint o ddiweddarau geiriau, hefyd, yn y fersiwn diweddarach yn Llst 34, ond bod geiriau gwahanol wedi eu dewis yno fel arfer; ceir, felly, *[t]ri pheth* yn lle *tri dyuot*, a *[c]onphordio* yn lle *dubudaw* (Llst 34, 267 (llau. 7, 26)).

Un gair arall a allai fod wedi ei ystyried yn rhy anodd neu hen ffasiwn yw *wynepglawr* ('heb na thrwyn na llygaid'; gw. GPC). Yn y testunau cynharach fe'i ceir yn hanes iacháu golwg y dyn a ddaliodd Ddewi wrth iddo gael ei fedyddio, ond fe'i hepgorwyd o destun Pen 27ii gan gael gwared â'r syniad fod unrhyw anffurfiad ar wyneb y dyn, a'r cwbl a ddywedir yw ei fod yn ŵr dall *a gollasai i olwc kynn no hynny* (§8, a gw. [n. 35](#)). Yn y darn hwn yn gyffredinol, mae'r aralleirio'n peri bod y testun yn llifo'n rhyddach, gan ddilyn trefn gronolegol sy'n fwy rhesymegol ac yn llai ailadroddus. Canlyniad arall i'r aralleirio yw bod y wyrth ychydig yn llai rhyfeddol nag yn y testunau cynharach, am nad oes angen adfer trwyn a llygaid y dyn. Mae'n bosibl, fodd bynnag, nad yw hyn ond yn sgil-ffaith yr aildrefnu a ysgogwyd gan y gair anghyffredin *wynepglawr*. Gwelir ymateb gwahanol i'r un broblem yn fersiwn Llst 34, sy'n cadw'r gair *wynepglawr* ac yn ychwanegu cymal sy'n gwneud ei ystyr yn amlwg: *Ac or aur y ganed dal uyneb glawr cybened oed, ar cangcwr a lausai drwyn y dyn dal* (td. 270 (llau. 7–9); a gw. [n. 35](#)).

Fel yr awgrymwyd uchod mewn perthynas ag enwau priod, gallai nifer o ddarlleniadau unigryw eraill testun Pen 27ii fod yn ffrwyth anhawster, neu ddiffyg canolbwyntio, wrth gopïo neu ddehongli'r gynsail (gw., e.e., [n. 123](#) (ar *mawlbayr*), [n. 133](#) (*Ac ef a'i hayddodd ar y dydd hwnw*), [n. 144](#) (*servbin*), [n. 154](#) (*A minav a gredaf i'r ffordd i kredodd yn tadav ni*)). Ar y llaw arall, mae'n bosibl fod rhai darlleniadau unigryw yn atgynhyrchu darlleniadau amrywiol yn y gynsail. Mae'n ddiddorol fod rhai o ddarlleniadau testun Pen 27ii yn rhagori o ran synnwyr ar eiddo'r testunau Cymraeg cynharach, neu'n nes at ddarlleniadau *Vita S. David*. Tynnir sylw yn y nodiadau esboniadol at rai achosion o'r fath a all, o bosibl, gynrychioli darlleniad y cyfieithiad gwreiddiol yn well na'r un o'r testunau cynharach sydd wedi goroesi (gw. [n. 73](#) (*y wraig ynvyd*), [n. 102](#) (*mewn onen a oydd rrwng y ffreitvr a'r avon*), [n. 103](#) (*trywyr*), [n. 122](#) (*dyrcha i hvn mab a'i enaid yno*), a'r drafodaeth ar y [Llawysgrifau](#)). Ni ellir bod yn sicr, fodd bynnag, na cheid y darlleniadau hyn yn Pen 27ii o ganlyniad i ymdrechion addasw(y)r i wella'r testun (cymharer [n. 14](#) (*Ac ymbarodtoi a wnayth Padric i ado y lle hwnnw*) a [n. 98](#) (*sanv arno*)).

Ceir un o'r newidiadau mwyaf trawiadol i'r fuchedd yn hanes gwella golwg Paulinus, athro Dewi, ac yn yr achos hwn mae'n bosibl iawn fod yr addasu wedi ei ysgogi gan wall mewn rhyw gynsail. Wrth ddisgrifio'r wyrth mae'r holl destunau cynharach yn nodi bod Paulinus wedi colli ei *lygeit*, cyn mynd ymlaen i ddisgrifio Dewi'n rhoi ei law ar y *lygeit ef*, a'i olwg yn cael ei adfer wedyn (BDe 5.6–7, 17–18 *Ac yna y damchweinyawd colli o athro Dewi y lygeit, o dra gormod dolur yn y lygeit ... A phan rodes Dauyd y law ar y lygeit ef, y buant holl iach*). Gallai hyn fod wedi ymddangos braidd yn anghyson, a diau mai'r ystyr a fwriedid yw bod Paulinus wedi colli golwg ei lygaid, neu 'olau ei lygaid', *lumen oculorum suorum*, yn ôl *Vita S. David*, yn hytrach na cholli'r llygaid eu hunain (VSD §11; ceir ymadrodd tebyg yn VSDauidLincoln §12). Efallai fod gair sy'n cyfateb i *lumen* wedi ei hepgor drwy amryfusedd, naill ai wrth gyfieithu'r testun i'r Gymraeg neu wrth gynhyrchu copi cynnar. Yn fersiwn Pen 27ii (§10), ar y llaw arall, dywedir, yn syml, fod athro Dewi wedi colli ei *olwc*. Mae hyn yn ddigon i gael gwared â'r dryswch, ond ceir mwy o addasu wedyn, gan esbonio bod Paulinus wedi mynd yn ddall nid *o dra gormod dolur yn y lygeit* ond yn hytrach *o dra ysdvdio yn i lyvre*. Efallai fod yr addaswr yn ystyried bod y darlleniad gwreiddiol braidd yn wan, ac yn ceisio cynnig esboniad mwy penodol a mwy personol.

Un o'r addasiadau sylweddol eraill yw'r estyniad i gŵyn Padrig, ar ôl iddo glywed bod rhaid iddo adael am Iwerddon (§2 *pann wnai wasgaradigayth arnaf, a mine yn addoli iddaw drwy i ofn a'i gariad*; gthg. darlleniad byrrach BDe 2.5–6, *a uu yr yn uab yn gwassanaethu idaw drwy ovin a charyat*). Efallai fod yr addaswr wedi hepgor y cyfeiriad at Badrig yn gwasanaethu Duw ers ei blentyndod am ei fod yn gwybod am draddodiadau gwahanol amdano; yn ôl ei *Confessio* ei hun, herwgipiwyd Padrig pan oedd tuag un ar bymtheg a dim ond yn ddiweddarach, pan oedd yn gaethwas yn Iwerddon, y troes at Dduw (<http://www.confessio.ie/>, §§1–2). Gallai'r cyfeiriad at *wasgaradigayth*, ar y llaw arall, fod wedi ei gynnwys er mwyn effaith ddramatig, gan adlewyrchu, o bosibl, yr un diddordeb yng nghymeriadau'r

stori ag a awgrymir gan y cyfeiriad at Paulinus yn niweidio ei lygaid drwy ymgolli'n ormodol yn ei lyfrau.

Gallai diddordeb o'r fath esbonio, hefyd, pam y ceir yn nhestun Pen 27ii y darlleniad *gwr ni vynodd Nonn na chynt na gwedi* yn hytrach na *gwr ny bu idi hi na chynt na gwedy* (§3; BDe 3.5–6; mae'n werth nodi y ceir ymadrodd tebyg yn fersiwn Pen 27ii o fuchedd Gwenfrewy: BGwenfrewy (Pen 27ii), 93 (ll. 16) *A meddyliaw a wnai na mynai wr byth*). Ceir hefyd un newid bach sy'n ymwneud â chymeriad Dewi, sef y cyfeiriad ato ef a'i ddisgyblion yn cysuro Boia ar ôl i'w wraig ffoi, yn hytrach nag ymlawenhau fel yn y testunau cynharach (§15 *a'i lla[w]enhasant ef*, a gw. [n. 81](#)). Yn yr achos hwn, y tebyg yw bod y newid yn ffrwyth camddehongli'r gystrawen wreiddiol, ond nid amhosibl fod barn yr ysgrifydd am natur Dewi wedi dylanwadu ar y darlleniad, naill ai'n ymwybodol neu'n anymwybodol.

Gwelir darlleniad arall a all adlewyrchu diddordebau'r ysgrifydd yn yr hanes am y cynllwyn i wenwyno Dewi. Yn y testunau Cymraeg cynharach, disgrifir marwolaeth yr ast sy'n bwyta darn o'r bara gwenwynig fel a ganlyn: *ac y syrthyawd y blew oll yn enkyt y trewit yr amrant ar y llall, a thorri y croen y amdanei, a syrthyaw y holl berued y'r llawr* (BDe 11.10–13). Yn Pen 27ii cedwir y disgrifiad o golli'r blew, er symleiddio'r ymadrodd am sydynrwydd y digwyddiad hwn, ond mae ail hanner y darn yn wahanol iawn: *Ac ef a syrthiodd i blew oll yr awr hono, a thori yn ddav gelwrn a syrthio yn varw i lawr* (§19). Gwelir yma ddylanwad y traddodiad rhyddiaith Cymraeg ehangach, mae'n debyg, am fod disgrifiadau tebyg o dorri neu hollti 'yn ddau gelwrn' (sef, yn ddau lestr) i'w cael mewn cyd-destun tebyg yn 'Culhwch ac Olwen' ac mewn rhai fersiynau o 'Cronicl Turpin' a Buchedd Margred (gw. [n. 100](#)).

Yn gyffredinol, fel y gwelir mewn nifer o'r achosion a drafodir uchod, mae darlleniadau fersiwn Pen 27ii yn tueddu bod yn fyrrach na'r darlleniadau cyfatebol mewn fersiynau eraill o'r fuchedd Gymraeg (tynnir sylw at duedd tebyg yn fersiwn Pen 27ii o fuchedd Gwenfrewy yn Cartwright 2022: 252). Weithiau mae hyn yn gwella'r testun, fel y gwelir mewn sawl man lle hepgorwyd achos diangen o'r ymadrodd *heb ef* ('meddai fe') (gw., e.e., §1 *a dywedvd wrthaw, 'Yvorv ti a ai i hely ...'*; gthg. BDe 1.10–11 *a dywedut wrthaw: 'Auory,' heb ef, 'ti a ey y hely ...'*). Ambell waith, fodd bynnag, collwyd gwybodaeth a allasai fod o fudd i'r darllenydd neu'r gwrandäwr, megis yr atgoffâd gan Paulinus, yn synod Brefi, y bu ef yn un o athrawon Dewi (gw. [n. 107](#)). At hynny, weithiau ymddengys fod diofalwch wrth grynhoi wedi amharu ar ansawdd neu synnwyr y testun, i amrywiol raddau (gw. [n. 23](#) (*ac ni lewes Dewi*), [n. 113](#) (*yr anvonasant yn ganadav benaf a oydd yno*), [n. 151](#) (*Ni chlowsai neb y rrvw bregeth irioyd ...*)).

Nodwedd bwysig arall ar y fersiwn diweddar hwn o'r fuchedd yw bod rhai darnau sylweddol neu adrannau cyfan wedi eu hepgor. Ymhlith y rhain, yn rhyfeddol braidd, mae'r wyrth enwog a barodd i'r ddaear godi'n fryn o dan draed Dewi wrth iddo bregethu yn synod Brefi. Canolbwyntir yn hytrach, yn

nhestun Pen 27ii, ar hynodwydd ei bregethu, ac yn benodol ar y ffaith ei fod yn glywadwy i'r dorf enfawr a fu'n bresennol. Mae'n anodd dweud beth yw arwyddocâd absenoldeb y bryn gwyrthiol o'r fersiwn hwn. Dylid nodi iddo gael ei hepgor o'r fersiwn byr o'r fuchedd Ladin yn Lincoln 149 hefyd, a hyn yn awgrymu nad oedd pawb yn ei ystyried yn rhan hollbwysig o stori Dewi. Ac eto, mae'n debyg fod y wyrth hon yn adnabyddus iawn yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Yn ôl Gerallt Gymro, dyma'r fwyaf nodedig o holl wyrthiau Dewi (Jones 1938: 104), a chyfeiriodd nifer o feirdd ati gan gynnwys dau ogleddwr, Iolo Goch a Dafydd Llwyd o Fathafarn (DewiIG llau. 57–8; DewiDLI llau. 31–4; gw. hefyd DewiGB llau. 27–8; DewiIRh llau. 85–6; DewiLGC2 llau. 27–8, ac, o bosibl, DewiRhRh llau. 13–14 (gw. DewiRhRh n. 15 (esboniadol)); ar y wyrth hon yn y farddoniaeth, gw. ymhellach Parry Owen 2022: 279–81).

Mae'n ddiddorol ystyried a allai absenoldeb y bryn gwyrthiol o destun Pen 27ii adlewyrchu agwedd feirniadol tuag at wyrthiau'n gyffredinol, yn enwedig yng ngoleuni sylw Glanmor Williams y gallasai rhai llygwyr Cymreig duwiol ac addysgedig, yn y degawdau cyn y Diwygiad Protestannaidd, fod yn agored i dueddiadau anuniongred neu feirniadol (Williams 1997: 23). Fel y nodwyd uchod, mae un o wyrthiau cynharaf Dewi, sef adfer golwg y dyn a'i daliodd adeg ei fedyddio, ychydig yn llai trawiadol yn y fersiwn hwn oherwydd hepgor unrhyw gyfeiriad at anffurfiad ar ei wyneb. Yn yr un modd, gellid ystyried bod disgrifiad testun Pen 27ii o adfer golwg Paulinus yn lleihau 'maint' y wyrth honno ryw faint, drwy gael gwared â'r awgrym bod angen adfer ei lygaid hefyd. Fodd bynnag, yn y ddau achos hyn mae'n ddigon posibl mai prif gymhelliad y newidiadau oedd peri bod y disgrifiadau o'r digwyddiadau gwyrthiol hyn yn symlach ac yn haws i'w deall, yn hytrach na bod bwriad i leihau eu heffaith neu eu pwysigrwydd. Mae'n werth nodi bod testun Pen 27ii yn cadw gwyrthiau sylweddol eraill, gan gynnwys atgyfodi mab y wraig weddw (§22) a thaith Scuthyn dros fôr Iwerddon ar gefn anifail morol (§18). At hynny, mae pethau digon rhyfeddol yn digwydd yn y fersiwn o fuchedd Gwenfrewy yn y llawysgrif hon. Er enghraifft, disgrifir y tywysog a dorrodd ben y santes yn toddi'n *llyn tawdd* a chael ei lyncu gan y ddaear, a Gwenfrewy'n cael ei hatgyfodi ar ôl i'w hewythr Beuno roi ei phen ar ei gwddf drachefn (BGwenfrewy (Pen 27ii), tt. 98–9; Cartwright 2022: 248–9). Yn fwy cyffredinol hefyd mae'n eglur fod gan y seintiau rôl bwysig mewn bywyd crefyddol yng Nghymru hyd at adeg y Diwygiad, ac yn ddiweddarach hefyd i ryw raddau (Hurlock 2018: 209; a gw. Olson 2014 ar agweddau at y seintiau yn oes Elisabeth I, mewn perthynas â chymunedau Catholigion reciwsant a'r boblogaeth ehangach).

Mae yna rai newidiadau eraill yn fersiwn Pen 27ii o fuchedd Dewi, fodd bynnag, a allai awgrymu bod yr addaswr yn 'feirniadol', o leiaf yn yr ystyr ei fod yn awyddus i'w destun wneud synnwyr a chyfeirio at y seintiau mewn termau priodol. Er enghraifft, yn y disgrifiad o'r digwyddiadau ym Mrefi, fel y'i ceir yn y testunau cynharach, defnyddir y ferf *adoli* a Dewi'n wrthrych anuniongyrchol iddi: *holl seint yr ynys bonn*

a'r brenbined oll a ostyngassant ar eu glinyeu y adoli y Dewi (BDe 18.15–16). Mae'n debygol mai 'anrhydeddu' neu 'talw gwrogaeth' oedd ystyr *adoli* yn y cyfieithiad Cymraeg gwreiddiol (gw. yr amrywiol ystyron yn GPC d.g. *addolaf: addoli*), ond efallai fod addaswr diweddarach wedi ei hystyried yn air anaddas yn y cyd-destun hwn am na ddylid addoli neb ond Duw (a deall y ferf yn ei hystyr modern arferol). Yn fersiwn Pen 27ii y cwbl a ddywedir yw bod gwŷr mawr y wlad yn ymostwng i Ddewi, gan hepgor y ferf *adoli* (a'r cyfeiriad at benlinio): *holl saint yr ynys honn a'r brenbinedd a'r tywysogion a ostyngasant iddaw* (§23).

Darn arall o'r fuchedd a allai fod wedi ei ystyried yn broblemus yw'r cyfeiriad rhethregol at Dduw'n penodi gwahanol arweinwyr yn y byd: *Megys y rodes Duw bennadur yn y mor ar bop kenedyl o'r pysgawt, a megys y rodes Duw bennadur yn y daear ar yr adar, velly y rodes ef Dewi yn bennadur ar y dynyon yn y byt hwnn* (BDe 18.3–6). Yn nhestun Pen 27ii, ar y llaw arall, nid *adar* ond yn hytrach *aniviliaid* yw'r creaduriaid sy'n byw ar y ddaear (yn ddigon rhesymegol), ac mae rhan olaf y darn wedi ei chwtoegi, gan hepgor enw Dewi a'r cyfeiriad at y byd: *Mal i [rr]oys Duw yn y mor benadur ar bob kenedl bysgod, ac val i rroddes ar y ddayar penadur ar yr aniviliaid, velly i rroddes benadur ar y dynion* (§23). Er bod y cyd-destun yn rhethregol a'i bod yn amlwg nad oedd y cyfieithydd gwreiddiol wedi bwriadu awgrymu bod awdurdod Dewi yn estyn dros y byd i gyd (ym mhob fersiwn o'r fuchedd, mae'n eglur mai Ynys Brydain yw ei diriogaeth briodol), efallai fod yr addaswr yn awyddus i osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch neu gamddealltwriaeth mewn perthynas â statws Dewi. Yn yr un modd, yn hytrach nag awgrymu, fel yn y testunau cynharach, mai pregeth olaf Dewi oedd y bregeth orau a glywyd erioed (BDe 21.12 *A'e gyfryw kyn noc ef ny chlywspwynt*), yn fersiwn Pen 27ii ychwanegwyd yr ymadrodd *yn y dyrnas honn* (§27), er mwyn osgoi rhoi'r gamargraff, o bosibl, fod Dewi'n pregethu'n well na'r Iesu, hyd yn oed. Newid arall yn nhestun Pen 27ii a all ymwneud â statws seintiau yw'r addasu yn yr adran am Badrig, sy'n hepgor y cyfeiriad ato fel *ebostol* yn Iwerddon. Efallai fod hyn yn adlewyrchu teimlad y dylid defnyddio'r gair hwn mewn perthynas ag Apostolion y Testament Newydd yn unig, ac nid i ddynodi un sy'n eu hefelychu neu gennad yn fwy cyffredinol (cymharer y darlleniad *Escob* yn Llst 34; a gw. [n. 16](#)).

Gwelir newid arall y gellid dadlau iddo leihau'r pŵer ysbrydol a gysylltir â Dewi wrth ddisgrifio natur arbennig Glyn Rhosyn, o safbwynt claddu'r meirw. Yn fersiwn Pen 27ii mae'n eglur nad yw claddu corff yn y fan honno'n ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau gwaredigaeth i enaid yr ymadawedig, am fod angen ffydd hefyd (mae'r pwynt pwysig hwn braidd yn amwys yn y testunau cynharach; gw. [n. 64](#)). Ar y llaw arall, gellid ystyried bod testun Pen 27ii fel pe bai'n ychwanegu at rym Dewi fel eiriolydd, wrth ychwanegu'r ymadrodd *ac ni chyvedliwir vddunt ev pechodav* ar ôl y rhestr o'r bobl a gâi fynd i'r nefoedd yn ei gwmni (§25). Newid arall a all ymwneud ag arwyddocâd ysbrydol y fuchedd yw'r cwtoegi i araith olaf Dewi i'w ddilynwyr. Yn y rhan fwyaf o'r testunau cynharach ei eiriau olaf oll yw *byth bellach nyt ymwelwn ni* (BDe 21.21–2) ond hepgorir yr ymadrodd hwn o destun Pen 27ii. Efallai fod y fersiwn hwn

o eiriau olaf Dewi wedi ei ystyried yn rhy ddigalon, oherwydd y byddai Dewi wedi gobeithio'n ffyddlon y byddent i gyd yn cwrdd eto yn y nefoedd. Ac yn wir, yn *Vita S. David*, ac yn fersiwn Cotton Titus D.xxii o'r fuchedd Gymraeg, dywed Dewi yn benodol na chwrddent eto 'yn y byd hwn' (gw. [n. 155](#)).

Yng ngoleuni'r addasiadau a drafodwyd uchod, a all awgrymu diddordeb yn arwyddocâd diwinyddol y fuchedd, mae'n syndod na cheir yn fersiwn Pen 27ii unrhyw ran o'r disgrifiad estynedig o'r nefoedd a geir yn y testunau cynharach, a bod y weddi ar ddiwedd y fuchedd wedi ei hepgor hefyd. Efallai fod yr adrannau olaf hyn wedi eu hepgor ar adeg wahanol wrth drosglwyddo'r testun, gan ysgrifydd neu addaswr arall, naill ai drwy hap a damwain neu oherwydd ystyried nad oeddynt yn rhan ganolog o stori Dewi (cymharer y sylw yn James 1955: 2 fod ysgrifydd testun Pen 27ii wedi hepgor y pethau a ystyriai'n amherthnasol, gan gyflwyno 'only the facts of St. David's life'). Mae'n werth nodi hefyd nad yw testun Pen 27ii yn cael ei ragflaenu gan achau Dewi, fel y gwelir yn y llawysgrifau cynharach. Efallai fod yr achau hyn wedi eu hepgor am fod Pen 27ii yn cynnwys fersiwn o 'Bonedd y Saint', fel y teimlid bod cynnwys gwybodaeth bellach am achau Dewi yn ddiangen, er na fyddai rhyw lawer o'r wybodaeth wedi ei dyblygu mewn gwirionedd. Yn 'Bonedd y Saint' nodir achau Dewi o Gunedda Wledig ar ochr ei dad a [*Ch*]enyrr o *Gawr Gawch yMynyw* ar ochr ei fam, ond yn yr adran sy'n rhagflaenu'r fuchedd ceir achau llawer hwy, ar ochr y tad yn unig, sy'n olrhain disgynyddiaeth Dewi o chwaer y Forwyn Fair (Lewis 2023: §1; BDe 1.2–6).

Dylid nodi bod amrywiadau testunol, yn ogystal â thraul a difrod, yn arbennig o gyffredin yn adrannau cyntaf ac olaf bucheddau (Russell 2022a: 106n23). Mae'n drawiadol fod nifer sylweddol o wallau i'w gweld yn adrannau olaf testun Pen 27ii, gan gynnwys achosion lle'r ymddengys fod geiriau ac ymadroddion wedi eu talfyrru neu eu crynhoi'n ddiotal (gw. y nodiadau testunol ac esboniadol). Ceir yr argraff fod yr ysgrifydd yn blino neu fod ei sylw'n crwydro wrth iddo agosáu at ddiwedd ei dasg, ond mae'n bosibl hefyd fod rhan olaf ei gysail yn ddiffygiol ac yn peri trafferth iddo. (Cymharer sylw Jane Cartwright, ei bod yn bosibl fod rhan olaf cysail y fersiwn o fuchedd Gwenfrewy yn Pen 27ii yn ddiffygiol (Cartwright 2022: 260, 265).) Efallai fod anawsterau wrth ddarllen y gysail mewn manau eraill hefyd, a bod hyn wedi peri hepgor rhai darnau o'r testun a chwlio rhai eraill, gan gynnwys nifer o enwau personol, ac enwau lleoedd yn arbennig (fel y trafodir uchod).

Fersiwn Peniarth 27ii: rhai casgliadau

Dadleuir yn y drafodaeth am y [llawysgrifau](#) na tharddodd fersiwn Pen 27ii o fuchedd Dewi o'r un o'r testunau cynharach sydd wedi goroesi, er ei bod yn ymddangos iddo berthyn yn agosaf at destunau J 119 a Pen 15. Mae'n bosibl, felly, fod rhai o'i ddarlleniadau'n cynrychioli'r cyfieithiad gwreiddiol yn well nag unrhyw fersiwn arall o'r fuchedd Gymraeg sydd gennym. Mae'n anodd adnabod darlleniadau o'r fath, fodd bynnag, am fod cynifer o addasiadau, gwallau a hepgoriadau yn y testun hwn. Gallai

darlleniadau sy'n rhagori ar fersiynau eraill o ran synnwyr, neu sy'n agosach at *Vita S. David*, fod yn ffrwyth ymdrechion rhyw addaswr i wella ei destun, yn hytrach na'u bod yn tarddu o'r cyfieithiad gwreiddiol. Gallai newidiadau pellach hefyd fod wedi eu gwneud er mwyn peri bod y testun yn haws i'r gynulleidfa gyfoes ei ddeall, yn fwy diddorol neu'n fwy buddiol o safbwynt ysbrydol. Ar y cyfan, ymddengys fod addasiadau'r fersiwn hwn yn adlewyrchu awydd i adrodd hanes Dewi mewn modd ystyrlon, a diddordeb arbennig yn arwyddocâd crefyddol y fuchedd ac yng nghymeriad Dewi a ffigurau eraill yn ei stori.

Efallai fod rhai o'r addasiadau yn y fersiwn hwn o'r fuchedd yn perthyn i gyfnod cymharol gynnar yn ei hanes, ond gall eraill fod yn waith ysgrifydd llawysgrif Pen 27ii. Mae'n debygol mai ysgrifydd Pen 27ii a fu'n gyfrifol hefyd am lawer o'r crynhoi a'r mân hepgoriadau a welir yn y fersiwn hwn (gw. uchod, ar ddechrau'r adran flaenorol, a chymharer sylw Jane Cartwright fod y fersiwn o fuchedd Gwenfrewy yn Pen 27ii yn tueddu hepgor ymadroddion, brawddegau neu adrannau byrion (Cartwright 2022: 252)). Gallai rhai o'r hepgoriadau, a'r gwallau, a welir yn fersiwn Pen 27ii adlewyrchu diffygion yn ei gysail uniongyrchol. Mae'n debygol fod yr enwau lleoedd llwgr, yn arbennig, yn perthyn i'r cyfnod olaf (gogleddol) yn hanes y testun, fel y trafodir uchod. Efallai fod rhywfaint o'r addasu yn y fersiwn hwn wedi ei ysgogi gan ddiffygion rhyw gysail hefyd, a'r ysgrifydd yn gorfod defnyddio ei ddychymyg wrth geisio dehongli darlleniadau aneglur, neu ddefnyddio ei greadigrwydd i lenwi bylchau.

Fel y trafodwyd uchod, ceir yn y fersiwn o fuchedd Dewi yn Pen 27ii rai nodweddion tafodieithol a all adlewyrchu tarddiad gogleddol y llawysgrif; gwelir hyn hefyd, ac yn fwy amlwg, yn y fersiwn o fuchedd Gwenfrewy yn y llawysgrif hon (Cartwright 2022: 245). Nodwedd arall ar fersiwn Pen 27ii o fuchedd Dewi a allai ymwneud â tharddiad daearyddol y testun yw'r ffaith nad Deiniol (nawddsant Bangor) ond yn hytrach Beuno, sant pwysicaf gogledd Cymru, sy'n cael ei anfon gyda Dyfrig i annog Dewi i ddod i synod Brefi (gw. [n. 114](#)). Roedd Beuno'n ewythr i Wenfrewy, a gall nad yw'n gyd-ddigwyddiad fod ei buchedd hi'n un o'r ddwy fuchedd arall a geir ynghyd â buchedd Dewi yn Pen 27ii, a bod Gwenfrewy ei hun yn gysylltiedig yn gryf â dau ganolfan yn y gogledd-ddwyrain, Treffynnon a Gwytherin (Cartwright 2008: 72–3). Fel y noda Jane Cartwright, mae gan Fair Fadlen, gwrthrych y drydedd fuchedd yn Pen 27ii, gysylltiad â'r ardal hon hefyd, am fod ganddi eglwys a ffynnon yng Ngherrig-y-drudion, sir Ddinbych; at hynny, mae gan Fair Fadlen rôl ym muchedd Ieuan Gwas Badrig, un o seintiau eraill gogledd Cymru (Cartwright 2022: 246). Mae'n bosibl, felly, y gellid cysylltu rôl 'cameo' Beuno yn y fersiwn o fuchedd Dewi yn Pen 27ii â tharddiad y llawysgrif hon yn y gogledd, neu'r gogledd-ddwyrain yn benodol.

Yng ngoleuni'r drafodaeth uchod am y pethau a hepgorwyd o fersiwn Pen 27ii o fuchedd Dewi, gan gynnwys gwyrth enwog y bryn yn codi yn synod Brefi, mae'n werth ystyried a fyddai ysgrifydd o ogledd

Cymru, ac iddo ymlyniad arbennig wrth ei seintiau lleol ei hun, fwy na thebyg, yn fwy parod i hepgor elfennau allweddol o fuchedd Dewi nag ysgrifydd o'r de. Ar y cyfan, fodd bynnag, ymddengys fod y darlun a geir o Ddewi yn Pen 27ii yn adlewyrchu parch ac ystyriaeth ofalus. Yn y fersiwn hwn, fel yn y fersiynau eraill, fe'i cydnabyddir yn dywysog dros holl seintiau Prydain ar ôl synod Brefi (§23). At hynny, er ei bod yn ymddangos bod rhai o addasiadau Pen 27ii yn lleihau statws Dewi rywfaint, gall hyn adlewyrchu agwedd yr addaswr tuag at seintiau'n gyffredinol (sef, eu statws priodol mewn perthynas â Duw) yn hytrach na phleidgarwch tuag at seintiau ei ardal ei hun. Mae'n werth nodi bod fersiwn Pen 27ii yn hepgor cyfeiriad at Badrig fel *ebostol* hefyd (§2), a bod y gair hwn wedi ei newid yn *Escob* yn fersiwn Modern Cynnar Roger Morris yn Llst 34 (gw. [n. 16](#)). Gellid cymharu hefyd rai darlleniadau yn y fersiwn o fuchedd Mair Fadlen yn Llst 34 a'r fersiwn o fuchedd Mair o'r Aiff yn Card 2.633, lle'r ymddengys fod statws y santes wedi ei leihau ychydig, o bosibl, mewn perthynas â Duw neu'r Forwyn Fair (Cartwright 2013: 55; BMairAiff: Rhagymadrodd (hefyd yn Day 2022b)).

I gloi, er gwaethaf gwallau niferus testun Pen 27ii a'r darnau (mawr a bach) a hepgorwyd, ymddengys fod yr 'aralleiriad' hwn yn adlewyrchu ymdrech gydwobodol, ar ran mwy nag un addaswr, o bosibl, i gyflwyno fersiwn o stori Dewi sy'n hawdd ei ddeall, yn cadw sylw'r gynulleidfa, ac o fudd ysbrydol iddynt. Mae'n debyg fod amcanion tebyg wedi cyfrannu at ddatblygiad y fersiwn diweddarach o'r fuchedd a ysgrifennodd Roger Morris yn Llst 34, ac felly hefyd, i ryw raddau, yn achos fersiwn Thomas Wiliems yn Pen 225, er bod yr addasiadau'n llawer llai sylweddol yma (gw. [Llawysgrifau](#), a Day 2022a). Parhâi arwyddocâd crefyddol y fuchedd i fod o'r pwys mwyaf, a Dewi'n cael ei ddarlunio'n batrwm i'w efelychu ac yn eiriolwr pwerus. Mae bucheddau seintiau'n destunau cyfnewidiol wrth natur, yn cael eu haddasu yn ôl anghenion newidiol, ac nid yw parodrwydd yr addaswyr i ymyrryd â stori nawddsant Cymru yn adlewyrchu'n wael ar ei statws. I'r gwrthwyneb, mae'n adlewyrchu pwysigrwydd parhaus Dewi ar sawl ystyr – ysbrydol, crefyddol a chenedlaethol – a'i allu i ysbrydoli eraill, dros y canrifoedd a hyd heddiw.

Buchedd Dewi (fersiwn Peniarth 27ii)

golygwyd gan Jenny Day

Rbagymadrodd
Llawysgrifau a thrawsysgrifiadau
Cyfeiriadau a byrfoddau
Atodiad: cyfieithiad Saesneg

Testun golygedig

Crynodeb

Buchedd Dewi, nawddsant Cymru (m. 589 neu 601). Cyfansoddwyd ei fuchedd Ladin gan Rygyfarch ap Sulien (m. 1099) ac o hon y tarddodd sawl fersiwn Lladin arall. Bu un o'r fersiynau hynny'n gysail i'r fuchedd Gymraeg, y ceir y copi cynharaf ohoni yn J 119 neu *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, a ysgrifennwyd yn 1346 (golygwyd y testun hwn gan D. Simon Evans yn WLS). Cyflwynir yma fersiwn diweddarach o'r fuchedd Gymraeg a geir yn Pen 27ii, llawysgrif a ysgrifennwyd yng ngogledd Cymru yn ail hanner y bymthegfed ganrif.

D.S. Dangosir nodiadau testunol (i, ii, iii, ayb.) fel troednodiadau a nodiadau esboniadol (1, 2, 3, ayb.) fel [ôl-nodiadau](#) ar ôl y testun golygedig.

Testun

§1

Kyredic Vrenin¹ a wledychodd Kyredigion² drwy lawer o vlenyddedd ac ohonaw i kavas Keredigion i henw. A mab a vv iddaw, Sant³ oydd i hennw. I'r Sant hwnnw yr ymddangoses angel yn i hvn a dywedvd wrthaw, 'Yvorv ti a ai i hely a thi a geffi dri rryveddod⁴ gar llaw avon ddofn,⁵ nid amgen karw a gleisiad a haid wenynn mew'n prenn vwchben yr avonn, yn y lle a elwir yr awron [Henllan].ⁱ ⁶ A dyled y tir yw dyled i vab ni aned eto: ef bievvydd dev le hyd Dydd Brawd, y rrai a ddywetbwyd vchod.'⁷

§2

Oddyna i doyth Padric⁸ hyd yNglyn Vwch Rrosin⁹ ac i myddyliodd ddwyn yno i vywyd hyd i ddiwedd. Ac angelⁱⁱ a ddoyth at Badric ac a ddyvod¹⁰ wrtho, 'Gado di y lle hwnn i'r mab ni aned eto.' Sef a orvc

ⁱ yn y lle a elwir yr awron [Henllan] Gadawyd bwllch, ar gyfer enw'r lle mae'n debyg. Cyflenwyd yr enw *Henllan* yn y testun golygedig ar sail darlleniadau'r testunau hyn; gweler n. 6 (esboniadol).

ⁱⁱ **angel** Pen 27ii *angangel*. Ceir *a(n)gel* yn y testunau cynharach (BDe 2.2); ymddengys fod yr ysgrifydd wedi ysgrifennu *ang-*, oedi i lenwi ei bin (gellir gweld cryfder yr ysgrifen yn newid), ac ailddechrau ysgrifennu'r gair cyfan heb sylweddoli.

Padric llidio a dywedud, ‘Paham i trymygawdd yr Arglwydd vyvi, pann¹¹ wnai wasgaradigayth arnaf, a mine yn addoli iddaw drwy i ofn a’i gariad, ethol ohonno ynte yr awr honn y mab ni aned ac ni enir y dec mlynedd ar hvgain hynn?’¹² Ac ymbarodtoi a wnayth Padric¹³ i ado y lle hwnnw.¹⁴ Yr Arglwydd, eisioys, a garodd Padric yn vawr, a anvones angel ataw y’w ddiddanv. A’r angel a ddyvod wrtho, ‘Padric, llywenha! Yr Arglwydd a’m anvones i i ddangos yt Ynys Ywerddon. Ysdeddva sydd yt yno a elwir Rosin, ac a elwir o hynn allan Ysdeddva Badric.¹⁵ A bydd lawen,’ heb ef. ‘Ti a vyddy heddiw yn yr ynys honno¹⁶ a thi a oddevi yno lawer ir kariad ar Dduw, a Duw a vydd gida thi byth.’ Ac yna i llonnyddodd meddwlⁱⁱⁱ Padric ac i gydewis y lle hwnnw. Ac yr ayth i barotoi i long i’r borthva, a chyvodi gwr marw a gladdesid ar y morva ir ys pymtheng mlynedd. Kvchen¹⁷ oydd i henw. A myned a wnayth Padric i Ywerddon a hwnnw gyd ac ef. A hwnnw gwedy hynny a vv esgob.

§3

Ac ymhen y deng mlynedd ar hvgain wedi hynny, val ir oydd Sant ap Kyredic yn kerdded¹⁸ i hvn, nycha leian yn kyvarvod ac ef. Sef a orvc ef, ymavel a hi a dwyn trais arni. A’r lleian a gavas veichiogi. Henw y lleian oydd Nonn,¹⁹ a mab a aned iddi a Davydd²⁰ a royd yn henw ar y mab. A gwr ni vynodd Nonn na chynt na gwedi, kans diwair oydd hi o veddwl a gweithred.

§4

Kynta gwyrthiav²¹ a wnayth Dewi:²² pann gavas hi veichiogi ni mynodd hi namyn bara a dwr yn i hoys, ac ni lewes Dewi.²³

§5

Ail gwyrthiav oydd: a’i vam yn myned i’r eglwys i wrando pregeth gan Gildas Sant,²⁴ Gildas a ddechrevodd prygethv ac nis gallodd. Yna i dyvod Gildas, ‘Ewch o’r eglwys allan.’ Ac eilwaith provi prygethv ac nis gallai. Ac yna i govynodd Gildas a oydd neb yn yr eglwys ond y vo²⁵ i hvn. ‘Ydwyf i yma,’ heb y Nonn,²⁶ rrwn[g]^{iv} y ddor a’r pared.²⁷ ‘Dos di,’ heb y sant, ‘allan o’r eglwys ac arch i’r plwy²⁸ ddyvod i mew’n.’ A ffob^v vn a ddoyth y’w le i eiste val i byesynt. Ac yna pregethv a orvc y sant yn^{vi} eglvr

Mae hyn yn llawer mwy tebygol na thybio bod yma ffurf ar *anghyngel*, *anghyngyl* ‘anghenfil, cawr’ (gw. GPC, d.g.) neu wall am *archangel*.

iii **meddwl** Ceir hwn fel cipair ar waelod tudalen 35 yn y llawysgrif, ond *mewl* a geir ar ddechrau’r tudalen nesaf, ar ôl y geiriau *A wnayth*, wedi eu dileu. Gall y ffurf hon fod yn arwydd o ddriswch, a’r ysgrifydd newydd wneud camgymeriad arall, ond gweler n. xxix (ar *ken[ad]av*) am achosion tebyg o hepgor canol gair.

iv **rrwn[g]** Pen 27ii *rrwn*[.]. Mae twll ar ymyl y ddalen ac mae’n debygol fod diwedd y gair wedi ei golli; cymharer BDe 3.16 *rwng*.

v **a ffob** Defnyddir *ff* yn aml yn y testun hwn i gynrychioli *p* gyda threiglâd llaes (‘ph’); cymharer, e.e., §5 *braint a ffenyduriayth*; §6 *gyverbyn a ffenn Nonn*; §10 *a ffan roddes*; a gweler ymhellach GMW 8.

ac yn vchel. Yna i govynawdd y plwy iddo, ‘Pam na ellaist [t]i^{vii} bregethv ini gyne, a nine yn llawen genym dy wrando di?’²⁹ ‘Gelwch i mewn y lleian a yrais i allan gyne o’r eglwys.’³⁰ Heb y Nonn, ‘Llyma vi.’ ‘Ie,’ heb y Gildas, ‘y mab y sydd yngrroth y lleian honn y sydd vwy i veddiant a’i ras no myvi, kans iddo i hvn i rroddes Duw braint a ffenyduriayth holl saint Kymrv^{viii} yn dragywyddol, kynn Dydd Brawd a gwedi. Ac am hynny, nid oys i mi ffordd i drigo yma hwy no hynn o achos mab y lleian akw, i roys Duw iddo benedvriayth ar bawb o’r ynys honn. A rraid i mi vyned i ynys arall³¹ a gado i’r mab yr ynys honn.’

§6

Gwyrthie arall³² a wnayth Dewi: yr awr i ganed ef, ef a ddoyth tyranav a melltt, a charec a oydd gyverbyn a ffenn Nonn a holles yn ddav haner. Y naill hanner iddi a ayth dros i ffenn, y lleian,^{ix} hyd dros i thrayd pann yd oydd hi yn esgor.

§7

Gwyrth arall a wnayth Dewi: pann vydyddiwyd, vo a ymddangoses³³ ffynon o’r ddayar lle ni biase ffynon irioyd.

§8

Gwrthie arall a wnayth Dewi: gwr dall³⁴ a oydd yn i ddaly wrth vedydd a gollasai i olwc kynn no hynny.

^{vi} **yn** Ailadroddir *yn* yn y llawysgrif ar ddiwedd tudalen 36 ac ar ddechrau tudalen 37.

^{vii} **na ellaist [t]i** Pen 27ii *na ellaisti*. Cyfunwyd y ferf a’r rhagenw, gan adlewyrchu ynganiad yr iaith lafar; cymharer §21 *ewch [ch]wi, gwybyddwch [ch]wi ac erchwch [ch]wi* (Pen 27ii *ewchwi, gwybyddwchwi, erchwchwi*), §25 *a geisiaist [t]i* (Pen 27ii *a geisiaisti*). Cymharer hefyd n. xvi (ar *bvom [n]i*, §14).

^{viii} **holl saint Kymrv** Pen 27ii *yr holl saint Kymrv*. Mae’n rhaid hepgor naill ai *yr* neu *Kymrv* er mwyn cael cystrawen gywir. Efallai fod yr ysgrifydd wedi crwydro oddi wrth ei gynsail drwy ysgrifennu *yr* ac anghofio mynd yn ôl i’w ddileu ar ôl ychwanegu *Kymrv*; cymharer BDe 4.3 *holl seint Kymry*. Cymharer hefyd y gwallau neu’r aralleiriadau a nodir yn n. ix (ar *dros i ffenn, y lleian*, §6).

^{ix} **dros i ffenn, y lleian** Efallai fod yr ysgrifydd wedi crwydro oddi wrth ei gynsail drwy ysgrifennu *i ffenn* (‘ei phen’), a mynd ymlaen i gopio’r geiriau *y lleian* heb sylwi eu bod yn ddiangen; cymharer BDe 4.12 *dros benn y lleian* (ceir darlleniad unigryw, *dros benn nonn*, yn Llst 27; gw. BDe 4n8). Fodd bynnag, penderfynwyd peidio â diwygio’r testun golygedig am y gellid deall *y lleian* yn eglurhad ar ystyr y rhagenw *i* (‘ei’); cymharer §22 *wrth enav y korff (y mab)* (gw. n. 120 (esboniadol)), a hefyd n. 117 (ar *kychwyn a wnaythant, Dewi a’r kynadav*, §22) a n. 140 (*dyrchavayl i ben a’i wyneb i vyny*, §25). Am lithriad tebyg a gywirwyd yn y testun golygedig, gweler n. viii (*holl saint Kymrv*, §5).

Ac yna y dall a wybv vod y mab ir oydd ef yn i ddal yn gyflawn o rad, a chymrvd y dwr bedydd a golchi i wyneb. A'r awr honno i kav[a]s^x i olwc.³⁵ Sef a orvc pawb yna moli Duw.

§9

Lle i dysgwyd Dewi ynndaw a elwid Uetvs Rvbvs.³⁶ Yno i dysgwyd iddo ef seilm yr holl vlwyddyn a'i llythion a'i efferenav.³⁷ Yno i gweles i gyd-ddisgyblon y glomen a'r gylvin aur iddi³⁸ yn dysgv Dewi ac yn gware yn i gylch.

§10

Oddyna idd ayth^{xi} Dewi hyd at athro a elwid Pawlys,³⁹ a disgibl i esgob sant⁴⁰ a oydd yn Rrvvain. A hwnnw a ddysgodd Dewi oni⁴¹ vv athro. Ac yna i damwyniodd kolli o'r athro i olwc, o dra ysdvdio yn i lyvre.⁴² A galw a wnayth yr athro ato i holl ddisgyblon, ol yn ol,⁴³ i geisio ganthvnt gymhorthwy am i lygaid, ac nid oydd yr vn yn i allel iddaw. Ac yn ddiwaytha galw Dewi. 'Davydd,' heb yr athro, 'edrych vy llygaid, i maynt i'm poyni.'⁴⁴ 'Arglwydd,' heb y Davydd, 'nid edrychais i i'th wyneb di eto.' Sef i gwnayth yr athro yna, rryveddv⁴⁵ gwyled y mab. 'Dyro di,' heb yr athro, 'dy law ar v'wyneb i a bendiga vy llygaid, a mi a vyddaf holl iach.' A ffan roddes Davydd i law ar i lygaid i bvant holl iach. Ac yna i bendigodd Powls Ddewi o bob bendith a geffid yn ysgrivenedic yn y Ddeddf Hen ac yn y Ddeddf Newydd.

§11

Ac yna i doyth angel at Bowls a dywedvd wrthaw, 'Amser yw i Davydd Sant vyned oddyma i wnevthur y pethe sydd dynghedven gan Dduw iddaw i wnevthur.' Yna ir ayth Davydd Sant hyd yNglasnbri,^{xii} ⁴⁶ ac yno ir adeilodd eglwys. Ac yna i doyth Dewi lle ir oydd ddwr yn llawn o wenwyn, a bendigaw a wnayth y dwr hwnnw yn dwymyn hyd Dydd Brawd. A hwnnw a elwir yr Enaint Twymyn.⁴⁷ Oddyna i doyth hyd yGrowlan⁴⁸ a hyd yMhepaw'n,⁴⁹ a g[w]edi^{xiii} hynny i Gollan⁵⁰ a Glasgwm.⁵¹ Oddyna ir adeilodd

^x kav[a]s Pen 27ii *kavos*. Ceir y ffurf ddisgwylidig, *kafas*, yn §§1, 17 ac, yn dreigledig (*gavas*), yn §§3, 4, 17. Efallai fod dryswch yma rhwng dau derfyniad trydydd unigol gorffennol, sef *-as* ac *-odd* (*-oð*).

^{xi} idd ayth Pen 27ii *ddayth*, ond nid yw'r bwlch ar ôl yr *i* yn fawr. Mae darllen *i ddayth* yn broblemus oherwydd *doyth*, nid *dayth*, yw sillafiad arferol ffurf trydydd unigol gorffennol y ferf *dyfod* yn y testun hwn, ac ni ddisgwylid treigladd meddal ar ôl y geiryn rhagferfol *i* (*y*) (cymharer §§11, 13, 14 *i doyth*). Ymddengys, felly, mai'r geiryn rhagferfol *idd + ayth*, ffurf trydydd unigol gorffennol *mynd*, sydd yma (cymharer BDe 5.4 *yd aeth*; WLSD 3.26 *yr aeth*; hefyd isod, §14, *idd aythant* (Pen 27ii *iddaythant*)).

^{xii} yNglasnbri Gall mai *u* yn hytrach nag *n* sydd yn yr enw lle hwn, sef *Glasubri* yn hytrach na *Glasnbri*, ond ymddengys yr ail ffurf yn fwy tebygol; cymharer BDe 6.1 *ynng Glastynbri*; LlSt 34, 271 (llau. 19–20) *i Lassynbri*.

^{xiii} g[w]edi Mae twll yn y llawysgrif ar ddiwedd y llinell hon ond gellir gweld bod llythyren yn dilyn *g* yn wreiddiol; mae *edi* yn dilyn ar ddechrau'r llinell nesaf.

Lann Lien i ynglan Havren.⁵² Oddyna i rroddes wared i Beibiawc,⁵³ vrenin Erging,⁵⁴ oydd ddall.⁵⁵ Oddyna yr adeilodd eglwys yn Llan Gyvelan ynglan Gwyr.⁵⁶ Oddyna yr adeilodd eglwys yn Ngwent, lle i gelwir Rraglan.⁵⁷ Dav sant a oyddynt yn Nghydweli⁵⁸ a elwid Bodugad⁵⁹ ac Elldrud⁶⁰ a ymroddasant yn ddisgyblon i Ddewi.

§12

Oddyna yr ymchwelodd Dewi i'r lle a elwid Uetres Rvbvs.⁶¹ Ac yno yr oydd esgob a elwid Gloyslan,⁶² a hwnnw oydd vrawd ffydd i Ddewi. A Dewi a ddyvodd wrth yr esgob, 'Angel yr Arglwydd a ddyvodd ym, "o vraid ir a vn o gant o'r lle hwnn i dyrnas nef," ac a ddangoses imi le arall. Ac o'r lle hwnnw nid a neb i vffern ar a vo ffyddlawn, ar a gladder⁶³ ymonwent y lle hwnnw.'⁶⁴

§13

A dyddgwaith i doyth Davydd a'i ddisgyblon, Ayddant⁶⁵ ac Eliut⁶⁶ ac Ismayl,⁶⁷ a llawer gyd ac wynt, i'r lle a nodasai Dduw vddvnt, nid amgen Glynn Rosin,⁶⁸ yr hwnn a elwid Hodnant.⁶⁹ Kynta lle dan yr awyr y kynevasant wy dan vv yno. A ffann gynevasant y tan y bore glas, i kyvodes mwc ac i kylchynodd y mwc hwnnw yr ynys honn oll, a llawer o Ynys Ewerddon, a hynny o'r bore glas hyd bryd gosber. A'r twysoc a elwid Boya⁷⁰ a arganvv y mwc hwnnw ar i dir. Ac ef a ysdeddodd mewn kraic vchel⁷¹ o'r bore hyd bryd gosber, heb vwyd a heb ddioid. A'i wraic a ddoyth ato ac a ovynodd iddo pam na vynnai ai bwyd ai dioid. 'Dior,'⁷² heb ef, 'trist wyf i a lliidioc. Mwc,' heb ef, 'a welais heddiw yn kyvodi o Hodnant ac yn gogylchynv llawer o ddinasoydd. Y gwr,' heb ef, 'a gynievodd^{xiv} y tan hwnnw, i veddiant ef a a dros ffordd i kerddodd y mwc.' Heb y wraic ynvyd, 'Kyvod i vyny,'⁷³ heb hi, 'a chymer dy ysgwieiriaid⁷⁴ gyda thi a lladd y neb a gynevodd y tan hwnnw ar dy dir di heb dy genad.'

§14

Yna i doyth Boya, a'i ysgwieiriaid gyd ac ef, ar vedr lladd Dewi a'i ddisgyblon. A ffann ddoythant tva'r lle idd aythant yn y kryd, krynv hyd na ellynt wnevthvr drwc yn y byd i Ddewi nac y'w ddisgyblon onid i gwatwar, a dywedvd geirie dirmygvs ar i kyvair ac ymchwelvd adref. Ac ar y ffordd, nycha wraic Boya yn kyvarvod ac wynt ac yn dywedvd, 'Yn bigelydd⁷⁵ ni a ddywedasant i mi varw yn holl ysgrvbl ni, nid amgen yn^{xv} gwarthec a'nn ychen a'r greoydd a'r devaid oll yn veirw a'i llygaid yn ygored.' Kwynaw ac

^{xiv} **gynievodd** Cedwir darlleniad y llawysgrif yn y testun golygedig am y gellid ystyried [c]ynievodd yn ffurf amrywiol ar *cyneuodd*. Mae'n debygol, fodd bynnag, fod y trydydd minim yn ffrwyth camgopïo neu lithro wrth ysgrifennu; cymharer *gynevodd* yn y frawddeg nesaf. Ni nodir ffurf amrywiol debyg ar fôn y ferf yn GPC d.g. *cyneuaf*; *cynnaft*: *cynnau*, *cynnu*.

^{xv} **yn** Pen 27ii yn y, a llinell ysgafn, hir, letraws drwy'r y. Nid oes achos arall o'r dull hwn o ddileu yn y testun (gw. n. 7 ([trawsysgrifiad](#)); felly, mae'n amheus ai'r prif ysgrifydd a fu'n gyfrifol. Fodd bynnag, ymddengys fod yr y hon wedi ei chynnwys drwy amryfusedd, ac felly fe'i hepgorwyd o'r testun golygedig.

vdaw a griddvan a wnayth Boya a'i wraic a'i dylwyth, a dywedvd, 'Y sant i bvom [n]^{xvi} yn i watwar a wnayth hynn.' Sef a orvgant, gweddio y sant a cheisio i vodd ef a'i dylwyth. Ac yna i rroddes Boya Hodnant yn dragwyddol i'r sant, ac ymchwelvd adref a orvc Boya a'i dylwyth. A ffann ddoythant adref i kowsant i haniveiliaid yn vyw ac yn iach.

§15

Ac yna i dyvod y wraic wrth i llawvorynnion, 'Ewch,' heb hi, 'hyd yr avon y sydd garllaw y sant a diosgwch ych dillad ac ewch y[n] noythlvmvn.^{xvii} Dywedwch wrthvn eirie aniwair kywilyddvs.' A holl ddisgyblon Dewi a vv anodd ganthvnt odde y kywilydd hwnnw. Ac y dywedasant wrth Ddewi, 'Ffown oddyma ymaith,' heb wynt. 'Ni allwn [n]i oddef hynn, nac edrych ar y gwagedd drwc.' Ac yna i dyvod y sant, 'Panid gwell ini beri vddvnt wy ado y lle hwnn i ni?' Ac yna Dewi a'i ddisgyblon a ddyrwestasan hyd trannoyth. A thranoyth i dyvod gwraic Boya wrth i llysverch, 'Tydi, vorwyn, kyvod i vyny. Awn i Ddyved,⁷⁶ hyd ynglyn Alvn.'⁷⁷ 'Mi a wna,' heb y vorwyn, 'parod wyf i vyned.' A cherdded ill dwedd⁷⁸ hyd yngwaylod y glyn. A ffan ddoythan[t],^{xviii} eisde a orvc i llysvam, a dywedud wrth y verch, 'Dyro dy benn ar vy arffed, i'w ddihayddvd.'⁷⁹ Sef a orvc i llysvam, tynnv kylllell a lladd penn y vorwyn santes. Ac yn y lle i digwyddodd y gwayd i'r llawr yr ymddangoses ffynonn. A llawer o ddynion a gowsant iechyd o'i heiniey yno, a heddiw i gelwir hi ffynon Ddvnt.⁸⁰ A Dvnt oydd henw y vorwyn. Yna i ffoys i llysvam ddrwc, ac ni wybv neb i ble ir ayth na ffa ange a'i dvc. A Boya a ddychrevodd drycarvathv a Dewi a'i ddisgyblon a'i lla[w]enhasant^{xix} ef.⁸¹

§16

Yna i myddyliodd Boya ladd Dewi a'i ddisgyblon. Ac eisioys, sef a ddamweiniodd y bore, dyvod i elyn hyd y twr⁸² lle ir oydd Boya yn kysgv, wedi kaffel y porth yn egored, a lladd penn Boya yn i wely. Ac yn ddianod i doyth tan o nef a llosgi yr ydeiliadav hyd y llawr. A gwybydded bawb ladd o'r Arglwydd Boya o achos Dewi, a Sarapa⁸³ i wraic.

^{xvi} **bvom [n]i** Pen 27ii *bvom i*, ond mae angen *ni* oherwydd ffurf cyntaf lluosog yw *buom*, a'r cyd-destun yn dangos hefyd fod y goddrych yn lluosog. Mae achos arall o hepgor llythyren gyntaf *ni* pan fo sain debyg ar ddiwedd y ferf yn §15, *ni allwn [n]i* (Pen 27ii *ni allwn i*), a chymharer hefyd yr achosion o gyfuno berf a rhagenw a drafodir yn n. vii (ar *na ellaist [t]i*, §5).

^{xvii} **y[n] noythlvmvn** Pen 27ii *ynoyth lvmvn*. Cymharer *y[n] noeth* (LIGC 3026C y *noeth*) yn BMartin §§12, 23.

^{xviii} **ddoythan[t]** Pen 27ii *ddoythan[.]*. Mewn dau achos arall ceir *-an* yn y testun yn hytrach nag *-ant* fel terfyniad trydydd lluosog gorffennol (sef *[d]yrwestasan*, uchod yn yr un adran, a *[c]lowsan* yn §25). Ond yn yr achos hwn, mae twll ar ymyl y ddalen a gellir gweld strôc lorweddol a all fod yn rhan o *t*, ac felly cyflenwyd *t* yn y testun golygedig.

^{xix} **lla[w]enhasant** Pen 27ii *llaenhasant*. Ni nodir amrywiad tebyg yn GPC d.g. *llawenbaf*. Nid yw'n eglur a yw hwn yn amrywiad neu'n ffurf lafar (cymharer *athraon*, ffurf ar *athrawon* a nodir yn GPC d.g. *athro* ac a ddefnyddir yn y testun hwn, §20), neu ynteu'n ffrwyth copio diofal neu awydd i grynhoi (cymharer n. xxix, ar *ken[ad]av*). Fe'i diwygiwyd er eglurder, fodd bynnag.

§17

Oddyna ir adeilodd Dewi yGlyn Hodnant.⁸⁴ Ac nid oydd yno ddwr, ond ychydig o ddwr rrydegoc.⁸⁵ Ac yna i gweddiodd Dewi yr Arglwydd, ac yn ddianod i kavas ffynon yn llawn o win val na bv ar Ddewi yn i oys eisie gwin.⁸⁶ A llyna rodd deilwng i gan Dduw a gavas. Gwedi hyny, Gwayslan Esgob, brawd ffydd Dewi, a disgibl i Ddewi a elwid Eliud,^{xx} ill dav a ddyrwestasant i geisio gan yr Arglwydd Grist [ff]ynon^{xxi} o ddwr kroyw rrac syched⁸⁷ yr amser,⁸⁸ ac a gowsant gan Duw dwy ffynon, ac a elwir heddiw Ffynon Waslan ac Eluid. A'r kryplaid a'r deillion a'r byddair a geffynt wared yn y tair ffynon hynny.

§18

Ac ymysc hynny, ir oydd Addan Sant yn i eglwys i hvn yn y dinas a elwid Gwernin,⁸⁹ yn gweddio nos Basc. Ac ar hynny nycha angel yr Arglwydd yn dyvod ato. 'Tydi, wrda gwynvydedic, pann na⁹⁰ wddost yr hynn idd ys yn i ddarparv i Ddavydd Sant, dy athro di, yNglyn Rrosin? Dioyr,' heb yr angel, 'ner ddarvv⁹¹ i dri o'i dylwyth o'r vanachloc wnevthvr i vrad, doddi gwenwyn mewn bara, a'r bara hwnw a roir iddo y'w vwyta. Ac anvon di genad hyd at dy athro i erchi iddo ymoglud y bara.' Sef a orvc y sant, tristav ac wylo. 'Arglwydd, pa ddelw ir anvonaf i genad yno, ac mor vyr yw yr oyd? Nid oys long yn barod val i galler i chaffel.' 'Anvon,' heb yr angel, 'dy gyd-ddisgibl, Esgödyn,⁹² hyd y trayth a mi a baraf iddo vned drwodd.' Sef a orvc Ysgvdyn, gwnevth⁹³ yn llawen hyn ir oyddid yn i erchi iddo. A dyvod tva'r trayth a cherdded yn y dwfr yni ddoyth y dwfr hyd i linie. Ac yn ddisyvyd llyma anghenvil o'r mor⁹⁴ yn i gymrvd ar i gefn ac yn myned ac ef drwodd i'r tv arall. Ac erbyn haner dydd dduw Pasc ir oydd gida'i athro.

§19

Ac val ir oydd Ddewi yn dyvod o'r eglwys gwedi yffirennav a ffregethav a'r holl vrodvr, nycha i gwelai y genad yn kyfarvod ac ef, lle a elwir Bedd Ysgolan.⁹⁵ A Dewi a vv lawen wrthaw a myned ddwylo mwnwcl iddo, ac ymovyn ac ef am ansodd Addan Sant, i ddisgibl mawr a garai. A gwedi darvod i'r genad ddywedud iddo gwbl o ansodd i disgibl,^{xxii} i gelwis Ysgvdvn Ddewi oddi wrth y llall⁹⁶ a dadkanv iddaw y genadwri megis i dywedasai yr angel. Sef a orvc Davydd, kynhewi, a diolwch i Dduw. A dyvod

^{xx} **Eliud** Ni roddwyd strôc uwchben yr un o'r tri minim o flaen y *d*, ond fe'u darllenir yn *iu* am fod *Eliud* yn un o ffurfiau arferol enw'r sant, ar y cyd ag Eludd a Theilo (gw. BDe 7.5n, 10.7, 11, ac isod, n. 66 (esboniadol)). Ceir *Eluid* yn y frawddeg nesaf (yn rhan o enw ffynnon), ond *Eliut* yw'r sillafiad yn §13.

^{xxi} **[ff]ynon** Pen 27ii *synon*. Gwall am *ffynon*; cymharer BDe 10.8 *ffynhonneu*. Ysgrifennwyd un *f* gan anghofio'r bar croes, fel ei bod yn ymddangos fel *f*, sef 's' hir.

^{xxii} **ansodd i disgibl** Ni ddangosir yn y llawysgrif, yn yr achos hwn, y treigladd meddal a ddisgwyliid ar ôl y rhagenw meddiannol trydydd unigol gwrywaidd (gthg. *Addan Sant, i ddisgibl mawr a garai*, yn y frawddeg flaenorol). Mae'n debyg fod yr ysgrifydd wedi methu â diweddarau orgraff ei gynsail drwy amryfusedd (cymharer BDe 11.15–16 *ansawd Aedan Sant, y disgybyl; a mawr y karei Dewi y disgybyl, 17 ansawd Aedan y disgybyl*).

rracddvn tva'r vanachloc. A wedi eise pawb yn y modd i dilynt, a dywedvd gras, kyvodi a wnayth Dvlcon,⁹⁷ yr hwnn a wasnaythai ar Ddewi, i wasnaythv o vara gwenwynic. Sef a orvc Ysgvdyn, kyvodi i vyny a dywedvd, 'Tydi,' heb ef, 'ni wasneithi di heddiw, namyn myvi a vydd gwasnaythwr.' Sef a orvc hwnnw, myned i eiste a sanv arno,⁹⁸ kanys ef a wyddiad y karedd a oydd yn i veddwl.⁹⁹ Ac yna i kymyrth Dewi [y]^{xxiii} bara gwenwynic a'i ranv yn dair rrann, a rroi vn i asd a oydd yn sevyll o'r tv allan i'r drws. A'r awr i llewes yr ast y bara i bv allmarw. Ac ef a syrthiodd i blew oll yr awr hono, a thori yn ddav gelwrn¹⁰⁰ a syrthio yn varw i lawr. Sef a orvc yr holl vrodur pann welsant hynny, sanv yn vawr arnvnt. Ac yna ir anvones Dewi yr ail rrann o'r bara i vran a wydd¹⁰¹ yn eise ar nyth a oydd mewn onen a oydd rrwng y ffreitvr a'r avon.¹⁰² Yr awr i kymyrth hi y bara, hi a syrthiodd i lawr yn varw. Y drydedd ran o'r bara a gymerth Dewi, a'i vendigaw a'i vwyta. Sef a orvc yr holl vrodur, edrych ar hynny ac ofni yn vawr. Ac yna i mynegis yr holl ddamwain i'r brodur, val i mynasai y trywyr¹⁰³ i wenwyno. Ac yna i rroddes yr holl vrodur i hymelldith i'r gwyr hynny. Ac i gyd a rroddi i hymelldith, roi i gweddi ar y Tad o'r nef na cheffynt wy y dragwyddol gyvran o dyrnas nef.

§20

A gwedi kydarnhav ffydd a chred yn y dyrnas honn, holl lavrwyr yr ynys a ddoythant hyd ynhor¹⁰⁴ senedd Vrevi.¹⁰⁵ A'r esgyb a'r dysgwyr¹⁰⁶ a'r athraon a'r effeiriaid a'r brenhinedd a'r tywysogion a'r ieirll a'r barwniaid a'r ysgwieriaid a'r krevyddw[y]r^{xxiv} a'r gorevgwyr yn llwyr, a ffawb, heb allel rrif arnvnt, a ymgvllasant hyd yn senedd Vrevi. Ac amod a wynaythbwyd yn y gnvllleidva honno, pwy pynac o'r saint a brygethe val i klywai y gnvllleidva honno yn gyffredin, gadv hwnnw yn benadur ar saint Ynys Brydain. Ac yna i dychrevodd y saint bregethv bob ailwers. Ac yna i dyvod vn dros y kyffredin, 'Y kanved dyn o'r gnvllleidva honn ni chlyw dim o'r bregeth ir ydych yn i llavvriaw,' heb ef. Yna i dyvod pob vn o'r saint wrth i gilydd, 'Nid oys neb ohonom a allo pregethv i'r niver hynn.' Ac yna ir atebawdd Pawlus Sant,¹⁰⁷ a hen e[s]gob^{xxv} oydd ef.^{xxvi} 'Myvi,' heb ef, 'a wn lle may gwas iyvank tec addwyn ac angel yn wasdad yn i gedymddeithas, a mi a wn i vod ef yn gymen ac yn ddiwair ac yn karv Duw, a mi a wn i kar Duw

^{xxiii} [y] Mae'r geiriau olaf ar dudalen 42 yn ysgafn iawn ac yn anodd eu darllen. Ni ellir dirnad unrhyw lythyren yn y fan hon ond mae digon o le ar gyfer y fannod ac mae'r ystyr yn awgrymu ei bod yno (cymharer BDe 12.8).

^{xxiv} **krevyddw[y]r** Pen 27ii *krevyddwr*, ond y tebyg yw y dylid darllen hwn yn enw lluosog, fel yr enwau eraill yn y rhestr; cymharer BDe 13.7 *crefydwyr*. Efallai fod sylw'r ysgrifydd wedi ei dynnu oddi ar y gair hwn wrth iddo sylweddoli ei fod wedi hepgor y cyfeiriad at y *gorevgwyr* a phenderfynu ei ychwanegu ar ddiwedd y rhestr; ceir y gair hwn yn olaf yn ei destun ef ond yn wythfed, rhwng y barwniaid a'r ysgwieriaid, yn y rhai cynharach.

^{xxv} **e[s]gob** Pen 27ii *egob*. Llithriad wrth ysgrifennu, mae'n debyg; cymharer BDe 13.21 *esgob*. Ceir y sillafiad arferol, *esgob*, yn §§2, 10, 12, 18, a llithriad gwahanol, *esbob*, yn §24 (*es[g]ob* yn y testun golygedig).

^{xxvi} **ef** Mae *v* yn dilyn y gair hwn yn y llawysgrif ond mae'n anodd gweld unrhyw ystyr iddi, ac fe'i hepgorwyd o'r testun golygedig gan gymryd ei bod yn wall a bod yr ysgrifydd wedi anghofio ei dileu.

yntav, a'i vod yn rranoc ar yr holl voysav da. Mi a wn may mwya dyn yn yr ynys honn yw hwnnw, a Davydd Sant i gelwir. Yn gynta ef a ddysgodd y llen a byrthynai iddo i dysgv ar y dechrev, ac wedi hynny ef a ddysgodd yr Ysg[r]vthr^{xxvii} ac a vv athro. Ac yn Rrvvain ir vrddwyd yn archesgob.¹⁰⁸ A mi a welais angel Duw yn dyvod ato ac yn galw arno ac yn erchi iddaw vnyed y'w wlad i gyvanheddv y lle i darparasai Dduw iddaw ynhyrnas Demetica,¹⁰⁹ sef yw honno, Mynyw yn y deav.¹¹⁰ Ewch, a gelwch atoch hwnw sydd yn karv Duw yn vawr ac yn bregethwr i Grist. A mi a wn may iddo i rroys Duw y gras.'

§21

Ac yna ir anvones y saint genadav hyd yNinas Rvbi,¹¹¹ lle yr oydd Davydd Sant, gwas Duw, yn gweddio. A ffan glybv ef neges y kenadav, i dyvod, 'Nid af,' heb ef, 'yno. Ys gwell genyf weddio Duw yma. Ewch [ch]wi ynhyngnevedd Dduw a'i gariad.' Ac eilwaith y saint a wahoddasant Ddewi, ac yntav a roys yr vn ateb. A'r drydedd waith, o gydyhvndeb¹¹² yr holl sa[i]nt,^{xxviii} yr anvonasant yn ganadav benaf a oydd yno,¹¹³ nid amgen Bevno¹¹⁴ a Dubricus.¹¹⁵ A'r nos kyn dyvod y kynadav at Ddewi, i dyvod wrth y disgyblon, 'Gwybyddwch [ch]wi i daw kynadav yma yvorv. Ewch i bysgota i'r mor a dygwch yma ddwr gloyw o'r ffynon.' A'r ken[ad]av^{xxix} a ddoythant y dydd i dyvod Dewi, ac wyntav a barotasant vddvnt i kiniaw. Disgyblon Davydd a roddasant ar y bwrdd y pysgod a'r dwr o'r ffynon, a'r dwr a ayth yn win. A Davydd a ddyvod, 'Bwydteuach, vrodur, yn llawen.' Ac yna i dyvod y ddav sant, 'Ni chymerwn na bwyd na diod,' heb wynt, 'onid addewi di ddyvod gyda ni i'r lle i may llu anodd i rivo i'th aros di. Wrth hynny, debre gyda ni, er Duw ac ir bendith y saint, ac oni myny hayddv¹¹⁶ i hymelldith.' Heb y Dewi, 'Mi af, ir kariad Duw a'r kydymddeithion. Eisioys yr hyn a erchwch [ch]wi, nis gallaf. Mi a gerddaf gyda chwi hyd y senedd, a chwithe, gweddiwch y Tad penaf yni roddo ef gymhorthwy i mi. A mine a'ch gweddiav chwithev, vrodur, hyd pan gymeroch vwyd a diod o'r alusen gardod a rodded i mi o'r nef.'

^{xxvii} **Ysg[r]vthr** Pen 27ii *ysgvthr*. Fe'i deellir yn wall am *ysgruthur* neu *ysgrythur*; cymharer BDe 14.8 *Ysgruthyr*. Ni nodir ffurf amrywiol debyg yn GPC d.g. *ysgrythur*.

^{xxviii} **yr holl sa[i]nt** Pen 27ii *yr holl sant*. Ychwanegwyd i er mwyn yr ystyr; cymharer BDe 14.22 *yr holl seint*.

^{xxix} **ken[ad]av** Pen 27ii *kenav*, ond ni all fod yn *cenau* 'ci ifanc, mab' am ei fod yn oddrych berf trydydd lluosog (*ddoythant*). Mae'n rhaid, felly, ei fod yn wall am *kenadav* (cymharer BDe 15.6 *kennadeu*), neu'n dalfyriad arno, o bosibl, ac ystyried bod y gair hwn wedi ei ddefnyddio bum gwaith yn barod yn yr adran hon (*[k]enadav*, *kenadav*, *[k]anadav*, *kynadav*, *kynadav*). Mae nifer o achosion tebyg o hepgor canol gair yn rhan olaf testun Pen 27ii, sef *pregev* am *pregethv* yn §23 (*ddwywaith*) (gw. n. xxxii), *wro* am *wrtho* ac *ymbaota* am *yambarota* yn §25, *Eweron* am *Ewerddon* yn §26, *adagev* am *a dagrev* yn §27; gweler hefyd n. iii (ar *meddul/mewl*, §2), a *bywch* yn §26, a gywirwyd yn *byddwch* gan y prif ysgrifydd. Cymharer hefyd *yno* am *ynddaw* yn §22 a *tywysoc* am *tywysoc* yn §§13, 23 a 24, er y gellid deall y rhain yn ffurfiau llafar (gw. yr amrywiadau a nodir yn GPC d.g. *yn*¹ a *tywysog*).

§22

A gwedi hyny kychwyn a wnaythant, Dewi a'r kynadav,¹¹⁷ i senedd Vrevi. A chyn i dyvod i'r gynvleiddva, nycha i klywynt yn dyvod yn i herbyn wraic weddw wedi marw i hvn mab,¹¹⁸ a'r wraic yn gweiddi ac yn disgrathain. A ffan weles Dewi y wraic yn drycarvaythv, gorsevyll a gillwng y llaill o'r blayn. Sef a orvc y wraic druan a glowsai glod Dewi, syrthio ar i gliniev a mynegi iddo vod i hvn mab wedi i varw.¹¹⁹ Sef a orvc Dewi, trvgarhav wrthi a throsi gyda hi i'r lle ir oydd y mab yn varw yn emyl avon Deiui, a myned i'r ty lle ir oydd y korff, a doddi i enav wrth enav y korff (y mab),¹²⁰ a gweddio ar yr Arglwydd, a dywedud, 'Ti a ddisgynaist o arffed y Tad, vy arglwydd Dduw o'r nef, i'r byd hwnn o'n achos ni bechaduriaid i'n arddyrcha ni o safn yn gelyn, trvgarha, Arglwydd, wrth y wraic weddw honn, a dyrcha i hvn mab a'i enaid yno^{121, 122} mal y mawlhayr¹²³ dy enw di ar y ddayar oll.' A ffrann ddarvv iddo i weddi,¹²⁴ kyvodi a wnayth y mab, yn vyw ac yn holl iach, y'w vam. Sef a orvc y mab, o'r lle i kyvoded, kalyn Dewi o veddwl a gweithred, ac ef a vv drwy lawer o vylynyddedd gida Dewi yn gwasnaythv Duw.

§23

Oddyna i kerddodd Davydd gyda chynadav y saint hyd yn senedd Vrevi. A ffann ddoyth Davydd i kyvodes y saint oll yn i erbyn a chyvarch gwell iddo a syrthio ar i gliniev, ac erchi iddo bregethv ac ymddy[r]chavayl^{xxx} i benn y bryn vchel yn lle i biase bregethe kynn no hynny. Ac ysgvsodi a wnayth Dewi ar dalm oddwrthvnt a dywedvd na allai ef gwnevthvr y peth ir oyddynt yn i erchi. Eisioys ef a gymmerth bendith y kyffredin ac ef a vvdddhadd vddvnt. A gwrthod a orvc ysgyn i benn y b[r]ynn,^{xxxi} a dywedvd na mynai ef le i sevyll ond ar y llawr gwasdad. A dechre a wnayth prege[th]v^{xxxii} kyvraith Grist a'r evengylwyr, a hynny megis llef groyw eglvr,¹²⁵ a hynny yn amlwc i bob dyn, i'r pella kyn eglvred ac i'r nesa, kyn eglured ac i byddai yr havl eglur haner dydd.¹²⁶ A moli hynny a wnayth pawb, ac yn gytvn moli Dewi Sant,¹²⁷ ac adde yn ddyhvn i adel yn dwysoc ar y saint yn Ynys Brydain, a dywedvd, 'Mal i [rr]oys^{xxxiii} Duw yn y mor benadur ar bob kenedl bysgod, ac val i rroddes ar y ddayar penadur ar yr aniviliaid, velly i rroddes benadur ar y dynion. Vegis i rroddes Vathav¹²⁸ yn Ivdea, a Lvwkas¹²⁹ yn

^{xxx} ac ymddy[r]chavayl Pen 27ii ac ymddychavayl'; gwrthgyferbynnner BDe 17.5 gan dyrchafel obonaw. Ni nodir ffurf debyg, heb r, yn amrywiad yn yr erthyglau ar gyfer ymddyrchafaf na dyrchafaf yn GPC. Cymharer hefyd isod, §25, dyrchavayl.

^{xxxi} b[r]ynn Pen 27ii byñ. Ychwanegwyd r er mwyn yr ystyr; cymharer BDe 17.11 brynn a'r darlleniad gwallus gwahanol, brem, yn Pen 15, 22 (ll. 7). Cyfeiriwyd yn barod at y bryn vchel yn yr un adran.

^{xxxii} prege[th]v Pen 27ii pregev; ceir yr un ffurf, wedi ei threiglo (bregev), yn yr un adran, isod. Nid yw *preg(au) yn air yn ôl GPC, a diau mai'r berfenw pregethv yw'r gair a fwriadwyd (cymharer BDe 17.13, 18.14 pregethu). Cyfeirir bum gwaith at bregethu neu bregeth yn yr adran hon o'r fuchedd, a gellid ystyried pregev yn dalfyriad yn hytrach nag yn wall (cymharer n. xxix, ar ken[ad]av).

^{xxxiii} [rr]oys Pen 27ii soys. Fe'i deallir yn wall am rroes, er mai'r ffurf rroddes a geir (ddwywaith) yn nes ymlaen yn y frawddeg (ar rodes a roes, gw. GMW 155). Ceir rodes deirgwaith yn y frawddeg gyfatebol yn BDe 18.3–5.

Aleksandria, a Christ yNghayr Selem, a Ffedr¹³⁰ yn Rrvvain, a Marthin¹³¹ yn Ffraink, a Samson¹³² yn Llydaw, velly i rroddes Davydd yn Ynys Brydain.’ Wrth hynny, i dyrchavwyd Dewi yn dywysoc ar saint Ynys Brydain, gwedi pregethv o Davydd yn y senedd vawr honno, ac na [a]llodd^{xxxiv} yr vn brege[th]v namyn y vo. Ar y dydd hwnw holl saint yr ynys honn a’r brenhinedd a’r tywysogion a ostyngasant iddaw ac a roysant iddo vod yn bena ar saint yr ynys honn. Ac ef a’i hayddodd ar y dydd hwnw.¹³³

§24

A’r dydd hwnw i rrodded noddvae ac ymddiffin i bob rrvw ddyn o’r a wnelai drwc, ar a ovynai nowdd-dir Dewi.¹³⁴ Honn yw noddva Dewi. Pawb ar a vo yNinas Rvbi yn nawdd Dewi a’i amddiffin, o bydd rraid iddo, kenad yw iddo vyned o Ddyvi¹³⁵ hyd yNheivi,¹³⁶ o’r avon bigilydd, ac o bydd rraid iddo vyned, ayd yn rragor rrac pob sant na¹³⁷ brenin na dyn o Ynys Brydain. Noddva Dewi yw ple bynac i bo tir kysegredic i Ddewi Sant, ac na lyvaso neb, na brenin na thwysoc nac es[g]ob^{xxxv} na sant, rodidi nawdd i neb o vlayn Dewi, kanys y vo i hvn y sydd bena o’r holl ynys. Ac yna ir ysgymvnodd hynny o saint, o ddyhvndeb y brenhinedd, y neb a dorai noddvay y sant.

§25

Ac val ir oydd Ddewi duw Mowrth diwaytha o vis Chwevrer^{xxxvi} yn gwrando ysgolheigion yn gwasnaythv¹³⁸ Duw, nyha i klywai angel yn ymddiddan ac ef, ac yn dywedud wr[th]o,^{xxxvii} ‘Davydd, y peth a geisiaist [t]i gan Dduw er ys talm, y may yn barod yt pan i mynych.’¹³⁹ Sef a orvc Dewi, dyrchavayl i ben a’i wyneb i vyny¹⁴⁰ a llawenhav, a dywedvd, ‘Yr awr honn, Arglwydd, kymer dy was i dyngnevedd.’ Sef a wnayth yr ysgolheigion a oydd yn gwrando y ddav^{xxxviii} ymadrodd, sanv yn vawr a syrthio megis dynion meirw. Ac ar hyny i klowsant lef ddiddan ac arogle tec, teka a vv, yn llenwi y dinas. Sef a orvc Davydd eilwaith, dywedud, ‘Arglwydd Iesu Grist, kymer v’enaid ac na ad vi i drigaw hwy yn y drygav hynn.’ Ac yn ol hynny wynt a glywynt yr angel yn dywedud wrth Ddewi, ‘Davydd Sant,

^{xxxiv} na [a]llodd Pen 27ii *nalloð*, ffurf gywasgedig.

^{xxxv} es[g]ob Pen 27ii *esbob*. Gwall a darddodd o achub y blaen ar y *b* ar ddiwedd y gair, mae’n debyg; cymharer BDe 19.3 *escob*.

^{xxxvi} vis Chwevrer Ceir *m* a llinell drwyddi ar ôl *vis*. Efallai fod yr ysgrifydd wedi dechrau ysgrifennu *mawrth* neu *mowrth*, naill ai am ei fod newydd ysgrifennu *duw mowrth* (‘dydd Mawrth’) neu am ei fod yn gwybod y dethlir Dydd Gwyl Dewi ar ddiwrnod cyntaf mis Mawrth.

^{xxxvii} wr[th]o Pen 27ii *wro*. Am achosion eraill o hepgor rhan o air, gweler n. xxix (ar *ken[ad]av*).

^{xxxviii} y ddav O flaen y geiriau hyn ceir *vdaw*, a llinell drwyddo. Os y berfenw *udo* ‘crio neu wylo’n uchel’ yw hwn (gw. GPC), mae’n ddigon addas yng nghyd-destun rhan gyntaf y frawddeg (*Sef a wnayth yr ysgolheigion a oydd yn gwrando, vdaw ...*). Ceir y berfenw hwn isod, yn yr un adran, *drwy wylaw ac vdaw ac vcheneidiaw a ddyrchavasant llef*, ac yn §14 *kwynaw ac vdaw a griddvan a wnayth Boya a’i wraic a’i dylwyth*.

ymba[r]ota^{xxxix} erbyn y dydd kynta o vis Mowrth; ef a ddaw Crist dy Arglwydd di o'r nef,¹⁴¹ a naw radd nef¹⁴² gydag ef a Xved ran y ddayar.¹⁴³ A servbin¹⁴⁴ a eilw gida thi y rrai a vynyth di: yr ysgolheigion a llyc,¹⁴⁵ gwirion a ffechadur, iyvank a hen, mab a merch, gwr a gwraic, kroysan a ffftain, Iddew a Sarasin, hynn i gyd a ddaw gyda thi ac ni chyvedliwir vddvnt ev pechodav.¹⁴⁶ A'r brodur, kymin hvn,¹⁴⁷ pan glowsan hyny drwy wylaw ac vdaw ac vcheneidiaw a ddyrchavasant llef ac a ddywedasant, 'Arglwydd Ddewi Sant, kymhorthwy ni o'n tristydy.' Ac i dyvod Dewi wrthvnt, dan i diddanv, 'Vy mrodur, byddwch wastad ac vn veddwl, a ffa beth bynac a welsoch nev a glwsoch genyf i, kedwch a gorfffenwch.'¹⁴⁸

§26

O'r dydd hwnnw hyd ym[h]en^{xi} yr wythved dydd, nid ayth Dewi o'r eglwys o bregethv i bawb. Y chwedyl eisioys yn oyd vn dydd ir ayth drwy yr holl ynys hon ac Ywerddon gan angel. Sef val i dywedai yr angel: 'Gwybyddwch may yn yr wythved nos nesaf a ddaw,¹⁴⁹ ir a Dewi Sant, ych arglwydd chwi, o'r byd hwnn i dyrnas nef.' Yna i gwelid kyvred¹⁵⁰ o saint yr ynys honn a saint Ewer[dd]on^{xli} o bob parth, yn ymweled a Dewi. A ffwy yna a allai oddef wy[l]ovain^{xlii} y saint, y mevdwyaid a'r effeiriaid, a'r^{xliii} dysgyblon yn dywedud, 'Pwy a'n disc ni?'; kwyn y pererinion yn dywedud, 'Pwy a'n kymorthwya ni?'; y brenhinedd a'r tywysogion a ffawb yn^{xliv} kwynaw, a'r tylodion a'r kleivion a ffawb yn drycarvaythv?

§27

Duw Svl nesaf ar hynny i kanodd Dewi efferen ac i pregethodd i'r bobl. Ni chlowsai neb y rrvw bregeth irioyd yn y dyrnas honn, na chimin o bobl yn yr vn lle.¹⁵¹ Ac ar yr efferen¹⁵² i rroddes Dewi i vendith i

^{xxxix} **Davydd Sant, ymba[r]ota** Pen 27ii *dd' ~~anyx~~ sant ymbaota*. Ymddengys fod yr ysgrifydd wedi ysgrifennu'r talfyriad o enw'r sant ac wedyn ddechrau ysgrifennu *-avydd*, cyn sylweddoli nad oedd ei angen. Deellir *ymbaota* yn *yambarota*, ffurf ar y ferf *yambarotáu*, o'r rhagddodiad atblygol *ym-* + *parotáu* 'gwneud yn barod'. Nid oes erthygl yn GPC ar gyfer *yambarotáu*, ond cymharer ibid. d.g. *parotáu*, a hefyd y berfau *paratoi/parotoi* ac *yambaratoi/yambarotoi*. Gwrthgyferbynnner BDe 19.23 *yambaratoa*, ffurf ar *yambaratoi*, a hefyd ddefnydd *yambarodtoi* yn yr adran am Badrig yn nhestun Pen 27ii (§2). Am achosion eraill o hepgor llythrenen neu lythrennau o ganol gair yn y testun hwn, gweler n. xxix.

^{xi} **ym[h]en** Pen 27ii *y*, ar ddiwedd llinell, a *men* ar ddechrau'r llinell nesaf. Disgwylid *mb* i gynrychioli'r treigladd trwynol; cymharer §3 *ymben*; §28 *ymbenav*.

^{xli} **Ewer[dd]on** Pen 27ii *eweron*; am yr *e* ddechreuol, cymharer §13 *Ynys Ewerddon*. Am achosion tebyg o hepgor rhan o air, gweler n. xxix (ar *ken[ad]av*).

^{xlii} **wy[l]ovain** Pen 27ii *wynovain*. Fe'i deellir yn wall am *wylovain* (cymharer BDe 20.22 *wylouein*), a'r *l* wedi newid yn *n* dan ddylanwad *cwynfan(u)*, o bosibl.

^{xliii} **a'r** Yn y llawysgrif mae *ar* ar ddiwedd y llinell ac fe'i hailadroddir yn ddiangen ar ddechrau'r nesaf.

^{xliv} **yn** Pen 27ii *yn yn*.

bawb yn gyffredin ac i dyvod, ‘Arglwyddi, dadav a brodur, byddwch lawen a chedwch [ych] ffydd a’ch kred,^{xlv} a gwnewch y pethe bychain a glowsoch¹⁵³ genyf i. A minav a gredaf i’r ffordd i kredodd yn tadav ni.¹⁵⁴ Ac yn iach i chwi,’ heb y Dewi, ‘a bid grymvs i chwi vod ar y ddayar.’¹⁵⁵ Ac yna i klwyd¹⁵⁶ gawr gyffredin dan gwynvan a dag[r]ev.^{xlvi} O^{xlvii} dduw Svl hyd dduw Mowrth i bv varw Dewi nid ayth na bwyd na diod ymhenav y rran vwya o’r bobl.

§28

Ac ynghylch kanv y keilioc nycha lu o yngylion yn llenwi y dinas, a ffob rrvw gerddav a digrivwch ganthvnt. Ac awr voredydd nycha yr Arglwydd Iesu Grist a naw radd nef y gydac ef val i dyvod yr angel, a’r havl yn egluro yn eglur i’r holl lvoydd. A hynny oydd dduw Mowrth kynta o galan Mowrth,¹⁵⁷ i kymerth Iesu enaid Dewi i’r nefoydd gyda buddygoliayth a llywenydd. Ac velly i tervyna y vchedd.¹⁵⁸

[\[Yn ôl at ddechrau’r testun golygedig.\]](#)

^{xlv} **a chedwch [ych] ffydd a’ch kred** Pen 27ii *a chedwch ffyð ach kred*. Mae’n debygol fod y rhagenw meddiannol yn rhagflaenu’r ddau enw yn y gynsail ac wedi ei golli drwy amryfusedd; cymharer BDe 21.17–18 *a chedwch awch ffyð a’ch cret* (ceir yn LlSt 27 *crefyd* yn hytrach na *cret*). Efallai fod y rhagenw cyntaf wedi ei hepgor am fod y ferf o’i flaen yn gorffen â llythyren debyg (*ch*), a bod llygad yr ysgrifydd wedi neidio o’r naill i’r llall.

^{xlvi} **a dag[r]ev** Pen 27ii *adagev*; cymharer BDe 22.2 *a dagreu*. Am achosion tebyg o hepgor rhan o air, gweler n. xxix (ar *ken[ad]av*).

^{xlvii} **O** Pen 27ii *a o*. Efallai fod yr ysgrifydd wedi dechrau copïo darlleniad tebyg i eiddo BDe 22.2, *ac yn dywedut*, ac wedyn benderfynu hepgor y geiriau hyn a’r araith sy’n dilyn, gan anghofio dileu’r *a*.

¹ **Kyredic Vrenin** Sef Ceredig ap Cunedda Wledig. Yn ôl traddodiad, daeth Cunedda a'i feibion i Gymru o Fanaw Gododdin (ger Aber Gweryd, yng ngogledd Prydain) yn y bumed ganrif a meddiannu rhan fawr o'r wlad, rhwng afonydd Dyfrdwy a Theifi; rhoddwyd i Geredig y rhanbarth sy'n dwyn ei enw, sef Ceredigion yn y de-orllewin (WCD 124, 152–3; BDe 25–6). Trwy Gunedda, Ceredig, a'i wraig yntau, Meleri ferch Brychan Brycheiniog (gw. WCD 64–7), cysylltid Dewi nid yn unig â llinachau brenhinol Deheubarth a Gwynedd ond hefyd â nifer o seintiau eraill. Mae'n arwyddocaol mai ei linach ef a roddir gyntaf yn 'Bonedd y Saint' (Lewis 2023: §1).

² **Kyredigion** Rhanbarth yn ne-orllewin Cymru a enwyd ar ôl Ceredig ap Cunedda Wledig, yn ôl traddodiad (gw. n. 1). Mae nifer o leoedd yng Ngheredigion sy'n gysylltiedig â Dewi, gan gynnwys Hen Fynyw, lleoliad ei addysg gynnar, o bosibl (gw. n. 36), a Llanddewibrefi, lleoliad y synod lle cafodd ei gydnabod yn dywysog ar seintiau Prydain (§23, a gw. n. 105). Mae'n bosibl mai yn yr ardal hon y dechreuodd cwlt Dewi (Evans 2007: 39; James 2007: 75–80).

³ **Sant** Sef Sant, mab i Geredig ap Cunedda Wledig, brenin Ceredigion (gw. n. 1 a 2), neu wŷr iddo yn ôl rhai fersiynau o 'Bonedd y Saint' sy'n ei alw'n fab i Gedig ap Ceredig (Lewis 2023: §1). Mae testun Pen 27ii yn anghyffredin yn y ffaith nad yw'n galw Sant ei hun yn frenin, yn yr adran hon nac yn yr adran isod lle'i disgrifir yn cwrdd â Non (§3). Yn y testunau Cymraeg cynharach cyfeirir ato fel y *brenhin a elwit Sant* yn yr ail adran hon (BDe 3.2), a chyfeirir at *Sanctus* fel brenin yn y ddwy adran gyfatebol yn *Vita S. David* (VSD §§2, 4). Er ei ddefnyddio'n enw personol yma, mae *sant* (fel *sanctus*) yn enw cyffredin hefyd, wrth gwrs, ac iddo'r ystyron 'sant' neu 'person duwiol' (GPC d.g. *sant*; cymharer LD s.v. *sanctō, xi, ctum ... C. 1. sanctus, i, m., 'a saint, holy man'*). Yn y *Vita* ceir chwarae ar ei enw, *meritis et nomine Sanctus* 'Sanctus (by merits and by name)' (VSD §2), a dywedir iddo, yn ddiweddarach yn ei fywyd, roi o'r neilltu ei rym bydol er mwyn ennill teyrnas nefol (VSD §1). Nid oes unrhyw feirniadaeth o'i drais yn erbyn Non yn y bucheddau Lladin a Chymraeg, ond yn y ddrama firagl Lydewig *Buez Santez Nonn* (lle mae Dewi'n fab i Geredig yn hytrach na Sant), ceir mynegiant cryf o ing a gofid y santes (gw. Cartwright 2007: 200–2).

⁴ **tri rryveddod** Cyfeiria *Vita S. David* at *tria ... munera* 'tair rhodd', a cheir esboniad o'u harwyddocâd yn symbolau o rinweddau ac awdurdod Dewi (VSD §2). Awgrymodd Wade-Evans (1923: 60–1) fod i'r tri pheth hyn arwyddocâd pellach, cysylltiedig â pherchnogaeth y tir (gw. ymhellach WLSD 19–21), a gallent adlewyrchu'r tair rhodd yn stori geni'r Iesu hefyd (Davies 1996: 20–1, a gw. Mathew 2.11). Ceir *tri dyuot* yma yng nghynrychiolwyr cynharach y fuchedd (BDe 1.11); gweler GPC d.g. *dofod* 'Da heb berchen iddo y digwydd i ddyn ei gael, trysor cuddiedig y deuir o hyd iddo'. O'r 13 achos o'r gair hwn a ddyfynnir yn GPC, dau yn unig sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif, a'r rheini mewn testunau cyfraith, ac ni nodir unrhyw achos sy'n ddiweddarach na hyn. Ymddengys, felly, y gallai'r gair hwn fod wedi ei

newid yn *rryveddod* yn nhestun Pen 27ii er mwyn diweddarau'r ymadrodd a'i wneud yn haws i'w ddeall. Newidiwyd yr ystyr ychydig wrth wneud hyn ond nid yw'n amharu ar y stori. Mae'n ddiddorol nodi bod testun LlSt 34 yn diweddarau yma hefyd (td. 267 (ll. 7) [*t*]ri *pheth*).

⁵ **avon ddofn** Gwrthgyferbynnir y cyfeiriad at afon Teifi yn y testunau Cymraeg cynharach (BDe 1.11–12 *auon Deiui*; WLSD 1.11 *auon Teiui*) ac yn *Vita S. David* (VSD §2 *amnem Theibi*). Gall *avon ddofn* testun Pen 27ii fod yn gamgymeriad copïo neu'n ymgais i gael synnwyr o air annarllenadwy yn y gysail (cymharer n. 6).

⁶ **yn y lle a elwir yr awron [Henllan]** Mae'r ffaith fod bwllch wedi ei adael yn awgrymu bod enw'r lle naill ai ar goll neu'n annarllenadwy yn y gysail (cymharer n. 5). *Henllan* yw'r enw a geir yma yn y testunau cynharach (BDe 1.13; cymharer VSD §2 *Linbenlann* 'Llyn Henllan'), a chyflenwyd yr enw hwn yn y testun golygedig. Gellir uniaethu'r lle hwn â Henllan, eglwys a gysegrwyd i Ddewi ac a saif ar lan afon Teifi yng Ngheredigion (James 2007: 61; Coflein d.e. *St David's Church, Henllan*; gw. hefyd DewiGB n. 60 ar *bangeibr Henllan* 'eglwys fawr Henllan').

⁷ **dev le ... y rrai a ddywetbwyd vchod** Ni chyfeiriwyd 'uchod' at 'ddau le' mewn gwirionedd, oni bai mai'r lleoedd a olygir yw Ceredigion a'r lle dienw, Henllan mewn fersiynau eraill o'r fuchedd Gymraeg (gw. n. 6), lle darganfu Sant y [*t*]ri *rryveddod*. Fodd bynnag, am fod Henllan wedi ei leoli o fewn Ceredigion, nid ymddengys yn debygol y byddai'r ddau wedi eu hystyried yn feddiannau ar wahân. Gwelir dryswch tebyg yn y testunau cynharach ond, yn wahanol i fersiwn Pen 27ii, eir ymlaen i egluro mai *Linbenllan* a *Litonmaucan*, neu *Lin Henllan* a *Liton Mancan*, oedd y lleoedd hyn (BDe 1.15–16; WLSD 1.14). Gellir cymharu'r enwau hyn â dau enw a grybwyllir yn yr adran gyfatebol yn *Vita S. David*, sef *Linbenlan*, y gellir ei uniaethu'n rhwydd â Henllan, a *Maucanni monasterium* ('mynachlog Meugan'), sef y sefydliad y gofynnir i Sant ddanfôn rhan o bob un o'r 'tair rhodd' (*tria ... munera*) ato i gael eu cadw ar gyfer y mab a enir iddo (Watkins 1977–8; WLSD 22; VSD §2). Awgrymwyd y gall fod *Maucanni monasterium* yn enw arall ar *Vetus Rubus* neu Hen Fynyw, sef lleoliad addysg gynnar Dewi (Thomas and Howlett 2003: 102, a gw. n. 36n, isod). (Gthg. Wade-Evans 1923: 58, a gw. hefyd WLSD 22.)

Dadleuir yn BDe 27 ac WLSD 21–2 mai **dyllet* yn hytrach na *deu le* oedd y darlleniad gwreiddiol a bod *y rei a dywetpwyd uchot* wedi dechrau fel glos ar y gair hwn, gan gyfeirio at dri darganfyddiad Sant. Awgrymir, ymhellach, y gallai'r ddau enw lle fod wedi tarddu o losau a ychwanegwyd gan ysgrifydd a oedd wedi ymgynghori â'r fuchedd Ladin, a bod **dyllet* wedi newid yn *deu le* pan ymgorfforwyd y glosau hyn yn y prif destun (BDe 27; Watkins 1977–8; WLSD 21–2). Posibilrwydd arall yw mai'r newid o **dyllet* yn *deu le* a ddigwyddodd gyntaf, o ganlyniad i wall copïo neu wall dehongli, a bod y glosau wedi eu hychwanegu'n ddiweddarach wrth geisio esbonio'r ymadrodd hwn. Os felly, efallai fod y ddau enw

lle'n absennol o destun Pen 27ii am fod y testun hwn yn tarddu o hen gynsail a gynhwysai un o'r glosau yn unig, sef *y rei a dywetpwynt uchot* (ar gynsail Pen 27ii, gw. [Llawysgrifau](#)). Ar y llaw arall, mae'n bosibl fod yr enwau lleoedd yn bresennol yn y gynsail ond bod ysgrifydd testun Pen 27ii wedi penderfynu eu hepgor, am na allai eu darllen yn iawn, o bosibl (cymharer n. 5 and 6), neu am eu bod yn enwau anghyfarwydd a ystyriwyd yn ddiangen.

§2

⁸ **Padric** Roedd Padrig, nawddsant ac apostol Iwerddon, yn byw yn y bumed ganrif. Yn ôl ei *Confessio* ei hun, cafodd ei eni ym Mhrydain, ond pan oedd yn un ar bymtheg fe'i herwgipiwyd a threuliodd chwe blynedd yn gaethwas yn Iwerddon. Yn ystod y cyfnod hwn y troes at Dduw. Dihangodd wedyn a dychwelyd i Brydain, ond yn ddiweddarach aeth yn ôl i Iwerddon fel esgob. Gweler ymhellach BDe 28–9; WCD 528–9; ODCC 1240; <http://www.confessio.ie/>.

⁹ **Glyn Vwch Rrosin** Yr enw lle Glyn Rhosyn a geir yma yn y testunau cynharach (BDe 2.1 *Glynn Rosin*), a'r enw hwn yn cyfateb i'r enw Lladin *Vallis Rosina* a ddefnyddiodd Rhygyfarch (VSD §3; a gw. n. 68 isod). Defnyddia testun Pen 27ii y ffurf safonol hon ar yr enw wrth ddisgrifio Dewi yn dod i'r lle am y tro cyntaf (§13 *Glynn Rosin*) ac wrth i'r angel rybuddio Aeddan am y brad yn ei erbyn (§18 *yNglyn Rrosin*), ond gall y ffurf [*G*]yn *Vwch Rrosin* adlewyrchu'r dryswch daearyddol ehangach yn yr adran am Badrig yn y fersiwn hwn (gw. n. 15). Yn wir, mae'n ansicr a ddylid ei ystyried yn enw priod o gwbl; gellid deall y ddau air cyntaf yn enw cyffredin ac arddodiad, ac uniaethu'r gair olaf â'r *Rosin* a grybwyllir yn nes ymlaen yn yr adran hon. Ymddengys o'r cyd-destun fod y *Rosin* hwnnw'n enw ar le yn Iwerddon, ond efallai fod yr addaswr yn meddwl am Badrig yn edrych i lawr arno, rywsut, o'r 'glyn' yng Nghymru.

¹⁰ **dyvod** Ffurf trydydd unigol gorffennol y ferf *dywedyd*, *dywedud*. Defnyddir yr un sillafiad yn rheolaidd ym Muchedd Martin (gw., e.e., BMartin §§8, 10, 11), a chymharer hefyd GIG 31.3 *Dofydd a ddyfod 'afi'*, a'r gynghanedd yn profi'r sain 'f'.

¹¹ **pann** Ar ddefnydd *pan* yn gysylltair (Saesneg 'that'), gweler GMW 80; GPC d.g. *pan*¹ (e).

¹² **y dec mlynedd ar hvgain hynn** Ymddengys y gystrawen hon yn anffurfiol o'i chymharu â'r testunau cynharach (BDe 2.7–8 *hyt ympenn deng mlyned ar hugeint*). Mae'r *non sequitur* yma, a Phadrig yn gwybod am y cyfnod o ddeng mlynedd ar hugain heb i neb ddweud wrtho, yn gyffredin rhwng yr holl fersiynau Cymraeg. Yn *Vita S. David*, mae'r wybodaeth hon wedi ei chynnwys yn araith gyntaf yr angel wrth Badrig (VSD §3).

¹³ **ymbarodtoi a wnayth Padric** Dyma'r cyntaf o nifer o achosion lle ceir [*g*]wnayth yn y testun hwn o'i chymaru â [*g*]oruc yn y rhai cynharach, neu'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'r ddwy'n ffurfiau trydydd unigol gorffennol ar y ferf *gwneuthur* a ddefnyddir yn aml yn ferfau cynorthwyol ar ôl berfenw, fel yma.

Gwyddys bod *gwnaeth* wedi disodli *goruc* fel yr ai'r cyfnod canoloesol yn ei flaen, er bod llawer o destunau'n defnyddio'r ddwy ffurf (Thomas 2003: 252). Yn nhestun Pen 27ii, ymddengys fod *[g]wnayth* wedi cymryd lle *[g]oruc* mewn un ar ddeg o achosion, mewn cystrawen debyg, ond bod *[g]oruc* wedi ei chadw mewn pedwar achos, er na ellir bod yn sicr pa ffurf oedd yn y gynsail yn yr amrywiol achosion hyn, wrth gwrs. At hynny, mewn dau achos gwelir diweddarau mwy sylweddol, a berf orffennol syml yn cael ei defnyddio; gweler §13 *ef a ysdeddodd* (BDe 7.13 *eisted a oruc*), a §19 *gelwis Ysgudvn Ddewi* (BDe 11.17–18 *galw a oruc Scuthyn Dewi*). Ymddengys fod y tuedd i ddiweddarau yn wannach yn achos y gystrawen *sef + a oruc + berfenw*; gweler n. 45.

¹⁴ **Ac ymbarodtoi a wnayth Padric i ado y lle hwnnw.** Mae hwn yn ddarlleniad unigryw, sy'n symlach ac yn fwy ystyrllon na darlleniadau'r testunau cynharach; cymharer darlleniad diwygiedig BDe 2.9–10, *Ac ymbarattoi a oruc Padric y ymadaw ebun* [J 119 *yndaŵ* (wedi pylu yn Pen 15), LlSt 27/Cotton Titus D.xxii *yndaŵ ebun*], *ac adaw y lle hwnnw y'r Arglwyd Grist*, a gwrthgyferbynnner VSD §3 *Parauitque fugere, et Dominum suum Iesum Christum deserere* 'And he got ready to take flight and forsake his Lord Jesus Christ'; VSDauidLincoln §3 *Hinc parans fugere et Dominum Christum desere* 'As he was preparing to flee and abandon the Lord Christ'. Yn ogystal â diwygio *yndaŵ* (*ebun*) yn *y ymadaw ebun*, awgrymodd D. Simon Evans mai **ac adaw yr Arglwyd Grist* oedd yr ymadrodd a ddilynai yn y cyfieithiad gwreiddiol, ond bod hwn wedi ei addasu 'o barch i enw da'r sant' (BDe 29; WLS D 25). Nid oes dim sy'n cyfateb i *yndaŵ* (*ebun*)/*y ymadaw ebun* yn nhestun Pen 27ii, a'r addaswr wedi amau, o bosibl, fod ymadrodd tebyg yn ei gynsail yn llygredig. Mae'r cyfeiriad at adael Glyn Rhosyn *y'r Arglwyd Grist* yn absennol o'r fersiwn hwn hefyd, oherwydd ei ystyried yn ddiangen neu'n ddryslyd, o bosibl, am fod Padrig wedi cael cyfarwyddyd eisoes i adael y lle *i'r mab ni aned eto, sef Dewi*.

¹⁵ **Yr Arglwydd a'm anvones i i ddangos yt Ynys Ywerddon. Ysdeddva sydd yt yno a elwir Rosin, ac a elwir o hynn allan Ysdeddva Badric.** Ceir yma ddau enw, *Rosin* ac *Ysdeddva Badric*, ar y lle yn Iwerddon sy'n cael ei ddangos neu ei addo i Badrig, ac yntau, ar y pryd, yng 'Nglyn Uwch Rhosyn'. Gwahanol yw darlleniad y testunau cynharach, gan gyfeirio at Eisteddfa Badrig fel y safle, yng Nglyn Rhosyn, y mae Padrig yn gweld Iwerddon ohono: BDe 2.12–15 *yr Arglwyd a'm anvones i attat ti, y dangos ytt Ynys Iwerdon o'r eistedua yssyd yng Glynn Rosin (ac a elwir yr awr honn Eistedua Badric)*; cf. VSD §2 '*... de sede que est in Rosina Valle, que modo Sedes Patricii nominatur*' "... from the seat that is in *Vallis Rosina*," (which is now named Patrick's seat)' (ar Eisteddfa Badrig, gw. BDe 30; WLS D 26). Efallai fod ysgrifydd testun Pen 27ii wedi camddarllen *o'r eistedua yn a'r eistedua*, a bod y newidiadau eraill yn yr adran hon wedi tarddu o'i ymdrechion i wneud synnwyr o'r testun yn sgil hyn; gweler ymhellach n. 9.

¹⁶ '*... A bydd lawen, heb ef. 'Ti a vyddy heddiw yn yr ynys honno ...*' Mae'r araith gyfatebol yn y testunau cynharach yn wahanol iawn, a'r angel yn addo y bydd Padrig yn 'apostol' yn Iwerddon (BDe

2.15 *Kanys ti a vydy ebostol yn yr ynys a wely di*; cf. VSD §2 *tu enim eris apostolus illius totius insule quam cernis* ‘for you will be apostle to the whole of that island which you behold’). Mae’n ddiddorol mai *Escob* yn hytrach nag *ebostol* a geir yn y fersiwn diweddarach o’r fuchedd yn Llst 34, fel y’i hysgrifennwyd yn wreiddiol yn y llawysgrif (td. 268 (ll. 3)). Mae’n debygol fod y darlleniad hwn yn tarddu o’r brif gysail a ddefnyddiodd yr ysgrifydd, Roger Morris, yn hytrach na’i fod yn gyfraniad ganddo ef ei hun, am iddo ychwanegu *Ebostol* yn ddiweddarach fel amrywiad neu gywiriad ar ymyl y ddalen, a’r gair hwn wedi ei dynnu o ail gysail yn ôl pob tebyg (gweler y drafodaeth ar fersiwn Llst 34 yn [Llawysgrifau](#), ac, ymhellach, Day 2022a). Efallai fod *ebostol* wedi ei newid gan gyfranwyr i’r ddau fersiwn hyn (Pen 27ii a Llst 34) oherwydd ystyried y dylid ei ddefnyddio mewn perthynas ag Apostolion y Testament Newydd yn unig, ac nid i ddynodi un sy’n eu hefelychu neu gennad yn fwy cyffredinol (cymharer OED d.g. *apostle*).

¹⁷ **Kvchen** Gall y ffurf hon fod yn ffrwyth camddarllen cysail aneglur, oherwydd enw’r dyn atgyfodedig yw *Cruchier* yn y testunau Cymraeg cynharach sydd wedi goroesi (BDe 2.21 (sillefir yr enw â *k* yn J 119 a Pen 15)). Mae’n debygol fod *Cruchier* yn llygriad o’r enw Gwyddeleg *Cruimther* a ddefnyddir yn *Vita S. David* (VSD §2), ond mae lle i amau nad dyma wir enw’r dyn ychwaith, oherwydd enw cyffredin ac iddo’r ystyr ‘offeiriad’ yw *cruimther*; mae’n bosibl fod y gair hwn yn rhagflaenu enw personol yn wreiddiol ond bod yr enw hwnnw wedi ei gollu wrth i’r *Vita* gael ei throsglwyddo (gw. BDe 30; VSD 113n21). Yn ôl fersiwn Gerallt Gymro o’r fuchedd Ladin, *Dunaudus* (Dunawd) oedd enw’r gŵr a atgyfododd Padrig (BDe 30; Evans 2007: 29).

§3

¹⁸ **kerdded** Gellid ei ddeall naill ai yn yr ystyr ‘cerdded’ (ar draed) neu ‘teithio’ (GPC d.g. *cerddaf*: *cerdded*; BDe 30). Dewiswyd yr olaf (‘travelling’) ar gyfer y cyfieithiad Saesneg am fod *Vita S. David* yn dweud i Sant, brenin Ceredigion, gyfarfod â Non ar ôl cael ei anfon gan ragluniaeth Duw ‘i deyrnas pobl Dyfed’ (*ad plebem Demeticę gentis*, VSD §4); hynny yw, roedd wedi teithio o’i wlad ei hun. Ystyr tebyg a welir yn §13, isod (*dros ffordd i kerddodd y mwc*).

¹⁹ **Nonn** Sef y Santes Non ferch Cynyr o Gaer Gawch, lleian a mam i Ddewi. Fe’i cysylltir â nifer o leoedd yn ne Cymru, a lledodd ei chwlt i Lydaw, Iwerddon, Cernyw a Dyfnaint (Cartwright 2007). Fe’i gelwir yn *Nonnita* yn *Vita S. David* (VSD §4), a *Nonita* yw ei henw arferol, hefyd, mewn drama firagl o Lydaw sy’n dyddio o’r Oesoedd Canol diweddar, sef *Buez Santez Nonn bac ez map Deuy* (er mai *Nonn* yw hi yn y teitl) (Le Berre 1999). Nodir yn *Vita S. David* mai yn Nyfed y cyfarfu Sant â hi (VSD §4), ac yn fersiwn Gerallt Gymro o’r fuchedd Ladin ychwanegir cyfeiriad mwy penodol at Bebidiog (*Pepidiauc*), sef y cantref lle roedd Tyddewi (Evans 2007: 29). Ar Non, gweler ymhellach BDe 30–1; WCD 508; ac yn enwedig Cartwright 2007.

²⁰ **Davydd** Arno, gweler y [Rhagymadrodd](#). Talfyrrir *Davydd* yn *dd'* yn y llawysgrif, yma, ac mewn 17 o achosion eraill. Ddwywaith yn unig y ceir *Davydd* yn llawn, sef yn §18 *pann na wddost yr hynn idd ys yn i ddarparv i Ddavydd Sant* (rhan o araith yr angel wrth Aeddan), a §19 *Sef a orvc Davydd, kynhewi, a diolwch i Dduw*. Cytuna'r gwahanol destunau Cymraeg iddo gael ei fedyddio'n 'Ddafydd' (BDe 3.5 *Dauyd*), ond 'Dewi' yw'r ffurf ar ei enw a geir amlaf yn y testunau cynnar (BDe 25; WLSD 15), ac mae hyn yn wir am fersiwn Pen 27ii hefyd. Ceir *Dewi* 68 o weithiau, a'r achos cyntaf yn §4, *Kynta gwyrthiav a wnayth Dewi*, ac mae 20 achos o *Davydd*, naill ai'n llawn neu'n dalfyredig. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys chwe achos o'r cyfuniad *Davydd Sant* (§§11 (ddwywaith), 18, 20, 21, 25), tri achos o *Dewi Sant* (§§23, 24, 26) ac un o *Arglwydd Ddewi Sant* (§25); o'r deg cyfuniad hyn mae'r mwyafrif (chwech) i'w cael mewn araith yn hytrach na naratif. Defnyddir y ddwy ffurf, *Dewi* a *Davydd*, ochr yn ochr mewn nifer o adrannau (§§10, 11, 19, 21, 23, 25).

Gall fod yn arwyddocaol fod *Davydd* yn cael ei ddefnyddio'n llawer amlach na *Dewi* mewn araith. Fe'i gelwir yn *Davydd* ac, yn ddiweddarach yn y stori, *Davydd Sant* gan ei athro Paul(in)us (§§10, 20), ac yn *Davydd* gan y gynulleidfa yn synod Breffni (§23). Gan yr angel neu'r angylion ceir y ffurfiau *Davydd Sant* (§§11, 18, 25) a *Davydd* (§25) wrth siarad â Paul(in)us, Aeddan a Dewi ei hun, ond *Dewi Sant, ych arglwydd chwi* (§26) wrth ddatgan y newyddion am ddiwedd ei oes ar draws Prydain ac Iwerddon. Yn yr un modd, mae cyfeiriad ei frodyr yng Nglyn Rhosyn ato wrth yr enw *Arglwydd Ddewi Sant* (§25) yn perthyn i ddyddiau olaf ei oes. Efallai fod hyn i gyd yn adlewyrchu teimlad mai 'Dafydd' (neu 'David') oedd enw cywir y sant, a ddefnyddid gan seintiau ac eglwyswyr dysgedig eraill, ond bod ei frodyr a'r boblogaeth ehangach yn ei alw'n 'Dewi'; cymharer VSD §1 *Iste itaque sanctus, quem tinctio David uulgus autem Dewi clamat* 'this holy man, who was baptized David, but whom the common people call Dewi'. Anos yw canfod unrhyw batrwm yn y defnydd o *Davydd* a *Dewi* yn y naratif. Mewn dwy adran (§§10, 11) ceir *Davydd* yn y naratif yn syth ar ôl ei ddefnyddio mewn araith, ond mewn achosion eraill ymddengys fod y naill ffurf neu'r llall wedi ei dewis ar hap, neu er mwyn osgoi undonedd; e.e. §23 *Wrth hynny, i dyrchawwyd Dewi yn dywysoc ar saint Ynys Brydain, gwedi pregethv o Davydd yn y senedd vaur bonno*. Ar y ddwy ffurf ar yr enw, gweler ymhellach n. 22.

§4

²¹ **kynta gwyrthiav** Ystyrir *gwyrthiav* yn enw lluosog yn gyffredinol, ond enw unigol a ddisgwyliid ar ôl y trefnol *kynta*. Yn yr un modd, disgwyliid enw unigol ar ôl *ail*, ond ceir *ail gwyrthiav* isod (§5). Ac er cyfeirio at *gwyrth arall* yn §7, ac *arall* yn cytuno â'r ffurf unigol, fel y disgwyliid, *gw(y)rthie arall* sydd yn §6 a §8. Ychwanegiad unigryw yw'r achos yn §8, a'r testun hwn yn cyfrif ar wahân y ddwy wyrth a ddigwyddodd pan fedyddiwyd Dewi, sef ffynnon yn ymddangos, ac adfer golwg y *gwr dall a oydd yn i ddaly wrth vedydd*. Ym mhob un o'r achosion a nodwyd uchod, yn wir, un digwyddiad gwyrthiol yn unig a ddisgrifir. O ganlyniad, gair unigol a ddisgwyliid o ran ystyr yn ogystal â chystrawen, os ystyr

gw(y)rth yw ‘tro neu ddigwyddiad rhyfeddol’ (Saesneg ‘miracle’) (gw. GPC d.g. *gwyrth*). Fodd bynnag, mae ystyr arall i’r gair, sef ‘gallu rhyfeddol, rhinwedd’ (ibid.), ac ymddengys fod yr ystyron hyn yn cael eu cymysgu neu eu cyfuno weithiau, gan arwain at ddrwsych o ran nifer ramadegol yr enw (gw. BMartin n. 55 (ar *a hwnnw vv y gwyrthiav kyntaf*)). Dewiswyd y cyfieithiad ‘manifestation of miraculous powers’ er mwyn ceisio cyfleu hyn.

Tebyg yw defnydd y ffurf lluosog yn y fersiwn diweddarach o Fuchedd Dewi yn Llst 34, nid yn unig mewn darlleniadau sy’n cyfateb i’r rhai yn Pen 27ii, §§4, 5 a 6, a drafodir uchod, ond hefyd mewn darlleniad sy’n cyfateb i’r achos yn §7 lle ceir ffurf unigol yn Pen 27ii (td. 268 (llau. 23–4) *Cynta gurthie*, (llau. 27–8) *Ail gurthieü*; td. 269 (ll. 25) *Gurthie aral*, (ll. 31) *Gurthiaü aral*). Yn yr un modd, ceir ffurfiau lluosog yn yr holl ddarlleniadau cyfatebol yn y fersiwn diweddar arall yn Pen 225 (td. 228 (ll. 17) *Cyntaf gwyrtheu*, (llau. 20–1) *Ail gwyrtheu*; td. 229 (ll. 9) *Gwyrtheu aralh*, (llau. 13–14) *Gwyrtheu aralh*). At hynny, gellir gweld rhai ffurfiau lluosog tebyg mewn un o’r testunau sy’n gynharach na Pen 27ii, sef Pen 15 (td. 15 (ll. 34) *kynntaf gwrrthev*, (ll. 36) *Eil gwyrth[...]* (mae’r inc wedi pylu ond mae digon o le ar gyfer *-(i)ev*); td. 16 (ll. 15) *Goyrtheu arall* (gellid darllen *Goyrthen*), (ll. 18) *Gwyrthev arall*). Mae’n debygol, felly, fod cynifer o achosion o ddefnyddio *gw(y)rth(i)au* fel pe bai’n air lluosog yn Pen 15 ag y mae yn Llst 34 a Pen 225 (yn groes i fy sylw yn Day 2022a: 148). Y ffurf unigol arferol a geir yn y testunau canoloesol eraill (BDe 4.8 *kyntaf gwyrth*, 11 *eil gwyrth*, 4.9 a 14 *gwyrth arall*), ond mae’r ffaith fod Pen 15 yn defnyddio’r ffurfiau lluosog yn codi’r posibilrwydd mai ffurfiau lluosog a geid yn y cyfieithiad Cymraeg gwreiddiol hefyd. Os felly, mae’n debyg fod y ffurfiau hyn wedi eu cywiro neu eu safoni’n annibynnol gan wahanol ysgrifwyr wrth i’r gwahanol fersiynau o’r fuchedd gael eu trosglwyddo (ar y berthynas rhwng y testunau, gw. [Llawysgrifau](#), a Day 2022a).

²² **Dewi** Dyma’r tro cyntaf y ceir yr enw *Dewi* yn y testun. Defnyddir y ffurf hon ar enw’r sant yn fwy cyffredin o lawer na *Davydd* yn ei fuchedd (gw. n. 20). Mae’n debyg mai *Dewi* oedd y ffurf gynharaf ar yr enw yn y Gymraeg; credir ei fod yn fenthyciad o’r Lladin *Dauid*, a *Dafydd* yn fenthyciad diweddarach o *Dauidus* (WLSD 15). *Dewi* yw’r unig ffurf ar enw’r sant a geir yn ‘Armes Brydain Fawr’, cerdd a ganwyd yn y ddegfed ganrif (ArmP2; Isaac 2007), ac felly hefyd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion (Parry Owen 1997: 28) gan gynnwys ‘Canu i Ddewi’ Gwynfardd Brycheiniog (DewiGB). O’r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen ceir y ddwy ffurf ar ei enw yn y farddoniaeth (Parry Owen 2008: 47). O ran y cerddi a ganwyd iddo’n benodol, ceir *Dewi* yn unig yn DewiIG, DewiLGC1 a DewiLGC2, a’r ddwy ffurf ar yr enw yn DewiDL, DewiIRh a DewiRhRh.

²³ **ac ni lewes Dewi** Ceir yma gwtogi sylweddol o gymharu â’r testunau cynharach (BDe 3.9–10 *Ac ny lewes Dewi vwyt, namyn bara a dwfyr*). Dyma’r unig gyfeiriad yn y fuchedd Gymraeg at yr agwedd hon ar asgetigiaeth Dewi. Yn *Vita S. David* fe’i crybwyllir mewn adran gynharach, wrth esbonio ystyr ‘tair

rhodd' Sant (VSD §2, a chymharer *Dauid Aquilento*, §42). Ar Ddewi fel 'Dyfrwr', gweler ymhellach Wade-Evans 1923: 62–3, 105, a chymharer hefyd y cyfeiriad ato'n ymdrochi mewn dŵr oer, VSD §31.

§5

²⁴ **Gildas Sant** Mynach o ogledd Prydain (m. 570) ac awdur *De Excidio Britanniae*, ffynhonnell bwysig ar gyfer hanes Prydain yn y cyfnod is-Rufeinig. Ceir yr un stori am anallu Gildas i bregethu ym mhresenoldeb Dewi, cyn ei eni, yn y fersiwn o'i fuchedd ei hun a briodolir i Garadog o Lancarfan ac sy'n dyddio o'r ddeuddegfed ganrif, ond nid yn y fersiwn cynharach a ysgrifennwyd gan fynach o Rhuys, yn Llydaw (gw. WCD 277–82; WLSLSD 28–31; Wade-Evans 1923: 46–7).

²⁵ **y vo** Y ffurf arferol ar y rhagenw trydydd unigol gwrywaidd yn y testun hwn yw *ef*, ond mae tri achos o *y vo*, a'r ddau arall yn §23, *ac na [a]llodd yr vn brege[th]v namyn y vo*, a §24, *kanys y vo i hvn y sydd bena o'r holl ynys*. Ystyrir *y vo* (*y fo*) yn amrywiad ar *efo* neu *efo* yn GPC d.g. *efo ... y fo*, a nodir bod y ffurf hon yn gyffredin ar lafar yn y gogledd (cf. Thomas 1996: 243). O ran y tri achos o *y vo* yn nhestun Pen 27ii, *efo* yw'r darlleniad yn y manau cyfatebol yn y rhan fwyaf o'r testunau hŷn (BDe 3.16, 18.4, 19.3; gthg. WLSLSD 2.30 *euo*, 11.17 *ef*, 28 *ef*). Mae'n ddiddorol cymharu'r cymysgedd o ffurfiau, *efe*, *efo* ac *y fo*, a geir yn y manau cyfatebol yn y fersiwn o Fuchedd Dewi yn Llsl 34, llawysgrif ddiweddarach o'r gogledd (td. 269 (ll. 3); td. 284 (llau. 3, 22)). Cymharer hefyd yr achosion unigol o *vo* neu *fo* yn eiryn rhagferfol yn y ddau destun hyn (gw. n. 33, ar *vo a ymddangoses*).

²⁶ **heb y Nonn** Ar *heb y*, gweler GMW 154; nid y fannod sydd yma. Cymharer *heb y Davydd* (§10), *heb y Dewi* (§§21, 27), *heb y Gildas* (§5).

²⁷ **rrwn[*g*] y ddor a'r pared** Gellid dehongli'r geiriau hyn naill ai'n llais Non (cf. BDe 3.16–17) neu'n rhan o'r naratif (cf. WLSLSD 2.30–1).

²⁸ **plwy** Am yr ystyr 'plwyfolion, pobl', gweler GPC d.g. *plwyf* (b).

²⁹ **a nine yn llawen genym dy wrando di** Ar ddefnydd *gan* gydag ansoddair i ddynodi teimlad, gweler GPC d.g. *gan*¹ (3) a GMW 190. Gwrthgyferbynnir BDe 3.21–2 *a ninneu yn llawen yn damunaw dy warandaw di*.

³⁰ **'Gelwch i mewn y lleian a yrais i allan gyne o'r eglwys.'** Gellir cymryd mai Gildas sy'n siarad; cymharer BDe 3.22–3 *'Gelwch,' heb y sant, 'y lleian y mywn, a yrreis i gynneu o'r eglwys.'*

³¹ **ynys arall** Er nad eglurir pa le a olygir, naill ai yn y gwahanol fersiynau o'r fuchedd Gymraeg nac yn *Vita S. David*, cyfeirir mewn ffynonellau eraill at Gildas yn mynd i Iwerddon, fel Padrig o'i flaen (WLSLSD 32; VSD 115n29).

§6

³² **gwyrthie arall** Gweler n. 21, ar *kynta gwyrthiau* (§4).

§7

³³ **vo a ymddangoses** Ar ddefnydd *vo* (*fō*) yn eiryn rhagferfol, gweler GPC d.g. *efō* a *fo*; gwrthgyferbynnner BDe 4.14 *ef a ymdangoses*. Mewn manau eraill yn nhestun Pen 27ii ceir y geiryn *ef*; e.e., §1 *ef bievvydd dev le*; §6 *ef a ddoyth tyranav a mell*. Mae un achos tebyg o *fo* yn eiryn rhagferfol yn y fersiwn diweddarach o'r fuchedd a geir yn Llst 34, llawysgrif arall o'r gogledd (td. 276 (llau. 12–13) *fo deriu y dri oi dyluyth or fynachloc uneüthyr y frad*; gthg. BDe 10.19–20 *neur deryw ...*; Pen 27ii, §18 *ner ddarvv ...*). Efallai fod yr ysgrifwyr wedi defnyddio ffurf lafar yn anymwybodol yn y manau hyn; cymharer n. 25, ar y *vo*, ffurf ar y rhagenw *efō*.

§8

³⁴ **gwr dall** Rhoddir ei enw, *Mobí*, yn *Vita S. David*. Gellir ei uniaethu â Sant *Mobí* o Glasnevin neu *Mobí Clárainech*, a'r epithet hwn yn cyfateb i'r gair Cymraeg *wynepglawr* (gw. n. 35). Gweler ymhellach Wade-Evans 1923: 77; BDe 35; VSD 117n34.

³⁵ **gwr dall ... A'r awr honno i kav[a]s i olwc.** Ceir aralleirio sylweddol yma, o gymharu â'r disgrifiad hwy o'r wyrth a'i chefnidir yn y testunau cynharach (BDe 4.15–20 *A dall a oed yn daly Dewi wrth vedyd a gafas yna y olwc. Ac yna y dall a wybu vot y mab yd oed yn y daly wrth vedyd yn gyflawn o rat. A chymryt y dufyr bedyd, a golchi y wyneb a'r dufyr. Ac o'r awr y ganet, dall wynepclawr oed. Ac yna y olwc a gafas, a chwbyl o'r a berthynei arnei*). Dywedir yn fersiwn Pen 27ii fod y dyn (sef *Mobí*, fel y nodar *Vita*) wedi colli ei olwg yn hytrach na'i fod wedi ei eni'n ddall, a hepgorir y cyfeiriad ato fel un *wynepglawr* ('heb na thrwyn na llygaid'), oherwydd ystyried y gair hwn yn rhy anodd neu hen ffasiwn, o bosibl. (Ar *wynepglawr*, gw. GPC; cf. VSD §7 *sine nare et sine oculis* 'without nostrils and without eyes'; gthg. VSDauidLincoln §8, sy'n hepgor unrhyw sôn am anffurfiad *Mobí*, er cadw ei enw.) O ganlyniad i'r newidiadau hyn mae'r testun yn llifo'n rhwyddach, yn dilyn trefn gronolegol fwy rhesymegol ac yn llai ailadroddus, ond effaith arall yw bod y wyrth ychydig yn llai rhyfeddol nag y mae yn y testunau cynharach (gw. ymhellach y drafodaeth yn y [Rhagymadrodd](#)).

Mae'n ddiddorol fod aralleirio gwahanol i'w weld yn y fersiwn o'r fuchedd a ysgrifennwyd gan Roger Morris yn Llst 34 yn rhan olaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Cedwir y gair *wynepglawr* yn ei destun ef, ac ychwanegwyd cymal sy'n gwneud ei ystyr yn amlwg: *Ac or awr y ganed dal uyneb glayfr¹ cymbenid oed, ar cangc²r a lausai druyen y dyn dal* (td. 270, llau. 7–9). Awgryma'r *f* a ychwanegodd Morris, gan newid *clawr* yn *clafr*, ei fod yn deall y gair yn yr ystyr 'gwahanglwyf' neu 'gwahanglwyfus', yn unol â'r esboniad a roddir yn y fersiwn hwn mai clefyd a achosodd yr anffurfiad (gw. GPC d.g. *clawr*¹ a *clafr*, *clawr*²). Yn

fwy cyffredinol, ymddengys fod *wynepglawr* wedi ei ddeall yn aml yn yr ystyr ‘ac iddo wyneb gwahanglwyfus’ neu ‘ac iddo wyneb gwastad (oherwydd y gwahanglwyf)’, a bod *clawr* fel gair ar wahân (a ddynodai ‘bwrdd’ yn wreiddiol, neu bethau gwastad eraill yn ddiweddarach) wedi ei ailddehongli yn yr ystyr ‘gwahanglwyfus’, a’r ffurf *clafr* yn datblygu wedyn dan ddylanwad y gair *clafur* (neu’r ffurf gynharach *clafor*) ‘person sy’n dioddef gan y gwahanglwyf’ (Jacobs 1995; gw. hefyd Peate 1974–6; RIA s.v. *clárainech* (a) ‘flat-faced (as a result of leprosy?)’).

§9

³⁶ **Uetvs Rvbvs** Yn ôl Gerallt Gymro, cyfetyb yr enw lle Lladin *Vetus Rubus* i’r enw Cymraeg *Henmeneu* (Hen Fynyw); gweler Wade-Evans 1923: 78; BDe 36. Uniaethir y lle hwn fel arfer â Hen Fynyw yng Ngheredigion (Wade-Evans 1923: 83–5; BDe 36; Thomas and Howlett 2003: 92; Sharpe 2007: 99). (Ar y syniad mai lleoliad agosach at Dyddewi a olygir, gw. Rees 1836: 194; James 1967: xxxi; Evans 2007: 39.) Awgryma Thomas and Howlett (2003: 102) mai yn Hen Fynyw / *Vetus Rubus* y lleolid *Maucanni monasterium* ‘mynachlog Meugan’, sef y sefydliad y gofynnir i Sant ddanfôn rhan o bob un o’r ‘tair rhodd’ (*tria ... munera*) ato i gael eu cadw ar gyfer y mab a enir iddo, yn ôl *Vita S. David* (VSD §2, a gw. n. 7, uchod).

Nid yw fersiwn Pen 27ii yn cynnwys y cyfieithiad Cymraeg o’r enw Lladin a geir yn y testunau cynharach (BDe 4.22–3 yng *Kymraec yr Hennllwyn*; gw. ymhellach Wade-Evans 1923: 78). Yn ddiweddarach yn nhestun Pen 27ii (§12) cyfeirir at Ddewi’n dychwelyd i *Uetres Rvbvs*, a’r ffurf hon ar yr enw yn tarddu o wall copïo, mae’n debyg.

³⁷ **seilm yr holl vlwyddyn a’i llythion a’i efferenav** Cymerir bod y ddau ragenw meddiannol yn fenywaidd ac yn cynrychioli yr *holl vlwyddyn*, er disgwyl ychwanegu *b* o flaen *efferenav* (cymharer §4 yn *i boys*, §22 *i hwn mab*, a gw. TC 154). Posibilrwydd arall fyddai deall yr ail ‘i yn rhagenw meddiannol gwrywaidd, yn cynrychioli Dewi; felly, ‘ei llythion (hi) a’i offerennau (ef)’. Mae’n bosibl, fodd bynnag, fod yr ail ‘i yn ffrwyth diofalwch wrth gopïo ac mai’r fannod a geid yn y gynsail; cymharer BDe 4.23–5.1 *seilym yr holl vlwyddyn a’e llythion a’r offerenneu*.

³⁸ **y glomen a’r gylvin aur iddi** Arwyddocâd y golomen yw bod yr Ysbryd Glân yn gwmni i Ddewi ac yn ei ddysgu, a’i gylfin aur yn arwydd o’i natur arbennig. Yn *Vita S. David* cyfeirir ymhellach at golomen yn disgyn ar ysgwyddau Dewi wrth iddo bregethu yn synod Brefi (VSD §52). Mae’r cyfeiriadau hyn yn adlewyrchu’r stori yn y Testament Newydd am yr Ysbryd Glân yn disgyn ar yr Iesu fel colomen adeg ei fedyddio (Mathew 3.16; Marc 1.10; Luc 3.22; Ioan 1.32). Cymharer hefyd fucheddau Lladin Samson, sy’n disgrifio colomen yn ymddangos wrth i’r sant hwnnw gael ei urddo’n ddiagon, yn offeiriad ac yn esgob (TWS 117). Cynhwysir colomen yn aml iawn mewn darluniadau gweledol o Ddewi (gw. Crampin 2022).

§10

³⁹ **Pawlys** Cymharer *Powls*, isod yn yr un adran (hefyd §11, [*P*owls), a *Paulus Sant* yn y disgrifiad o synod Brefi (§20). Paulinus yw enw athro Dewi yn *Vita S. David* (VSD §§10–12, 49) ac yng nghynrychiolwyr cynnar y fuchedd Gymraeg (BDe 5.4 *Paulinus*, 19 *Paulinus*). Mae olion o'i gwlt yn ardal Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, ac yn Llan-gors, i'r dwyrain o Aberhonddu, a gwelir ffurf Gymraeg wahanol ar ei enw yn yr enwau Capel Peulin, Ffynnon Beilyn a Llanbeilyn neu Lanbeulin; at hynny, cyfeirir at 'Llangors Peylyn Sant' yn y rhestr o blwyfi yn Pen 147 (WCD 531–2; BDe 36; RWM i, 918; a gw. ByCy Ar Lein d.e. *Paulinus (Peulin)*). Cymharer hefyd y ddwy ffurf ar ei enw a roddir yn y fersiwn o Fuchedd Dewi yn Llst 34 (td. 270 (llau. 20–1) *Athro a eluid (Peilyn yn Gymraec) Paulinus*), a'r cyfeiriadau ato fel *Peulin* gan Wynfardd Brycheiniog ac Ieuan ap Rhydderch (DewiGB ll. 168; DewiIRh ll. 35). Mae'n ddiddorol ystyried a allai dylanwad yr enw Pawl (*Paulus* yn Lladin) fod yn rhannol gyfrifol am y ffurfiau *Pawlys*, *Powls* a *Paulus* yn nhestun Pen 27ii. Awgrymir yn BDe 36 y gellir uniaethu Paulinus, o bosibl, â Sant Paul o Léon yn Llydaw, a'i fuchedd yntau'n cynnwys cyfeiriad ato ef a Dewi yn ddisgyblon i Illtud Sant (Cuissard 1881–3: 421; Doble 1960: 13).

⁴⁰ **esgob sant** Sef yr enwog Sant Germanus (o Auxerre), yn ôl *Vita S. David* (VSD §10; BDe 36–7; gw. ymhellach Wade-Evans 1923: 79; WCD 270–2).

⁴¹ **oni** Ffurf ar *yny* 'nes, hyd nes'. Roedd yn 'ffrwyth cymysgu *yny* ac *oni(d)*' yn ôl GPC d.g. *oni*².

⁴² **o dra ysdvdio yn i lyvre** Yn y fersiwn hwn, beir dallineb Paul(in)us ar dreulio gormod o amser yn astudio ei lyfrau; gwrthgyferbynnir BDe 5.7 *o dra gormod dolur yn y lygeit*, ac ar yr aralleirio yn y frawddeg hon, gweler ymhellach y [Rhagymadrodd](#).

⁴³ **ol yn ol** Ar yr ystyr, gweler GMW 226.

⁴⁴ **i maynt i'm poyni** Enghraifft o ddefnydd *y* (yn hytrach nag *yn* traethiadol) + y rhagenw meddiannol *'m* + berfenw, i greu cystrawen beriffraestig; gweler GMW 108.

⁴⁵ **sef i gwnayth yr athro yna, rryveddv** Yn y gystrawen hon gyda *sef* y geiryn perthynol a ddefnyddir fel arfer yw *a*, gyda threigladd meddal i'r ferf, yn hytrach nag *i (y)* fel y gwelir yma (gw. GMW 52; GPC d.g. *sef*1(b); a chymharer BDe 5.15 *sef a oruc* ...). Mae'r rhan fwyaf o'r achosion lle ceir *sef a oruc* yn y testunau cynharach heb eu newid yn nhestun Pen 27ii, er bod un achos o ddiweddarau'n *sef a wnayth* (§25 *sef a wnayth yr ysgolheigion ... sanv yn vawr*; gthg. BDe 19.15–17 *sef a oruc yr ysgolheigion ... synnyaw arnunt yn vawr*). (Mewn achos arall, defnyddir ffurf orffennol seml wrth ddiweddarau a chwtogi ymadrodd tebyg; gw. §19 *a Dewi a vv lawen wrthaw*; gthg. BDe 11.13–14 *sef a oruc Dewi yna, bot yn llawen wrthaw*.) Ar y gystrawen arall lle defnyddid *goruc* yn ferf gynorthwyol, ar ôl y berfenw, gweler n. 13, a gweler ymhellach Thomas 2003.

§11

⁴⁶ **Glasnbri** Sef Glastonbury yng Ngwlad yr Haf. Erbyn yr wythfed ganrif, Dewi oedd prif nawddsant yr abaty yno, ar ôl y Fendigaid Forwyn Fair, ac yn y ganrif ddilynol hawliai'r abaty fod ei greiriau yn ei feddiant (Harris 1940: 71). Crybwyllodd William o Malmesbury ymweliad Dewi â Glastonbury yn ei gyfrol am hanes yr abaty, gan nodi mai eglwys arall a sefydlodd y sant yno ar ôl i'r Iesu ddweud wrtho mewn breuddwyd fod yr eglwys wreiddiol wedi ei chysegru i'r Forwyn Fair (Scott 1981: 62–5).

Ymwelodd Collen Sant yntau â Glastonbury yn ôl ei fuchedd ef, gan ddod yn abad yno (gw. BCollen).

⁴⁷ **yr Enaint Twymyn** Yn llythrennol, 'y badd (meddyginiaethol) poeth'; gweler GPC d.g. *ennaint* (b). Y lle a olygir yw Caerfaddon neu Bath, Gwlad yr Haf (cf. VSD §14 *Badum*), a'i ddyfroedd yn enwog am eu rhinweddau meddyginiaethol (gw. Wade-Evans 1923: 81; BDe 38; WLSD 38). Mae nifer o gyfeiriadau yng ngherddi'r Cywyddwyr at Ddewi'n creu'r rhinweddau hyn (TWS 43–5).

⁴⁸ **Crowlan** Sef Croyland neu Crowland yn swydd Lincoln. Yn ôl traddodiadau o Loegr, Sant Guthlac (m. 714) oedd y cyntaf i fyw yno (BDe 39; ODS⁵ 202; Colgrave 1956: 4–8, 88–9; gw. hefyd <<http://www.crowlandabbey.org.uk/>>).

⁴⁹ **yMhepaw'n** Ymddengys hwn yn gyfuniad o'r arddodiad *yn* ac enw lle wedi treiglo'n drwynol, ond nid yw 'Pepaw'n' yn lle hysbys yng Nghymru na Lloegr (WATU; Ekwall 1936). Mae'n debyg fod y darlleniad hwn yn ffrwyth camddehongli cynsail aneglur. Yn y testunau cynharach cyfeirir at *Repecwn* (BDe 6.6–7), sef Repton yn swydd Derby (Wade-Evans 1923: 81; BDe 39; a chymharer VSD §13 *Repton*). Roedd St Guthlac yn fynach yno cyn mynd i Crowland; gweler n. 48.

⁵⁰ **Collan** Sef Colfa yn sir Faesyfed, un o gapeli Glasgwm (gw. n. 51), a gysegrwyd i Ddewi (Wade-Evans 1923: 82; James 2007: 46, 80). Er ei fod yn fach, gallai Colfa fod wedi ei grybwyll oherwydd hwn oedd y cyntaf o addoldai Dewi a gyrhaeddid ar ôl croesi'r ffin rhwng Lloegr a Chymru, wrth deithio o Lanllieni (Leominster) i Landdewibrefi (James 2007: 46, 80).

⁵¹ **Glasgwm** Roedd Glasgwm, sir Faesyfed, yn un o'r eglwysi pwysicaf a gysegrwyd i Ddewi (gw. DewiGB n. 37), ac yn gartref i'w gloch enwog ('Bangu') yn ôl Gwynfardd Brycheiniog a Gerallt Gymro (Wade-Evans 1923: 82; BDe 39; HW i, 254–5; DewiGB llau. 53–8; Jones 1938: 16–17). Roedd Glasgwm, a Cholfa gerllaw (gw. n. 50), ymhlith yr eglwysi a gysylltir â Dewi ar y llwybr canoloesol pwysig rhwng Llanddewibrefi a Lanllieni (James 2007: 78) (ar y ddau le hyn, gw. n. 105, n. 52).

⁵² **Llann Lieni ynglan Havren** Sef Lanllieni neu Leominster, ar lan afon Lugg yn swydd Henffordd (Wade-Evans 1923: 82; BDe 39). Ceir yr un cyfeiriad anghywir at afon Hafren yn y testunau Cymraeg cynharach (BDe 6.9), ond nid yn *Vita S. David* (VSD §13). Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg roedd crair a elwid yn 'fraich Dewi Sant' ym meddiant priordy Lanllieni (James 2007: 80).

- ⁵³ **Peibiawc** Roedd Peibiog neu Beibio ab Erb yn daid Dyfrig Sant yn ôl buchedd y sant hwnnw (VDub LL-V §14; gw. hefyd Wade-Evans 1923: 83; BDe 39; WCD 535–6; TWS 99–103).
- ⁵⁴ **Erging** Erging, Ergyng neu Archenfield yw'r ardal rhwng afonydd Gwy, Mynwy a Worm, sy'n cynnwys rhan o swydd Henffordd heddiw; roedd cylliau Dewi a Dyfrig yn gryf yno yn yr Oesoedd Canol (Wade-Evans 1923: 83; BDe 39; HW i, 280; Richards 1998: 64–5).
- ⁵⁵ **i rroddes wared i Beibiawc ... oydd ddall** Dyma'r trydydd achos o iacháu dallineb yn hanes Dewi; cymharer §8 a §10, a hefyd §17 lle nodir bod [y] *krvplaid a'r deillion* yn cael iachâd mewn tair ffynnon yn Nhyddewi.
- ⁵⁶ **Llan Gyvelan ynglan Gwyr** Nid yw 'Llangyfelan' yn enw lle hysbys (gw. WATU), ac mae'n debyg ei fod yn wall am Llangyfelach, sir Forgannwg (cymharer BDe 6.14–15 *Llanngyuelach yng Gwbyr*). Roedd Llangyfelach yn un o ganolfannau pwysicaf cwlt Dewi, gan gael ei grybwyll yn drydydd, ar ôl *Mynyw* (Tyddewi) a *Brefi*, yn y rhestr o eglwysi Dewi yn 'Canu i Ddewi' gan Wynfardd Brycheiniog (DewiGB ll. 87n; Parry Owen 2022: 283–4; gw. hefyd Wade-Evans 1923: 82–3; BDe 39; James 2007: 70–1). Efallai fod yr ysgrifydd wedi cael trafferth yn darllen ei gynsail; gall fod yn arwyddocaol iddo newid rhan olaf yr enw ar ôl ei ysgrifennu (Pen 27ii *llan gyvelA^an*; ymddengys fod yr *A* (os *A* yw hi) wedi ei hysgrifennu dros lythyren neu lythrennau eraill, a bod *a* wedi ei hychwanegu wedyn i gadarnhau'r sillafiad). Mae'n debygol fod *ynglan* yn wall arall: efallai fod *yng* wedi troi'n *ynglan* dan ddylanwad *ynglan Havren*, a geir yn gynharach yn yr adran hon. Fodd bynnag, o dderbyn y testun fel y mae, mae'n anodd deall *glan* yn lan afon yma, am nad ymddengys fod *Gwyr* yn enw afon hysbys. Yn ôl pob tebyg, cyfeirir at Benrhyn Gŵyr (fel y gwna, yn sicr, yn y testunau cynharach), ac felly gellid deall *glan* yn 'llethr' neu 'traeth' (gw. GPC). Dewiswyd yr ystyr cyntaf ar gyfer y cyfieithiad Saesneg, am nad yw Llangyfelach ymhell o'r ucheldiroedd sydd yng ngogledd Penrhyn Gŵyr.
- ⁵⁷ **Rraglan** Sef Rhaglan yn sir Fynwy. Erbyn hyn, mae'r eglwys yno wedi ei chysegru i Gadog Sant (WLSLSD 40).
- ⁵⁸ **Cydweli** Cwmwd a gynhwysai'r ardal rhwng afonydd Tywi a Llwchwr, yn wreiddiol; o enw'r cwmwd y tarddodd enw tref Cydweli (BDe 40; Wade-Evans 1923: 83).
- ⁵⁹ **Bodugad** Ni wyddys mwy amdano. Ceir trafodaeth ar elfennau'r enw yn BDe 40, a chymharer hefyd BDe 6.16 *Botucac*; VSD §13 *Boducat* ('Byddugad' yn y cyfieithiad Saesneg).
- ⁶⁰ **Elldrud** Enw personol anhysbys, a gwahanol i'r ffurfiau a geir yn y testunau Cymraeg cynharach (BDe 6.16 *Nailtrum*; WLSLSD 4.20 *Nailtrum*) ac yn *Vita S. David* (VSD §13 *Martrun*); ar y rhain, gweler Wade-Evans 1923: 83; BDe 40–1.

§12

⁶¹ **Uetres Rvbvs** Gweler n. 36 (ar *Uetvs Rvbvs*).

⁶² **Gloyslan** Mae'n debyg mai'r un dyn yw'r *Gwayslan Esgob* a grybwyllir yn §17, ac y ceir ei enw yn un o elfennau *Ffynon Waslan ac Eliud* yn yr un adran. Defnyddir ffurfiau amrywiol ar ei enw yn y testunau cynharach hefyd (BDe 6.19 *Goeslan*, 10.6 *Gweslan Escob* (Llst 27 *gwelsan*), 11 *Ffynnawn Gweslan* (Cotton Titus D.xxii; J 119 *gwestlan*; Llst 27 *gwelstan*)). Fe'i gelwir yn *Guistilianus* yn *Vita S. David* ('Gwystli' yn y cyfieithiad Saesneg) a nodir ei fod yn nai neu'n gefnder i Ddewi (VSD §14 *fratruelis*). Gweler ymhellach BDe 40; Wade-Evans 1923: 85–6; a hefyd WCD 324, lle'i gelwir yn 'Gwestlan'.

⁶³ **ar a vo ffyddlawn, ar a gladder** Ar y gystrawen, gweler GMW 70; GPC d.g. *ar²*; a chymharer §24 *i bob rrvw ddyn ... ar a ovynai nowdd-dir Dewi, a pawb ar a vo yNinas Rvbi*.

⁶⁴ **Ac o'r lle hwnw nid a neb i vffern ar a vo ffyddlawn, ar a gladder ymonwent y lle hwnnw.**

Cyfeiriodd Gwynfardd Brycheiniog at y gred na fyddai neb a gladdwyd ym *mynwent Ddewi* yn mynd i uffern (DewiGB llau. 166–7; gw. hefyd DewiIG llau. 95–100; DewiIRh llau. 137–42). Ceir traddodiadau tebyg yn ymwneud â seintiau o Iwerddon (TWS 65; VSD 121n48). O'i gymharu â thestunau cynharach buchedd Dewi mae darlleniad Pen 27ii yn fyrrach, ac ychydig yn wahanol yw ei ystyr a'i arwyddocâd; cymharer BDe 6.22–7.2 *ac o'r lle hwnnw nyt a neb y uffern o'r a vo ffyd da a chret ganthaw. Ac a glader y mynwent y lle hwnnw heuyt, nyt a neb y uffern*. Hynny yw, ceir yr argraff o'r fersiwn cynharach hwn fod claddu yn y fynwent arbennig hon yn ddigon, ar ei ben ei hun, i sicrhau na fyddai'r enaid yn mynd i uffern, ond yn nhestun Pen 27ii mae'n eglur fod angen ffydd hefyd.

§13

⁶⁵ **Ayddant** Sef Aeddán (Aédán), un o ddisgyblon Dewi y mae ganddo ran bwysig yn nes ymlaen yn y fuchedd (§§18–19). Yno fe'i gelwir yn *Addan Sant*, ac ni roddir esboniad am ei leoliad yn *i eglwys i hwn yn y dinas a elwid Gwernin*, sef mynachlog Ferns yn swydd Wexford. Ceir mwy o'i hanes yn *Vita S. David*, gan gynnwys cyfeiriad ato'n mynd i Iwerddon ac yn sefydlu'r fynachlog hon (VSD §§35–6, 42). Roedd Maeddóg (Máedóc) yn ffurf arall ar ei enw, a defnyddir y ddwy ffurf yn nhestun J 119 (WLSLSD 4.28, 7.4 *Aedan*, 6.30 *Aydan*, 7.21, 23, 25 *Maydawc*; cf. Pen 15), ond *Aedan* yw ei enw bob tro yn fersiwn Llst 27 (BDe 7.5, 10.14, 19, 11.15, 17, 19; cf. Cotton Titus D.xxii, a (gyda'r sillafiad *Aedan*) Llst 34). Ei enw yw *Aidanus* fel arfer yn *Vita S. David* (VSD §§15, 35–7), er defnyddio'r ddwy ffurf ar ei enw, *Aidanus* a *Maidoc*, mewn un adran nas ceir yn y fuchedd Gymraeg, lle disgrifir cloch fach a roddwyd iddo gan Ddewi yn cael ei chludo'n wyrthiol dros y môr (VSD §42). Mae bucheddau Aeddán/Maeddóg ei hun yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd tebyg, gan ei ddarlunio'n gydoeswr ac yn ddisgybl i Ddewi (Wade-Evans 1923: 87; WCD 2). Fodd bynnag, mae'n amheus ai'r un dyn oedd disgybl Dewi ac Aeddán o Ferns (c.560–626) mewn gwirionedd, yn ôl WCD 2.

⁶⁶ **Eliut** Sef Eliud, Eludd neu Deilo, sant pwysig yn ne Cymru a Llydaw yr oedd ei brif ganolfan yn Llandeilo Fawr, sir Gaerfyrddin (BDe 42; WLSd 43–4; TWS 128–34). Sillefir ei enw'n *Eluid* yn §17, fel rhan o enw ffynnon, ac mae'n ansicr ai *Eliud* ynteu *Eluid* yw'r sillafiad mewn achos arall yn yr adran honno; gweler n. xx (testunol).

⁶⁷ **Ismayl** Cysylltir Ismael â nifer o eglwysi yn sir Benfro, gan gynnwys Llanismel (neu St Ishmaels), eglwys a phentref yng nghantref Rhos, ac mae Llanismel (neu St Ishmael) arall ger Cydweli yn sir Gaerfyrddin (Wade-Evans 1923: 89). Ef oedd olynnydd Dewi fel esgob Tyddewi, yn ôl y fersiwn o fuchedd Ladin Teilo a geir yn Llyfr Llandaf (LL 115; TeliauiLL §16 (a gw. *ibid.* n. 67); gw. hefyd Wade-Evans 1923: 89; BDe 42).

⁶⁸ **Glynn Rosin** Cyfetyb Glyn Rhosyn i'r enw Lladin *Vallis Rosina* (VSD §15). Credir yn gyffredinol fod yr enw'n cyfeirio at y dyffryn lle saif yr eglwys gadeiriol bresennol yn Nhyddewi, er nad oes sicrwydd ynghylch union leoliad y fynachlog a sefydlodd Dewi (gw. Evans 2003; Evans 2007: 30–3, 38–9). Yn nhestun Pen 27ii, dyma'r achos cyntaf lle defnyddir yr enw 'Glyn Rhosyn' yn ei ffurf arferol; gwrthgyferbynnir *Glyn Vwch Rosin* a *Rosin* yn §2, a'r ail yn enw ar eisteddfa Padrig yn Iwerddon (gw. n. 9, n. 15). Awgrymir yn Wade-Evans 1923: 67 fod yr elfen *Rhosyn* yn tarddu o *rhosan*, ffurf fachigol ar *rhos* 'rhostir, corstir' (gw. hefyd WLSd 24; Thomas and Howlett 2003: 84–5).

⁶⁹ **Hodnant** Enw arall ar Lyn Rhosyn oedd Hoddnant (gw. Wade-Evans 1923: 89–90; BDe 42; Thomas and Howlett 2003: 83–4). Fe'i defnyddir ddwywaith yn yr adran hon, a hefyd yn §14; ceir y ffurf *Glyn Hodnant* yn §17 (gw. n. 84). Noda Evans (2007: 39) fod 'Hoddnant' yn cael ei ddefnyddio hyd heddiw i gyfeirio at y rhan o ddyffryn afon Alun lle saif y gadeirlan.

⁷⁰ **Boya** Yn ôl *Vita S. David* (VSD §16), roedd Boia yn ddewin (*magus*) yn ogystal â bod yn bennaeth (*satrapa*), a nodir hefyd ei fod yn Wyddel (*Scottus*; cf. BDe 7.12 *Yscot*). Ceir fersiwn byrrach o'r stori amdano ef a Dewi, sy'n enwi Teilo ar y cyd â Dewi, gan hepgor enw Boia, ym muchedd Ladin Teilo (TeliauiLL §4; TeliauiVesp §4; a gw. BDe 43). Ar y lleoedd a gysylltir ag ef, gweler Wade-Evans 1923: 90; WLSd 46; Rees 2008: 27; a n. 71 a n. 82, isod.

⁷¹ **mewn kraic uchel** Ceir yr arddodiad *mewn* yn y testunau Cymraeg cynharach hefyd (BDe 7.13 y *mywn creic uchel*). O'i ddeall yn llythrennol, mae'n rhaid meddwl am graig ac ynddi ryw fath o ogof neu gilfach, neu le i eistedd. (Mae hen sedd garreg i'w gweld hyd heddiw ym mhorthdy'r Trysordy yng nghlos cadeirlan Tyddewi, sef, sedd i borthor, mae'n debyg, er ei galw'n 'gadair Padrig'; gw. Rees 2008: 47n19; a chymharer §2 *Ysdeddva Badric*). Mae'n debygol, fodd bynnag, fod y syniad fod Boia 'mewn craig uchel' yn ffrwyth camddehongli'r gysail Ladin, ac mae'n ddiddorol ystyried beth oedd darlleniad y gysail honno. Yn *Vita S. David* (fersiwn 'Vespasian') disgrifir Boia'n gorffwys o fewn rhagfuriau caer, *arcis menibus residens* ('within the ramparts of his castle', VSD §16), ond yn y fersiwn cryno o'r fuchedd

Ladin yn llawysgrif Lincoln 149 dywedir ei fod ‘ar graig uchel’, *in excelsa rupe* (‘on a lofty crag’; VSDauidLincoln §17). Gall y gair *arcis* (*arx*) a ddefnyddir yn fersiwn ‘Vespasian’ olygu naill ai ‘caer’ neu, yn ffigurol, ‘uchder, brig’ (DMLBS s.v. *arx* ‘stronghold’, ‘(fig.) top, eminence’), ac ymddengys fod y sawl a fu’n gyfrifol am ‘graig uchel’ fersiwn Lincoln wedi ei ddeall yn yr ail ystyr. Os oedd darlleniad cynsail Ladin y fuchedd Gymraeg wreiddiol yn debyg i eiddo Lincoln 149 (*in excelsa rupe*), byddai hyn yn esbonio pam y ceir *mewn* yn y Gymraeg, am fod yr arddodiad Lladin *in* yn gallu golygu naill ai ‘ar’ neu ‘mewn’. Fodd bynnag, gellir uniaethu’r gaer a’r *kraic uchel* fel ei gilydd â’r garreg frig Clegyr Fwya neu Glegyr Boia, llai na milltir i’r gorllewin-de-orllewin o Dyddewi. Er nad oes sicrwydd a oedd yn ‘gaer’ mewn gwirionedd yn amser Dewi, mae cloddiadau archeolegol wedi dangos bod pobl yn byw yno yn y cyfnod Neolithig ac yn yr Oes Haearn (Baring-Gould 1903; Williams 1952; Coflein d.e. *Clegyr Boia*). Gweler ymhellach n. 82 (ar *twr*).

⁷² **dior** Ffurf ar *dioer*, talfyriad o *Duw a wŷr*; gweler GPC d.g. *dioer*¹ ‘diau, sicr, diamau, yn wir, yn bendifaddau’.

⁷³ **Heb y wraig ynvyd, ‘Kyvod i vyny ...’** Mae ystyron *ynvyd* yn cynnwys ‘cynddeiriog’ a ‘gwallgof’ yn ogystal â ‘twp’ a ‘ffôl’ (GPC d.g. *ynfyd*). Testun Pen 27ii yw’r unig fersiwn o’r fuchedd Gymraeg sy’n cyfeirio at wraig Boia fel y *wraig ynvyd*, yn hytrach na’i bod hithau’n defnyddio’r un ansoddair wrth geryddu ei gŵr (BDe 7.20 *Heb y wreic* [Cotton Titus D.xxii + *grthab*], ‘Yr [Llst 27 yd] wyt yn ynvyt. *Kyuot y vyny...*’), ond cyfetyb darlleniad Pen 27ii yn eithaf da i’r *Vita* (fersiwn ‘Vespasian’): *Cui coniunx in insaniam uersa, ‘Surge,’ inquit ...* ‘His wife said to him, having turned angry, “Get up ...”’ (VSD §16). (Mae’n ddiddorol fod y fersiwn cryno o’r fuchedd Ladin yn Lincoln 149 yn cyfeirio at deimladau’r gŵr a’r wraig fel ei gilydd: *At illa uersa in insaniam ait, ‘Noli contristari ...’* ‘But she grew mad and said, “Don’t be sad ...”’ (VSDauidLincoln §17). Fodd bynnag, nid yw ‘trist’ ymhlith ystyron yr ansoddair *ynfyd* a geir yn y testunau Cymraeg.)

Wrth drafod darlleniadau’r testunau Cymraeg cynharach mewn perthynas â darlleniad testun ‘Vespasian’, awgrymodd D. Simon Evans yn betrus mai **Heb y wreic a yrrwyd yn ynvyt* oedd darlleniad y cyfieithiad gwreiddiol (WLSD 46–7). Mae’n hawdd gweld sut y gallai’r gwahanol ddarlleniadau yn Pen 27ii a’r testunau Cymraeg cynharach fod wedi tarddu o rywbeth tebyg i hyn, o ganlyniad i grynhoi yn y naill achos a chamddechongli neu gamgopio yn y llall. Mae’n bosibl hefyd, fodd bynnag, fod darlleniad Pen 27ii yn tarddu o ddarlleniad tebyg i eiddo’r testunau Cymraeg cynharach ac iddo ddod yn debyg i ddarlleniad ‘Vespasian’ drwy gyd-ddigwyddiad, wrth gael ei gamddechongli neu ei grynhoi’n ddiotal.

⁷⁴ **ysgwieiriaid** Mae hwn yn air benthyg o’r Hen Ffrangeg neu’r Saesneg, a’r enghraifft gynharaf ohono’n dyddio o’r drydedd ganrif ar ddeg yn ôl GPC d.g. *ysgwier*. Yn nhestunau cynharach y fuchedd Gymraeg y gair cyfatebol yw *[g]weisson* neu *[g]wyr*, er defnyddio’r gair *ysgwieryeit* i gyfeirio at yr un gwŷr

yn y naratif sy'n dilyn (fel y gwneir yn Pen 27ii hefyd) (WLSD 5.11, 13; BDe 7.21, 23). Er bod y gair *ysgwïer* yn perthyn i gymdeithas ffiwdal yr Eingl-Normaniaid, mae'n ymddangos nad oedd y sawl a luniodd y testunau Cymraeg yn ei ystyried yn air anacronistig mewn perthynas â stori Dewi (gthg. VSD §16 *seruorum turba* 'a troop of slaves' a *Baia satellitesque eius* 'Baia and his attendants').

§14

⁷⁵ **bigelydd** Amrywiad ar, neu wall am, *bugelydd* 'bugeiliaid' (BDe 8.5 *bugelyd*). Ni nodir unrhyw ffurf yn dechrau â *bi-* yn GPC d.g. *bugail*, ond cymharer LlSt 34, 273 (ll. 21) *bigeilieid*.

§15

⁷⁶ **awn i Ddyved** Deellir *Dyved* yn enw priod, sef y rhanbarth Dyfed, un o hen daleithiau Cymru ac ynddi saith cantref (neu naw, yn wreiddiol) gan gynnwys Pebidiog, lle roedd Tyddewi (WATU 62). Mae'n amlwg fod y darlleniad hwn yn wallus, fodd bynnag. Nid yw'r stori'n rhoi'r argraff fod angen i'r ddwy ddynes deithio'n bell i gyrraedd dyffryn afon Alun, ond byddai gwneud hyn o'r tu allan i ffiniau Dyfed wedi golygu taith o dros bum milltir ar hugain. Tynnir sylw yn y nodiadau uchod ac isod at achosion eraill o ansicrwyd neu ddryswch mewn perthynas ag enwau lleoedd neu dopograffi'r de; e.e., §2 [*G*]lyn *Vwch Rrosin* a *Rosin* (n. 9, n. 15), §11 *Llan Gyvelan ynglan Gwyr* (n. 56), §24 *o Ddyvi hyd yNheivi* (n. 135). Y tebyg yw bod *i Ddyved*, fel y rhain, yn ffrwyth camddehongli cynsail aneglur. Os oedd problem o'r fath gyda'r gysail, gallai hyn esbonio, hefyd, pam na chyfeiria'r fersiwn hwn at hela cnau fel esgus dros y daith, fel y gwneir yn y testunau cynharach: *awn yn dwy y Lynn Alun y geissyaw kneu* (BDe 9.2–3). Efallai fod *dwy* wedi troi'n *ddyved* am fod difrod i'r gysail yn arwain yr ysgrifydd i feddwl fod rhan o'r gair ar goll, neu efallai fod yn y gysail ryw ymadrodd fel *ar y dwyfed*, sef 'un o ddwy' neu 'gydag un arall' (gw. GMW 48), neu *ein dwyedd* 'y ddwy ohonom' (gw. GPC d.g. *ill ... ill dwyedd* (*dowedd, dwyoedd, dwywedd, &c.*) = *ill dwy*). Mae'n ddiddorol cymharu'r darlleniad unigryw yn y frawddeg nesaf ond un yn nhestun Pen 27ii, *A cherdded ill dwedd hyd yngwaylod y glyn* (gthg. BDe 9.4–5 *A cherdet a wnaethant byt yng gwaelawt y glynn*); cymharer hefyd ddefnydd y gair *pariter* 'gyda'i gilydd' yn y man cyfatebol yn VSD §18.

⁷⁷ **Alvn** Mae afon Alun yn llifo drwy Dyddewi, yn agos iawn at ddrws gorllewinol y gadeirlan, ac yn cyrraedd y môr ym Mhorth Clais, i'r de o'r ddinas.

⁷⁸ **ill dwedd** Ffurf ar *ill dwyedd* 'ill dwy'; gweler GPC d.g. *ill ... ill dwyedd*, a chymharer n. 76.

⁷⁹ **i'w ddihayddvd** Yr ystyr, yn ôl pob tebyg, yw archwilio'r gwallt am lau gan ddefnyddio crib mân i'w gwaredu; gweler GPC d.g. *dibaeddaf: dibaeddu, dibaeddyd* 'archwilio ... chwilio am lau, chwain, &c.); cribo', a hefyd BDe 45–6. Ar arwyddocâd y weithred hon, gweler TWS 49.

⁸⁰ **ffynon Ddvnt** Enw'r llysferech yw Dunod yn y testunau cynharach (BDe 9.13 *Dunawt*; cf. VSD §18 *Dunaut*). Crybwyllir ffynhonnau gwyrthiol eraill yn §7 a §17, a chymharer hefyd y ffynnon a grëwyd pan laddwyd pen Gwenfrewy, yn ôl ei bucheddau Lladin a Chymraeg a buchedd ei hewyrth, Beuno (TWS 145–9; BGwenfrewy; Sims-Williams 2018: §13.5–6).

⁸¹ **a'i lla[w]enhasant ef** Mae ymateb Dewi a'i ddisgyblon yn llawer mwy caredig yma nag yn y testunau Cymraeg cynharach, lle dywedir eu bod hwy eu hunain yn llawenhau (BDe 9.16 *a Dewi a'e disgyblon a lawenbaassant*). Gwrthgyferbynnner hefyd *Vita S. David*, sy'n eu disgrifio'n canu clodydd Duw (VSD §18). Mae'r syniad fod Dewi a'r lleill yn cysuro Boia yn dilyn yn ddigon naturiol ar ôl y cyfeiriad at ei alar yn rhan gyntaf y frawddeg; felly, gall darlleniad Pen 27ii fod yn ffrwyth diofalwch wrth ddehongli cystrawen y gysail.

§16

⁸² **twr** Gellid deall y *twr* hwn yn rhan o gaer Boia ar y *[g]raic uchel* (y man y gwelodd y mwg ohono, §13), sef Clegyr Boia neu Glegyr Fwya (gw. n. 71). Yn sicr, ymddengys yn *Vita S. David* (fersiwn 'Vespasian') mai'r un lle a ddisgrifir yn y ddwy ran o'r stori; gweler VSD §16 *arcis menibus residens* 'resting within the ramparts of his castle', §19 *in arce sua* 'in his castle'. Awgrymodd A. W. Wade-Evans (1923: 90) nad ar Glegyr Boia oedd y gaer hon, gan ei huniaethu, yn hytrach, â chaer a saif ger afon Alun, tua hanner ffordd rhwng y gadeirlan a Chlegyr Boia, a elwir yn Gastell Penlan neu Barc-y-Castell ond a elwid gynt, o bosibl, yn Gaer Fwya, neu 'Cairboias Castel' yn ôl John Leland (Smith 1906: 64). Awgrymodd Wade-Evans ymhellach (1923: 91) fod ysgrifydd y fuchedd Gymraeg wedi 'symud' y gaer, yn ddiarwybod, o Gaer Fwya i Glegyr Fwya (y 'graig uchel'). Yn wir, gellid dehongli *creic uchel* a *[th]wr* y fuchedd Gymraeg yn ddau le gwahanol, y naill yn cyfeirio at Glegyr Fwya a'r llall at Gastell Penlan (BDe 7.13, 9.18 (cf. Pen 27ii, §§13, 16); a gw. WLS 46). Gallai'r geiriau gwahanol a ddefnyddir yn y ddwy ran o'r stori adlewyrchu naill ai ddewisiadau gwahanol wrth gyfieithu'r gair *arcis/arce* (VSD §§16, 19), neu wahaniaeth a oedd yn bodoli eisoes yn y gysail, os oedd y darlleniadau yno'n debyg i eiddo'r fersiwn cryno o'r fuchedd Ladin yn Lincoln 149 (VSDauidLincoln §17 *in excelsa rupe* 'on a lofty crag', §20 *in arce sua* 'in his castle'; a gw. n. 71 uchod). Mae'n amhosibl dweud a oedd gan y cyfieithydd le neu leoedd penodol mewn golwg wrth drosi ymadroddion o'r fath. Dylid nodi, fodd bynnag, ei bod yn debygol fod Castell Penlan wedi ei adeiladu gryn dipyn yn ddiweddarach nag amser Dewi, ac y gall fod yn ddiweddarach nag amser Rhygyfarch, awdur y fuchedd Ladin wreiddiol. (Nodir yn Coflein d.e. *Parc-y-Castell*; *Bishops Castle*, *St Davids* fod dyddiad y gaer yn ansicr ond bod y flwyddyn 1115 wedi ei hawgrymu.)

⁸³ **Sarapa** Dyma'r tro cyntaf i wraig Boia gael ei henwi. Fe'i gelwir yn *Satrapa* yn BDe 9.22, ond nid oes sail i'r enw; mae'n ffrwyth camddehongli'r gair *satrapa* 'pennaeth' a ddefnyddir i gyfeirio at Foia yn *Vita S. David* (gw. BDe 46; WLSD 49).

§17

⁸⁴ **Glyn Hodnant** Deallir *glyn* yn rhan o'r enw lle, gan ddilyn BDe 9.23–4 *Glynn Hodnant*. Efallai fod yr enw *Hodnant* a ddefnyddir yn §§13–14 (cf. BDe 7.7, 17, 8.13 *Hodnant*) wedi newid yn *Glyn Hodnant* dan ddylanwad yr enw Glyn Rhosyn (gw. n. 69, n. 68).

⁸⁵ **nid oydd yno ddwr, ond ychydig o ddwr rrydegoc** Mae afon, sef Alun, yn llifo drwy Dyddewi (gw. §15), ond noda'r *Vita* mai ychydig iawn o ddŵr oedd ynddi yn yr haf (VSD §33).

⁸⁶ **val na bv ar Ddewi yn i oys eisie gwin** Nid oedd Dewi yn yfed gwin yn ôl §4, ond byddai ei angen ar gyfer yr offeren ac wrth roi lletygarwch i westeion (gw. §21).

⁸⁷ **rrac syched** Ar y gystrawen, gweler GMW 43.

⁸⁸ **amser** Fe'i deallir yn yr ystyr 'tywydd' yn BDe 47, gan ei gymharu â geiriau cytras yn Wyddeleg a Llydaweg, ond ceir ystyr cystal o'i ddeall yn 'adeg (benodol)', 'tymor' neu 'cyfnod' (GPC d.g. *amser* 1(b, c)), sef cyfeiriad at adeg yr haf, pan oedd yr afon yn sych.

§18

⁸⁹ **Gwernin** Sef mynachlog Ferns yn swydd Wexford, a sefydlwyd gan Aeddán yn ôl *Vita S. David* (VSD §36, a gw. n. 65 uchod).

⁹⁰ **pann na** Am *pana*, amrywiad ar *poni* 'oni', gweler GPC d.g. *poni*¹; a chymharer BDe 10.17 *pony*.

⁹¹ **ner ddarvv** Ffurf ar *neur*, sef y geirynnau rhagferfol *neu* + *rhy* (GPC d.g. *neu*² 1(a) a *rhy*² (e); GMW 166–70), gyda'r ferf gynorthwyol *darfu* (*darfod*) (GPC d.g. *darfyddaf: darfod* (b); GMW 145–6).

⁹² **dy gyd-ddisgibl, Esgôdyn** Roedd Scuthyn neu Scuthin yn sant arall o Iwerddon a oedd, fel Aeddán, yn gyn-ddisgybl i Ddewi. Awgrymir hyn gan y cyfeiriad yma at Scuthyn fel [*c*]yd-ddisgibl i Aeddán, ac fe'i cadarnheir gan y cyfeiriad at Ddewi fel *athro* Scuthyn ar ddiwedd yr adran hon (cf. BDe 11.3, 10; VSD §§37–8; a gweler ymhellach Wade-Evans 1923: 103; BDe 48). *Scutinus* yw'r enw a geir yn *Vita S. David* (VSD §§37–8), a *Scuthinus* yn y fuchedd Ladin gryno yn Lincoln 149 (VSDauIDLincoln §§23–4). Fe'i crybwyllir bedair gwaith yn nhestun Pen 27ii, gan ei alw'n *Esgôdyn* (§18), *Ysgvdyn* (§§18, 19) ac *Ysgvdvn* (§19). Mae'r ffurf gyntaf yn cynnwys yr unig achos o'r graffem *ŷ* yn y testun hwn, a hyn yn awgrymu bod y graffem hwn yn cael ei ddefnyddio yn y gysail (cymharer n. 101, ar *wydd*), er ei bod yn bosibl fod yr achos arbennig hwn yn wall neu'n ffrwyth camddehongli o ran ysgrifydd testun Pen 27ii. Enw'r cymeriad hwn yw *Scuthyn*, yn gyson, yn y testunau Cymraeg cynharach (BDe 11.4, 5, 18, 12.3,

4). Tebyg yw ffurfiau Pen 27ii i enw *Yscudyd*, un o ddau was Gwenhwyfar yn ‘Culhwch ac Olwen’, ac mae’n ddiddorol fod y dynion hyn yn negeswyr cyflym iawn hefyd (CO³ llau. 330–1 *kynbebrwydet oet eu traet vrth eu neges ac eu medwl*). Efallai fod ymwybyddiaeth am y cymeriad hwn wedi dylanwadu ar yr enw yn nhestun Pen 27ii (cymharer n. 100, ar *tori yn ddav gelwrn*), ond gall, hefyd, mai dylanwad annibynnol yr ansoddair *esgud* ‘buan’ oedd ar waith. (Ar gysylltiad cynharach yr un gair (*ysgud*) â’r enw yn ‘Culhwch ac Olwen’, gw. CO³ 105, ac, o ran yr enw mewn fersiynau cynharach o fuchedd Dewi, cymharer y ffurfiau llafar *sgut* a *sgyth* a nodir yn GPC d.g. *esgud*.) Noda *Vita S. David* fod gan *Scutinus* enw arall, *Scolanus* (VSD §38); cymharer *Bedd Ysgolan* yn §19, isod (gw. n. 95).

⁹³ **gwneuth** Disgwyliid y berfenw ar ôl *sef a oruc* (GMW 52). Nid yw *gwneuth* ymhlith y ffurfiau ar y berfenw a nodir yn GPC d.g. *gwnaf: gwneuthur, gwneuthud, gwneuthu, gwneud*, nac yn GMW 132, ond cymharer, e.e., ‘Ystoria Judas’ yn Pen 14, 162 (llau. 1–2) *Sef ykauas yny chynghor gwneuth boly kroen*. Trwy chwilio yn rhestr geiriau Rhydd Gym 1300–1425 gellir dod o hyd i nifer o achosion eraill lle’r ymddengys fod *gwneuth* yn ferfenw, mewn gwahanol gyd-destunau gramadegol.

⁹⁴ **anghenvil o’r mor** Gall y gair *anghenfil* ddynodi creadur mawr, yn syml, yn hytrach nag un goruwchnaturiol neu ffyrnig; gweler GPC a chymharer y gair *belua* ‘bwystfil’ yn VSD §37. Am ddulliau rhyfeddol eraill o groesi Môr Iwerddon, gan gynnwys cyfeiriad ym muchedd Aeddan at y sant hwn yn croesi ar gefn ‘anifail mawr’, gweler BDe 48; VSD 133n70, 135nn75–6. Cymharer hefyd VSD §§39–40 lle disgrifir yr Abad Bairre yn croesi ar gefn ceffyl Dewi ac yn cwrdd â Sant Brendan, a hwnnw’n byw ar gefn creadur morol mawr (*super marinum cetum*).

§19

⁹⁵ **Bedd Ysgolan** Enw lle anhysbys, a grybwyllir yn y testunau cynharach hefyd (BDe 11.13 *Bed Yscolan*). Noda *Vita S. David* fod *Scolanus* yn enw arall ar *Scutinus* (VSD §38, a gw. n. 92 uchod, ar *Esgodyn*), ond ni chrybwyllir yr enw lle hwn yno. Awgrymir yn WCD 646 fod Ysgolan yn ddisgybl i Ddewi a uniaethwyd ar gam â Scuthine (neu Scuthin), sant o Iwerddon. Nid yw’n eglur a oes unrhyw berthynas rhwng y ffigur hwn, neu’r enw lle, a’r Ysgolan sy’n gymeriad mewn cerdd ymddiddan yn Llyfr Du Caerfyrddin ac mewn baled o Lydaw (arno, gw. WCD 646–7).

⁹⁶ **y llall** Awgryma’r ffurf unigol *llall* fod un person arall gyda Dewi ac Ysgudyn, er nad oes neb arall wedi ei enwi. Efallai ei fod yn cyfeirio at un o’r brodyr a fu gyda Dewi yn yr eglwys, neu’r un agosaf ymhlith nifer ohonynt; neu gall fod yn wall am y ffurf luosog *lleill*. Mae’r darn cyfatebol ychydig yn wahanol yn y testunau cynharach, fodd bynnag; gweler BDe 11.17–18 *galw a oruc Scuthyn Dewi attaw ar neilltu*.

⁹⁷ **Dvlcon** Mae’r gair wedi ei ruddellu, fel y gwneir yn aml i amlygu enwau priod yn y testun hwn, ond nid yw’n enw personol hysbys. Y tebyg yw ei fod yn llurguniad o’r enw cyffredin *diagon* a geir yn y

testunau cynharach (BDe 12.1 *kyuodi a oruc y diagon*), sef bod hwn wedi ei gamddarllen a'i gamddeall yn enw personol. Yn *Vita S. David* mae'n debyg mai 'gwas (sy'n gweini wrth y bwrdd)' yw ystyr y gair *diaconus*, heb unrhyw awgrym o statws clerigol (gw. VSD 133n71), ond mae'n ansicr sut y'i dehonglwyd gan y cyfieithydd Cymraeg gwreiddiol.

⁹⁸ **sanv arno** Nodir *sannu* yn amrywiad ar *synnu* yn GPC d.g. *synnaf: synnu*; a gweler *ibid.* (a) am yr ystyron 'rhyfeddu, bod yn syn' a 'sefyll mewn braw, brawychu'. Ar y gystrawen *synnu arno*, a'r arddodiad *ar* yn rheoli goddrych rhesymegol y ferf, gweler BDe 48; Parry-Williams 1921–3; Evans 1952–4: 10–11; gwelir achos arall isod, yn yr un adran, *sanv yn vawr arnunt* (cymharer hefyd BMartin n. 74). Yn y testunau cynharach ceir trydydd achos o'r gystrawen hon (BDe 19.15–17 *sef a oruc yr ysgolheigion ... synnyaw arnunt yn vawr*) ond mae'r darlleniad cyfatebol yn Pen 27ii wedi ei ddiweddarau neu ei symleiddio (§25 *sef a wnayth yr ysgolheigion ... sanv yn vawr*).

⁹⁹ **kanys ef a wyddiad y karedd a oydd yn i veddwl** Gellid dehongli hyn i olygu mai cydwybod 'Dulcon' sy'n ei boeni (cf. VSD §38), ond mae'n bosibl hefyd ddeall Ysgudyn yn oddrych y ferf *gwyddiad*; hynny yw, fod 'Dulcon' yn synnu neu wedi dychryn oherwydd iddo sylweddoli bod Ysgudyn yn gwybod am y cynllun i ladd Dewi.

¹⁰⁰ **tori yn ddav gelwrn** Gweler GPC d.g. *celwrn* 'llestr, bwced, twba'. Cyfleir y syniad fod dau hanner y corff yn geugrwm, a cheudod y corff yn weladwy. Ceir ymadroddion tebyg yn fersiwn Llyfr Coch Hergest o chwedl 'Culhwch ac Olwen' (CO³ llau. 1225–7 *Arthur ... a uyrvei y wrach a Charnwennan y gylllell, a'e tharaw am y banner nny uu yn deu gelwrn hi*), mewn dau fersiwn o 'Cronicl Turpin' (Pen 8, rhan i, 41 (llau. 12–13) *trewis ef march y kawr nny vyd yn deu gelwrn*; cf. Pen 10, 28r (llau. 34–5)), ac mewn sawl fersiwn o fuchedd Fargred (Richards 1939: 330.15–16 (testun Llyfr Gwyn Rhydderch) *nny holltes y dreic yn deu gelwrn*; cf. Pen 15, 133 (ll. 23); Cotton Titus D.xxii, 168r (llau. 9–10)).

Ymddengys fod addaswr testun Pen 27ii wedi ystyried y fformiwla llenyddol hwn yn wellhad ar ddarlleniad y fersiynau hŷn o fuchedd Dewi; cymharer BDe 12.12–13 *a thorri y croen y amdanei, a syrthyaw y holl berued y'r llawr* (cf. VSD §38).

Am achos posibl arall o ddylanwad o'r traddodiad rhyddiaith Cymraeg ehangach, gweler n. 92.

Cymharer hefyd y fformiwla cyffredin *mynet dwylaw mynwyl* a geir ym mhob fersiwn o'r fuchedd Gymraeg wrth ddisgrifio Dewi'n croesawu ei gyn-ddisgybl, Scuthyn (BDe 11.14n; Pen 27ii, §19; gw. hefyd GPC d.g. *dwyllo ... myned ddwyllo (ym) munwyl (i)*).

¹⁰¹ **wydd** Mae'n rhaid ei deall yn ffurf ar *oedd*; cymharer BDe 12.15 *oed*. Ni nodir amrywiad tebyg yn GMW 137, GPC d.g. *wyf: bod³* na G 64–5, ond roedd *wy* ac *oe* yn gallu ymglyfnewid (gw. GMW 4); felly, gall fod *wydd* yn ffurf gyfarwydd i'r ysgrifydd. Fodd bynnag, y ffurf arferol ar y gair yn nhestun Pen 27ii yw *oydd*, hyd yn oed mewn darnau a aralleiriwyd, fel yn achos yr ail *oydd* yn y frawddeg hon

(gw. n. 102). Efallai fod yr ysgrifydd wedi camddarllen *o* yn ei gysail yn *o*, a'i diweddarau'n *w*. (Gall sillafiad yr enw personol *Esgŵdyn* yn §18 awgrymu bod y graffem *o* yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn y gysail; gw. n. 92.)

¹⁰² **mewn onen a oydd rrwng y ffreitvr a'r avon** Mae'r disgrifiad hwn o leoliad nyth y frân ychydig yn fyrrach na'r hyn a geir yn y testunau Cymraeg cynharach (am fod diwedd y frawddeg wedi ei gwtogi), ond yn llawer gwell o ran synnwyr. Yn BDe 12.15–16 awgrymir y darlleniad adferedig **y myun onnen y rrwng y ffreitvr a'r auon a oed y tu a'r debeu*, a'r geiriau *y rrwng* wedi eu cyflenwi gan y golygydd gan nodi nad ydynt i'w cael yn yr un o'r llawysgrifau a ddefnyddiodd ar gyfer ei destun cyfansawdd (gw. ymhellach BDe 49; WLSD 52). Nid oes angen diwygio testun Pen 27ii i gael synnwyr, ac mae'n ddiddorol ystyried a allai'r darlleniad hwn fod wedi tarddu o'r gysail Gymraeg wreiddiol (hynny yw, fod y darn wedi ei drosglwyddo'n eithaf ffyddlon, heb wallau, er cael ei gwtogi ychydig). Er bod cynnwys *a oydd* o flaen *rrwng* yn peri bod y frawddeg braidd yn ailadroddus, mae'n adlewyrchu cystrawen y fuchedd Ladin sy'n defnyddio *que erat* i gyflwyno'r cymal am leoliad yr onnen (VSD §38). (Yn wir, mae'n bosibl fod darlleniad gwallus y testunau Cymraeg cynharach yn ffrwyth ymdrech rhyw ysgrifydd cynnar i leihau'r ailadrodd; hynny yw, iddo benderfynu hepgor *a oydd* (neu rywbeth tebyg), am fod y frawddeg yn synhwyrol hebddo, ond iddo hepgor (*y*) *rrwng* hefyd drwy amryfusedd.)

Mae'n bosibl hefyd, fodd bynnag, fod y frawddeg hon yr un mor wallus yng nghysail Pen 27ii ag y mae yn y testunau Cymraeg cynharach sydd wedi goroesi, a bod y tebygrwydd rhwng darlleniad Pen 27ii ac eiddo *Vita S. David* yn ffrwyth ymdrech lwyddiannus rhyw addaswr i gael synnwyr o gysail wallus. Yn wir, mae natur ailadroddus y gystrawen, gan ddefnyddio *a wydd/oydd* deirgwaith yn yr un frawddeg, yn dwyn i gof un o ddarlleniadau unigryw eraill Pen 27ii, lle ceir y geiriau *eghur ac eglured* ddwywaith yr un wrth ddisgrifio Dewi yn pregethu yn synod Brefi (§23, a gw. n. 126).

Yn y fersiwn diweddarach o'r fuchedd yn Llst 34 ni cheir (*y*)*rrwng* yn y darlleniad, ond ymddengys fod yr ysgrifydd Roger Morris, neu ryw addaswr cynharach, wedi ceisio adfer synnwyr (o ryw fath) drwy ychwanegu *yn*, fel bod yr onnen wedi ei lleoli yn y ffreitvr; at hynny, ychwanegodd Morris gywiriad neu ddarlleniad amrywiol sy'n gosod y nyth mewn onnen sydd 'yn y ffreitvr ar du'r De' yn hytrach nag 'yn y ffreitvr ar afon a oedd tua'r De' (Llst 34, 278 (llau. 9–11) *myun onnen yny phreütür ar afon a oed tü ar*^{du y debeü}).

¹⁰³ **trywyr** Sef 'tri o ddynion'; gweler GPC d.g. *trywyr*¹, a gwrthgyferbynnwr BDe 12.23 *twyllwyr*; WLSD 8.8 *twyllur*. Mae *Vita S. David* yn cyfeirio atynt fel 'tri gŵr' yn yr un modd yn y rhan gyfatebol o'r stori (VSD §38 *tribus ... uiris*), ond yn mynd ymlaen i'w galw'n ddynion twyllodrus wrth ddisgrifio'r brodyr yn eu melltithio (ibid. *uiros dolosos*; gthg. BDe 12.24 *y gwyr hynny*, cf. Pen 27ii). Gallai *trywyr* Pen 27ii, felly, fod wedi tarddu o gysail a oedd yn nes at gysail Ladin wreiddiol y fuchedd Gymraeg

na'r un o'r testunau Cymraeg eraill sydd wedi goroesi. Ac eto, y mae'r wybodaeth fod tri gŵr yn y cynllwyn ar gael yn y testunau Cymraeg cynnar, nid yn y rhan hon o'r stori ond yn araith yr angel wrth Aeddan. Mae'n bosibl fod *trywyr* testun Pen 27ii yn adlais o'r cyfeiriad hwnnw, felly (BDe 10.20 *tri o'e dylwyth o'r vanachlawc*; cf. Pen 27ii, §18; gthg. VSD §37 *quibusdam fratribus* 'some of the brethren'). Ar ôl i'r ymgais i wenwyno Dewi fethu, dysgir yn *Vita S. David* mai'r stiward (*economus*), y cogydd (*cocus*) a'r gwas (*diaconus*) a fu'n gyfrifol, ond yr olaf yn unig a grybwyllir yn benodol yn y fersiynau Cymraeg, gan ei alw'n *diagon*, neu *Dulcon* yn Pen 27ii (gw. n. 97). Ar arwyddocâd yr ymgais i wenwyno'r sant, a chyfeiriadau'r beirdd ati, gweler TWS 51–2.

§20

¹⁰⁴ **ynhor** Deellir hyn yn *yn + tor* gyda threigladd trwynol; gweler GPC d.g. *tor*² (c) 'Bron, llethr, ystlys, neu ochr (mynydd, bryn, &c.); glan neu dorlan (afon)', a chymharer y cyfeiriad at fryn yn §23.

Gwrthgyferbynnner BDe 13.4 *yn dor* 'yn nrws'. Nid oes gair sy'n cyfateb i'r naill neu'r llall yn yr adran gyfatebol yn *Vita S. David* (VSD §49). Ymddengys *dor* y testunau cynharach yn chwithig, a'r synod yn cael ei gynnal yn yr awyr agored yn hytrach na mewn adeilad, ond mae'n bosibl fod iddo ystyr ffigurol.

¹⁰⁵ **senedd Vrevi** Mae Brefi yn enw ar nant fechan sy'n llifo i afon Teifi, a dyma'r enw a ddefnyddir fel arfer wrth gyfeirio at leoliad y synod, nid yn unig yn y fersiynau Cymraeg a Lladin o fuchedd Dewi ond hefyd ym muchedd Ladin Cadog (BDe 49; VSD §49; VSB 54). Gelwir y lle'n *Llanddewivrefi* yn BDe 17.23–4 ar ôl disgrifio'r ddaear yn codi o dan draed Dewi wrth iddo bregethu, ac yn VSD §52 nodir bod eglwys wedi ei hadeiladu ar y bryn hwnnw, ond nid yw'r rhan hon o'r stori wedi ei chynnwys yn nhestun Pen 27ii (§23, a gw. n. 127). Llanddewibrefi oedd canolfan ail bwysicaf cwlt Dewi, ar ôl Tyddewi (James 2007: 77–9), ac adlewyrchir hyn yn y ffaith fod Gwynfardd Brycheiniog yn cyfarch Dewi, yn ei gerdd iddo, fel *Dewi mawr Mynyw ... / A Dewi Brefi* (DewiGB llau. 85–6, a gw. ymhellach DewiGB: Rhagymadrodd).

¹⁰⁶ **dysgwyr** Sef 'athrawon'; nid oes tystiolaeth am y gair *dysgwr* yn yr ystyr 'un sy'n derbyn dysg' cyn y ddeunawfed ganrif yn ôl GPC. Ni chyfeirir at *[d]dysgwyr* yn y rhan hon o stori Dewi yn y testunau Cymraeg cynharach (BDe 13.5–7), ac nid oes gair cyfatebol yn *Vita S. David* (VSD §49).

¹⁰⁷ **Pawlus Sant** Hen athro Dewi oedd Paulus neu Paulinus (gw. §10 a n. 39), fel y noda Paulinus ei hun yn nes ymlaen yn yr adran gyfatebol yn y testunau cynharach, ond hepgorwyd yr atgoffâd defnyddiol hwn o fersiwn Pen 27ii (BDe 14.7–8 *ef a dysgawd y gennyf inneu yr Ysgruthyr Lan*; Pen 27ii, §20 *ef a ddysgodd yr ysg[r]vthr*).

¹⁰⁸ **ac yn Rrvvain ir vrddwyd yn archesgob** Roedd statws Dewi yn archesgob yn bwysig fel sail i awdurdod eglwys Tyddewi ac i'w hawliau dros annibyniaeth ar Gaer-gaint (gw. y [Rhagymadrodd](#) a BDe xxiii–xxv). Yn *Vita S. David* honnir bod Dewi wedi ei urddo yng Nghaersalem ar ôl iddo deithio yno

gyda Theilo a Phadarn (VSD §44–6), ond mae'r fersiwn cryno o'r fuchedd Ladin yn Lincoln 149 yn cytuno â'r fersiynau Cymraeg mai yn Rhufain y'i hurddwyd (VSDauidLincoln §30 *At deinde Romam pergens ibi archiepiscopus ordinatus est* 'And then he went to Rome and was ordained as archbishop'; gw. hefyd BDe 50). Cyfeirir at Ddewi'n mynd i Rufain yng ngherddi Gwynfardd Brycheiniog ac Ieuan ap Rhydderch (DewiGB ll. 21; DewiIRh llau. 43–6).

¹⁰⁹ **Demetica** Sef Dyfed, un o hen daleithiau Cymru ac ynddi saith cantref (neu naw, yn wreiddiol) gan gynnwys Pebidiog, lle roedd Tyddewi (WATU 62). Cymharer §15 *awn i Ddyved*, a gweler n. 76.

¹¹⁰ **Mynyw yn y deav** Dengys yr ymadrodd *yn y deav* mai Tyddewi a olygir yn hytrach na'r *Mynyw* arall sy'n gysylltiedig â Dewi, sef Hen Fynyw yng Ngheredigion (gw. n. 36, ar *Uetus Rubus*, §9; BDe 50–1).

§21

¹¹¹ **Dinas Rvbi** Enw arall am Fynyw (Tyddewi), a geir yn §24 hefyd; gweler BDe 50–1.

¹¹² **cydyhvndeb** Sef *cyd-ddyundeb* 'cytundeb', a'r *h* yn cael ei defnyddio i wahanu'r ddwy lafariad; cymharer §23 *adde yn ddyhvn*, a'r gair olaf yn ffurf ar *dyun* 'cytûn' (gw. GPC d.g. *cyd-ddyundeb* a *dyun*, *duun*). Gwrthgyferbynnir WLSD 9.14 [*c*]yduundeb, 11.6 *adef yn dubun*; BDe 14.22 [*c*]ytuundeb, 18.2 *adef yn gyfun*.

¹¹³ **yr anvonasant yn ganadav benaf a oydd yno** Ymddengys mai [*p*]enafyw gwrthrych y ferf *anvonasant*, oherwydd y treigladd meddal. Deellir bod iddo rym enwol, felly, a'i fod yn cynrychioli Beuno a Dyfrig. Mae synnwyr y darlleniad hwn wedi dioddef ychydig, o bosibl, wrth iddo gael ei gwtogi; cymharer BDe 14.22–3 *yd anuonet att Dewi yn gennadeu y deu sant bennaf a oed yno*.

¹¹⁴ **Bevno** Yn ôl ei fuchedd ei hun, treuliodd Beuno Sant amser yng Ngwent, Powys, Arfon a Môn, ond Clynnog Fawr (yn Arfon) oedd ei brif ganolfan; roedd yn ewythr i'r Santes Gwenfrewy, a hithau'n un o chwech neu saith o bobl y dywedir iddo eu hatgyfodi o blith y meirw (WCD 42–4; TWS 74–88; a gw. y testun a'r rhagymadrodd yn Sims-Williams 2018). Mae'n ddiddorol mai at Feuno y cyfeirir yn y rhan hon o'r stori yn fersiwn Pen 27ii o fuchedd Dewi, oherwydd nid ef ond yn hytrach Deiniol, nawddsant Bangor, sy'n gydymaith i Ddyfrig yn y testunau Cymraeg cymharach ac yn *Vita S. David* (BDe 15.1; VSD §50). Efallai fod rôl Beuno yn nhestun Pen 27ii yn adlewyrchu ei statws amlycach fel sant pwysicaf gogledd Cymru (Sims-Williams 2018: 5); gall fod yn arwyddocaol hefyd fod gan Feuno rôl sylweddol ym muchedd Gwenfrewy, a bod y testun hwnnw'n un o'r ddwy fuchedd arall a geir yn llawysgrif Pen 27ii (gw. BGwenfrewy: Rhagymadrodd; Cartwright 2022)).

¹¹⁵ **Dubricus** Mae Dubricius neu Ddyfrig yn sant a gysylltir â de-ddwyrain Cymru ac yn enwedig ag Erging (gw. n. 54). Mae tri fersiwn o'i fuchedd wedi goroesi, a'r cynharaf yn Llyfr Llandaf, ac fe'i crybwyllir ym mucheddau Samson, Illtud, Gwynllyw a Leonorius. Mewn llythyr a ysgrifennwyd at y

Pab Honorius II rhwng 1124 a 1130, honnodd claswyr Tyddewi mai ef a urddodd Ddewi yn archesgob, a'i fod wedi ei ragflaenu yn y swydd honno. (Gw. BDe 52; WLSD 57; WCD 215–17; Sharpe 2007: 101–2.)

¹¹⁶ **hayddv** Yr ystyr yma yw 'tynnu am ei ben' yn hytrach na 'bod yn deilwng o', mae'n debyg; gweler BDe 53–4; GPC d.g. *baeddaf: baeddu*.

§22

¹¹⁷ **kychwyn a wnaythant, Dewi a'r kynadav** Hyd yn oed erbyn y cyfnod Cymraeg Canol, peth anghyffredin oedd defnyddio berf trydydd lluosog o flaen goddrych lluosog, os oedd enw(au), yn hytrach na rhagenw personol, yn cynrychioli'r goddrych hwnnw (GMW 179). Disgwylid ffurf unigol ar y ferf, a dyna a geir mewn achosion eraill tebyg yn nhestun Pen 27ii, e.e. §14 *Kwynaw ac vdaw a gridvan a wnayth Boya a'i wraic a'i dylwyth*; *ibid. ymchwelvd adref a orvc Boya a'i dylwyth*; §25 *Sef a wnayth yr ysgolbeigion ... sanv yn vawr*. Yn y testun golygedig, felly, rhoddwyd yr ymadrodd *Dewi a'r kynadav* rhwng comas i awgrymu ei fod yn esbonio pwy a olygir, yn hytrach na bod yn oddrych uniongyrchol y ferf. Y tebyg yw bod darlleniad y gynsail yn gyffelyb i eiddo BDe 15.23–4, *kyuot a oruc Dewi y gyt a'r kennadeu*. Efallai fod ysgrifydd fersiwn Pen 27ii, wrth geisio crynhoi ei destun, wedi ysgrifennu *kychwyn a wnaythant* gyda'r bwriad o hepgor y cyfeiriad penodol at Ddewi a'r negeswyr, a phenderfynu wedyn fod ei angen wedi'r cwbl, ond heb gofio bod angen newid terfyniad y ferf.

¹¹⁸ **i hvn mab** Sef 'ei hunig fab'. Magnus yw enw'r mab yn *Vita S. David* (VSD §51), a Magna yng ngherddi Gwynfardd Brycheiniog ac Ieuan ap Rhydderch (DewiGB llau. 124–5; DewiIRh llau. 75–8; gw. ymhellach Lewis 2018; Parry Owen 2022: 281). Mae'r wyrth hon fel pe bai'n adlais o wyrth yr Iesu yn Nain, pan atgyfododd Ef unig fab gwraig weddw (Luc 7.11–15).

¹¹⁹ **wedi i varw** Sef, 'wedi ei farwolaeth'. Mae *marw* yn enw yma; gwthgyferbynnir ei ddefnydd yn ansoddair yn BDe 16.6, *yn uarw*.

¹²⁰ **wrth enav y korff (y mab)** Ni ddylid cael y fannod ddwywaith mewn ymadrodd genidol o'r fath; disgwylid *wrth enav korff y mab*. Os oedd darlleniad y gynsail yn debyg i eiddo J 119, *wrth eneu y mab* (WLSD 10.8), gallai ysgrifydd testun Pen 27ii fod wedi ysgrifennu *y korff* drwy amryfusedd, ac yntau eisoes wedi defnyddio'r gair yn gynharach yn y frawddeg, a chopio *y mab* o'r gynsail wedyn heb gywiro'r gwall yn y gystrawen. Fodd bynnag, yn hytrach na diwygio'r testun golygedig ychwanegwyd cromfachau, am y gellid deall *y mab* yn eglurhad ar ystyr *y korff* (cymharer n. ix (nodyn testunol, ar *dros i ffenn, y lleian*), a n. 117). Mae'n werth nodi na cheir yr ymadrodd hwn yn Llst 27 nac yn Cotton Titus D.xxii (nac yn Llst 34); gweler yr adran am gynsail fersiwn Pen 27ii yn y drafodaeth ar y [Llawysgrifau](#).

¹²¹ **yno** Gall fod yn ffurf lafar ar *ynddo*; gweler yr amrywiadau a nodir yn GPC d.g. *yn*¹. Posibilrwydd arall yw ei deall yn llithriad wrth ysgrifennu neu'n dalfyriad bwriadol; cymharer n. xxix (nodyn testunol, ar *ken[ad]av*).

¹²² **dyrcha i hwn mab a'i enaid yno** Mae'r darlleniad hwn yn unigryw ymhlith y testunau Cymraeg. Gall fod darlleniad y cyfieithiad Cymraeg gwreiddiol yn debyg i'r darlleniad diwygiedig a awgrymir yn WLSD 10.12, *dyro yn y hun mab y eneit dracheuen* (cf. VSD §51 *da uitam unico filio suo, atque inspira in eo spiraculum uitę* 'give life to her only son, and inspire in him the breath of life'; cymharer hefyd weddi Beuno yn BGwenfrewy, Pen 27ii, 99 (ll. 15) *dyro i benaid ynddi drachefn*). Ymddengys darlleniad y testun a olygir yn WLSD, sef testun J 119, yn llygredig, oherwydd ceir yno *yny eneit* ('yn ei enaid') yn hytrach nag *y eneit* (f. 100r (llau. 24–5) *dyro yn yhun mab yny eneit dracheuen*; tebyg yw darlleniad Pen 15, 21 (llau. 31–2), gyda *hwn* yn lle *hun*; gw. ymhellach WLSD 59). Ymddengys darlleniad Llst 27 yn wallus hefyd, er bod ychwanegiad y gair *[b]yŷ* yn peri bod yr ystyr yn amlycach (f. 68v (llau. 11–12) *dyro ynyyŷ yhun mab yny eneit drachevyn*; tebyg yw darlleniad Cotton Titus D.xxii, er ychwanegu *idi* ar ôl *dyro* (f. 149v (ll. 13–14); dyfynnir o Roberts et al 2015). Gellir gweld ffrwyth aralleirio pellach yn narlleniad y fersiwn diweddarach o'r fuchedd yn Llst 34, *dyro idi y hiin mab^{yn vyyu} drachefen* (td. 282 (ll. 7)). Mae'n bosibl fod y darlleniad yn Pen 27ii hefyd yn ffrwyth ymdrech i wella cynsail wallus, ond mae'n ddiddorol ystyried a allai fod wedi tarddu o gynsail nad oedd yn cynnwys y gwall hwn am ei bod yn nes at y cyfieithiad gwreiddiol. Y tebyg yw, fodd bynnag, fod y cyfieithiad gwreiddiol yn cynnwys y ferf *dyro* yn hytrach na *dyrcha*, am fod ystyr y ferf gyntaf yn nes at ystyr y ferf Ladin *da* a geir yn *Vita S. David* (LD s.v. *do* 'to hand over, deliver').

¹²³ **mawlhayr** Fe'i deallir yn ffurf amhersonol presennol dibynnol (*mawlhaer*); cymharer *mawrhaer* yn y testunau cynharach (BDe 16.15). Efallai mai trwy amryfusedd y ceid ffurf ar *mawlhau* yn hytrach na *mawrbau* yn Pen 27ii; fodd bynnag, mae ystyron y ddwy ferf yn debyg iawn (gw. GPC d.g. *mawlbaf*: *mawlhau* 'moli, clodfori, mawrygu', a *mawrbaf*: *mawrbau* 'gwneud yn fawr o berson neu beth, mawrygu ... moli').

¹²⁴ **a ffann ddarvv iddo i weddi** O ran y gystrawen, cymharer PKM 11.16 *A phan daruu udunt y bwyd*.

§23

¹²⁵ **megis llef groyw eglvr** Yr ystyr, mae'n debyg, yw bod pregeth Dewi yr un mor glywadwy â phe bai'n gweiddi, heb fod angen iddo godi ei lais; cymharer BDe 17.14 *llef corn eglur*, a DewiIRh llau. 87–8, *Clywad ef, clau wawd ofeg, / Mal cloch yn Llandudoch deg* (gw. ymhellach TWS 55).

¹²⁶ **i'r pella kyn eglvred ac i'r nesa, kyn eglured ac i byddai yr havl eglur haner dydd** Mae'r defnydd ailadroddus o *eglur(ed)* yn wahanol i'r hyn a geir yn y testunau cynharach: *y'r pellaf yn gyn egluret ac y'r*

nessaf, ac yn gynn gyffredinet ac y bydei yr heul y bawp pan vei banner dyd (BDe 17.15–16). Mae'n bosibl fod yr ysgrifydd yn ceisio gwneud yr ystyr yn amlycach, drwy aralleirio yma.

¹²⁷ **a moli hynny a wnayth pawb, ac yn gytn moli Dewi Sant** Ymateb gwahanol i araith eglur Dewi a ddisgrifir yn y testunau cynharach, sef *A hynny a vu ryued gan bawb* (BDe 17.17), ac eir ymlaen i ddisgrifio'r ddaear yn codi dan draed Dewi. Ceir wedyn ymateb arall gan y gynulleidfa, *Ac yna yn gyttuun y rynthunt ebunein, moli Dewi Sant a orugant* (BDe 18.1–2). Yn y testunau cynharach, felly, mae dau beth sy'n achosi rhyfeddod neu foliant, ond un yn unig a ddisgrifir yn Pen 27ii. Mae ymateb y gynulleidfa i'r achos cyntaf (a'r unig achos) yn nhestun Pen 27ii yn eithaf tebyg i'r ymateb i'r ail yn y testunau cynharach. Gallai hyn awgrymu bod llygaid ysgrifydd wedi neidio o'r naill ymateb i'r llall wrth iddo gopïo neu addasu ei gynsail, a hynny o bosibl yn esbonio pam na ddisgrifir y ddaear yn codi yn y fersiwn hwn o'r fuchedd. Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r geiriad yn hollol yr un fath, ni allai hyn fod wedi digwydd yn gwbl anymwybodol.

Posibilrwydd arall yw bod y disgrifiad o'r wyrth hon yn absennol o destun Pen 27ii am ei fod yn absennol o'r gynsail, neu'n annarllenadwy yno, neu'n anodd ei ddeall oherwydd gwallau. Mae'n ddiddorol yn y cyd-destun hwn fod y ddau gyfeiriad at y bryn yn llwgr yn Pen 15 (td. 22 (ll. 3) *dyrchavel obonaw yben bren vchel*, (llau. 6–7) *agorthot aorvc ef ysgynnv ybenn ybrem*); yn wir, mae'r ail yn llwgr yn Pen 27ii hefyd (*A gwrthod a orvc ysgyn i benn y b[r]ynn* (llsgr. *byn*)). Posibilrwydd arall eto yw bod yr ysgrifydd yn ystyried bod y rhan hon o'r fuchedd yn ddryslyd am ei bod yn sôn am fryn a fodolai'n barod, lle roedd pobl yn arfer pregethu, cyn crybwyll y bryn a gododd yn wyrthiol; gwrthgyferbynnner VSD §52, lle gofynnir i Ddewi ddringo pentwr o ddillad yn hytrach na bryn (er ei bod yn ymddangos bod y pentwr neu'r 'tŵr' hwn ar dir uchel, yn ôl VSD §49, nid yw hyn yn amlwg yn yr adran sy'n adrodd hanes y wyrth). Gellid hefyd ystyried a hepgorwyd y wyrth hon am ryw reswm arall a ymwnâi, o bosibl, â statws seintiau'n gyffredinol neu Ddewi'n benodol (gw. y drafodaeth yn y [Rhagymadrodd](#)).

¹²⁸ **Mathav** Sef Sant Mathew, yr Apostol a'r Efengelydd (gw. BMathew: Rhagymadrodd).

¹²⁹ **Lvwkas** Sef Sant Luc, yr Apostol a'r Efengelydd (gw. BLuc: Rhagymadrodd).

¹³⁰ **Pedr** Sef Sant Pedr, un o'r Apostolion (gw. BPedr: Rhagymadrodd). Ar ddefnydd *ffi* gynrychioli *p* gyda threigladd llaes, gweler n. v (testunol).

¹³¹ **Marthin** Sef St Martin o Tours, Gâl; gweler BMartin: Rhagymadrodd.

¹³² **Samson** Sef Samson Sant, a fu'n esgob Dol, yn Llydaw (WCD 575–8; TWS 115–20).

¹³³ **Ac ef a'i hayddodd ar y dydd hwnw.** Gallai'r ferf yma olygu naill ai 'cyrraedd, ennill' neu 'teilyngu'; gweler GPC d.g. *haeddaf: haeddu*, a chymharer yr ystyr 'tynnu am ei ben' a geir yn §21, *oni myny hayddu i hymellidith*. Nid yw'r geiriau *ar y dydd hwnw* yn rhan o'r frawddeg gyfatebol yn y testunau cynharach

(BDe 18.17), a gallent fod yn ffrwyth camddehongli geiriau agoriadol adran nesaf y fuchedd, sef *a'r dydd hwnw*. Fodd bynnag, mae'r ychwanegiad hwn yn ddigon ystyrllon, ac aeth yr ysgrifydd ymlaen i ysgrifennu'r geiriau *a'r dydd hwnw* yn eu priod le ar ddechrau'r adran nesaf.

§24

¹³⁴ **i bob rrvw ddyd o'r a wnelai drwc, ar a ovyndir Dewi** Ar y gystrawen, gweler GMW 70–1; GPC d.g. *ar²*; a chymharer *pawb ar a vo* (isod, yn y frawddeg nesaf ond un) a §12 *ar a vo ffyddllawn, ar a gladder*.

¹³⁵ **o Ddyvi** Ymddengys fod yma gyfeiriad at afon Dyfi, sy'n tarddu ger Aran Fawddwy ac yn llifo i'r môr yn Aberdyfi, ond pe bai ardal nawdd Dewi yn estyn o'r afon hon hyd afon Teifi (gw. n. 136), byddai hyn yn golygu ei bod ymhell i'r gogledd o Dyddewi. Mae'n debyg mai at afon Tywi y cyfeirir yn y testunau cynharach, a'r afon honno'n tarddu yng Ngheredigion ac yn llifo i'r môr ger castell Llansteffan yn sir Gaerfyrddin (BDe 55; WLSD 61; cymharer hefyd gyfeiriad Gwynfardd Brycheiniog at afon Tywi yn ei ddisgrifiad manylach o hyd a lled noddfa Dewi (DewiGB ll. 145n; Parry Owen 2022: 282–3)). Gall darlenniad testun Pen 27ii fod yn ffrwyth dryswch neu anghysonder orgraffyddol mewn rhyw gysail: yn nhestun J 119 ceir *o Dyfi*, ac *f* fel arfer yn cynrychioli'r sain 'f' yn y testun hwn; ac yn Llst 27 ceir *o Dyui*, ac *u* fel arfer yn cynrychioli 'f' neu 'u' (WLSD 11.23 (cf. Pen 15)); BDe 19.22 (cf. Cotton Titus D.xxii)). Os oedd darlenniad cysail testun Pen 27ii yn debyg i un o'r rhain, mae'n hawdd gweld sut y gallai'r ysgrifydd fod wedi tybio mai Dyfi a olygid, a mynd ati i 'gywiro' yr ymadrodd drwy ychwanegu'r treigladd sydd ei angen ar ôl yr arddodiad *o*.

¹³⁶ **Teivi** Tardda afon Teifi yng ngogledd Ceredigion gan lifo i'r môr yn Aberteifi. Mae'n cynrychioli ffin ogleddol noddfa Dewi, ac afon Tywi'n cynrychioli'r ffin ddwyreiniol.

¹³⁷ **na** Ar *na* fel cysylltair ('neu'), gweler GPC d.g. *na⁴* 1(a).

§25

¹³⁸ **gwasnaythv** O bosibl yn yr ystyr penodol 'arwain a chyflwyno addoliad i Dduw' neu 'addoli'; gweler GPC d.g. *gwasanaethu, gwasnaethu* 1(b); cf. VSD §59 *fratribus matutinas horas celebrantibus* 'as the brethren were celebrating Matins'.

¹³⁹ **pan i mynych** Mae'r *i* yn cynrychioli'r rhagenw mewnol *y*, gwrthrych y ferf; gweler BDe 53, 55.

¹⁴⁰ **dyrchavayl i ben a'i wyneb i vyny** Gwrthgyferbynnir BDe 19.13–14 *dyrchafel y wyneb y vyny*. Mae'n anodd gweld rheswm am gael [*p*]en yn ogystal ag *wyneb* yma, oni bai fod yr ysgrifydd wedi crwydro oddi wrth ei gysail wrth ysgrifennu hyn, a phenderfynu cynnwys darlenniad y gysail yn ogystal; cymharer n. ix (testunol), ar *dros i ffenn, y lleian*.

¹⁴¹ **Davydd Sant, ymba[r]ota erbyn y dydd kynta o vis Mowrth; ef a ddaw Crist dy arglwydd di o'r nef** Gwrthgyferbynnner BDe 19.23–20.1 *Dauyd Sant, ymbaratoa, y dyd kyntaf o Vawrth ef a daw dy Arglwyd di, Iessu Grist*. Efallai fod ysgrifydd testun Pen 27ii wedi ychwanegu'r gair *erbyn* am iddo weld eisiau rhyw air i gysylltu *ymba[r]ota/ymbaratoa* â'r ymadrodd sy'n dilyn (mae GPC d.g. *erbyn* (b) yn nodi achos arall o'r ymadrodd *ymbaratoa erbyn*, o c.1400). Mae testun golygedig Pen 27ii wedi ei atalnodi yn ôl y rhagdybiaeth hon, ond posibilrwydd arall fyddai defnyddio atalnodi tebyg i eiddo BDe, fel bod *erbyn* yn cyflwyno cymal ar wahân a bod iddo ystyr sy'n ymwneud ag amser yn unig: *Davydd Sant, ymba[r]ota; erbyn y dydd kynta o vis Mowrth ef a ddaw Crist dy arglwydd di o'r nef*.

¹⁴² **naw radd nef** Gweler GPC d.g. *nawradd*. Rhestrir naw gradd yr angylion yn y testun 'Ymborth yr Enaid', y ceir y copi cynharaf ohono yn J 119 (Daniel 1995: 27.5–8 *Naw rad ... o'r egyptynn, nyt amgen: englyon, archeblyon, kadeiryev, arglwydiaetheu, tywysogaetheu, medyannev, nerthoed, cherubin a seraphin*). Er iddynt oll gael eu crybwyll yn y Beibl, ceir y dosbarthiad yn naw gradd am y tro cyntaf yng ngwaith y 'Pseudo-Dionysius', c.500; gweler ODCC 62–3; GLIF 28.

¹⁴³ **Xved ran y ddayar** Defnyddir y rhifolyn Rhufeinig *X* i gynrychioli'r elfen *deg* (*dec*); cymharer BDe 20.2 *decuet y daear*. Y 'ddegfed ran' hon yw dynolryw, a ymunai â naw gradd yr angylion i foli Duw, yn ôl diwinyddion canoloesol (Hamilton 1986: 95).

¹⁴⁴ **servbin** Cynhwysid y cerubin fel arfer yn un o naw gradd yr angylion; gweler n. 142; Daniel 1995: 27.8, 28.51–6; a hefyd GPC d.g. *cerub*, lle nodir y gall *cerubin* fod naill ai'n enw unigol neu'n enw lluosog. Yn nhestun Pen 27ii, ymddengys fod *servbin* yn oddrych y ferf [g]eiliw (gthg. BDe 20.1–3, lle ceir Crist yn oddrych y ferf), a bod y gair, felly, yn enw unigol, am fod rhif yr enw a'r ferf yn cytuno fel arfer pan ddaw'r goddrych o flaen y ferf; gweler GMW 180, a chymharer uchod §11 *Dav sant ... a ymroddasant*; §14 *Yn bigelydd ni a ddywedasant*; §20 *holl lavrwyr yr ynys a ddoythant*. Ni chrybwyllir cerubin (unigol neu lluosog) yn y frawddeg gyfatebol yn y testunau cynharach, ac nid oes unrhyw sôn pellach, penodol am gerubin yn nhestun Pen 27ii ei hun. Mae ei ddisgrifiad o ymadawiad Dewi yn debyg i eiddo'r testunau cynharach, gan gyfeirio'n gyntaf at *lu o yngylion* yn ymddangos, ac wedyn yr *Arglwydd Iesu Grist a naw radd nef*, ac enaid Dewi'n cael ei hebrwng i'r nefoedd gan yr Iesu ei hun (Pen 27ii, §28; BDe 22.8–15). Mae'n bosibl fod y geiriau *a servbin* yn llurguniad o'r ymadrodd *y'th erbyn a geir yn y man cyfatebol yn nhestun J 119* (WLS 12.16; cf. Pen 15, 23 (ll. 14); gthg. BDe 20.2 *y'th erbyn di* (Llst 27/Cotton Titus D.xxii)).

¹⁴⁵ **yr ysgolheigion a llyc** Deallir *llyc* yn ansoddair ac iddo rym enwol a lluosog, gan gynrychioli pobl leyg (hynny yw, rhai heb addysg arbenigol), am ei fod yn cael ei wrthgyferbynnu yn y testun â'r enw lluosog *ysgolheigion*. Ceir enwau unigol yng ngweddill y rhestr sy'n dilyn, fodd bynnag, a rhai unigol a welir o'r cychwyn yn y testunau cynharach (BDe 20.3–5 *o ysgolheyc a llyc*). Efallai fod yr ysgrifydd wedi

crwydro oddi wrth ei gysail wrth ysgrifennu *ysgolheigion* a dychwelyd ati wrth i'r rhestr fynd yn ei blaen, heb drafferthu mynd yn ôl i newid y gair lluosog cyntaf.

¹⁴⁶ **ac ni chyvedliwir vddvnt ev pechodav** Ni cheir y geiriau hyn yn y testunau cynharach nac yn Llst 34 (ar eu harwyddocâd, gw. y [Rhagymadrodd](#)).

¹⁴⁷ **kymin hvn** Pen 27ii *kyminhvn*; cymharer J 119 *kymein hun* (WLSd 12.20; cf. Pen 15, 23 (ll. 17)) a gwrthgyferbynnir Llst 27 *kymeint un*, Cotton Titus D.xxii *kymeint yr vn* (BDe 20.7). Ar *kymein hun*, ffurf lafar, gweler WLSd 62, ac ar *cymín* fel amrywiad ar *cymain(t)*, gweler GPC d.g. *cymaint*.

¹⁴⁸ **a ffa beth bynnac a welsoch nev a glwsoch genyf i, kedwch a gorffennwch** Gwrthgyferbynnir BDe 20.12–13 *a pha beth bynnac a welsawch ac a glywsawch y gennyf i, ketwch ef a gorffennwch beth mwy*. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, na chrybwyllir 'rhywbeth mwy' yn yr adran gyfatebol yn *Vita S. David* (VSD §60) nac yn y fersiwn cryno yn Lincoln 149 (VSDauidLincoln §37).

§26

¹⁴⁹ **yn yr wythved nos nesaf a ddaw** Gwrthgyferbynnir BDe 20.18–19 *yn yr wythnos nessaf yssyd yn dyuot*. Efallai fod yr ysgrifydd wedi crwydro oddi wrth ei gysail ac ysgrifennu *wythved nos* yn hytrach nag *wythnos* am ei fod newydd ysgrifennu *yr wythved dydd*, ar ddechrau'r adran hon. Mae'r newid hwn yn achosi anghysondeb, am ei fod yn awgrymu y bu farw Dewi yn ystod y nos Fawrth ddilynol, yn hytrach nag yn y bore fel yr awgrymir yn nes ymlaen yn y fuchedd (§28 *ynghylch kanv y keilioc ac awr voreddydd*).

¹⁵⁰ **kyvred** Yn llythrennol, 'cydrediad' (o *cyf-* + *rbed*). Un achos yn unig o'r gair hwn fel enw, ac eithrio cyfeiriadau mewn geiriaduron, a nodir yn GPC d.g. *cyfred*, ac mae hwn mewn cerdd gan Ddafydd ap Gwilym, 'Dychan i Rys Meigen'. Yma, mae *cyfred* yn dynodi ymryson rhedeg fel trosiad am ymryson barddol neu gynnen yn fwy cyffredinol; gweler DG.net 31.23–4 *Cyfred aml, cyfryw dimai / Cyfrif ef bob cyfryw fai*, a'r nodyn esboniadol, *ibid*. Testun Pen 27ii yw'r unig fersiwn o fuchedd Dewi sy'n defnyddio'r enw hwn; yn y testunau cynharach ceir berfenw sy'n perthyn iddo (gyda *gan* i gyflwyno'r goddrych), sef *kyfredec*, neu *ymgyfredec* yn Cotton Titus D.xxii (BDe 20.20); gweler GPC d.g. *cyfredeg* 'Cydredeg â ... ymgynnull'. Gyda golwg ar y diffiniad hwn, gellid awgrymu rhywbeth fel 'ymgynulliad cyflym' ar gyfer *cyfred* yn Pen 27ii.

§27

¹⁵¹ **Ni chlowsai neb y rrvw bregeth irioyd yn y dynnas honn, na chimin o bobl yn yr vn lle.** Mae'r cyfeiriad at glywed y bobl, yn hytrach na'u gweld, yn chwithig; er bod ystyron *clywed* yn eang, fel y gall fod yn gyfystyr â *teimlo* neu *arogleuo* (cf. §25 *i klowsant lef ddiddan ac arogle tec*), ni all fod yn gyfystyr â *gwel(e)d* (gw. GPC). Ymddengys fod darlleniad hwy yn y gysail wedi ei grynhai, ond nid yn

llwyddiannus iawn; cymharer BDe 21.12–14 *A'e gyfryw kyn noc ef ny chlywspwyt, a gwedy ef byth ny chlywir. Nys gweles dyn eiryoet y sawl dynyon yn un lle.* Mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, nad oes dim sy'n cyfateb i'r geiriau *yn y dyrnas bonn* yn y testunau eraill. Efallai i'r ymadrodd hwn gael ei ychwanegu er mwyn osgoi rhoi'r argraff fod y fuchedd yn honni bod pregeth Dewi yn well na phregethau'r Iesu (cymharer VSD §62 *nobilissimam ... predicationem* 'a most excellent sermon').

¹⁵² **ac ar yr efferen** Am *ar* yn 'cyflwyno ymadrodd(ion) adferfol amser', gweler GPC d.g. *ar*¹ 9(d) (a chymharer *ar hynny* ar ddechrau §27). Fodd bynnag, gall fod hwn yn wall am *ar ôl*; cymharer BDe 21.14 *A gwedy daruot y bregeth a'r offeren.*

¹⁵³ **a glowsoch** Gwrthgyferbynnner BDe 21.18–19 *a glywsawch ac a welsawch.*

¹⁵⁴ **A minav a gredaf i'r ffordd i kredodd yn tadav ni.** Gwrthgyferbynnner BDe 21.19–20 *A minneu a gerdaf y fford yd aeth yn tadeu ni idi; VSD §62 patrum uiam ingrediar* 'I shall enter the way of the fathers'. Ymddengys fod yr ysgrifydd wedi cymysgu dwy ferf wahanol, *credu* a *cerdded*. Ac eto, a chymryd bod darlleniad ei gysail yn debyg i eiddo BDe, ni allasai hwn fod yn wall copïo syml, oherwydd newidiodd ef *aeth* yn *kredodd* hefyd. Efallai fod y ferf *kredaf* wedi ymddangos yn nhestun Pen 27ii o ganlyniad i bresenoldeb llafariad ymwithiol ar ôl yr *r* yn y gair cyfatebol mewn rhyw gysail. Gallai hyn, ynghyd â'r ffaith fod *d* yn cynrychioli'r sain 'dd' yn aml yn orgraff y bedwaredd ganrif ar ddeg, fod wedi achosi i ryw ffurf megis **kerydaf* (gan gynrychioli *cerddaf*) gael ei hailddechongli'n *kredaf* (cymharer y ffurfiau *kerydynt* a *kerydaŵd* a drafodir yn Sims-Williams 2017: ii, 90–4).

¹⁵⁵ **a bid grymvs i chwi vod ar y ddayar** Gwrthgyferbynnner BDe 21.21–2 *A phoet grymmus ywch vot ar y daear, a byth bellach nyt ymwelwn ni.* Os oedd darlleniad cysail testun Pen 27ii yn debyg, gallai'r ysgrifydd fod wedi hepgor y cymal olaf oherwydd ystyried ei fod yn amhriodol, am fod Dewi a'i ddilynwyr yn siŵr o weld ei gilydd eto yn y nefoedd. Posibilrwydd arall, fodd bynnag, yw bod y darn hwn wedi ei hepgor er mwyn cwtdogi'r testun, yn unig. Dylid nodi nad oes unrhyw chwithigrwydd cyfatebol yn nhestun Cotton Titus D.xxii, oherwydd dywedir yno na chwrdent eto 'yn y byd hwn' (f. 154r (llau. 8–10) *A phoet grymus vo ywch vot ar y daear. ac vyth bellach nyt ymwelwn ni yn y byt hwn* (dyfynnir o Roberts et al 2015); cf. Llst 34, 287 (llau. 20–1)). Mae'n bosibl mai darlleniad tebyg oedd yn y cyfieithiad gwreiddiol; cymharer VSD §62 *In hac terra nunquam nos amplius uisuri sumus* 'we shall not see each other any more in this world'.

¹⁵⁶ **klwyd** Fe'i deallir yn gywasgiad o ryw ffurf amhersonol gorffennol ar *clywed*; cymharer y ffurfiau *clywyspwyt*, *clywspwyt* a *clywyt* a nodir yn GMW 126. Ffurf amhersonol amherffaith ar yr un ferf, *clywit*, a geir yma yn y testunau cynharach (BDe 22.1), ond gwelir y ffurf *[c]lywspwyt* yn eu disgrifiad o bregeth olaf Dewi (BDe 21.12 (J 119 *clywysbwyt*)).

§28

¹⁵⁷ **dduw Mowrth kynta o galan Mowrth** Deellir [*k*]alan yn yr ystyr ffigurol ‘dyddiau cyntaf, dechrau’ (cymharer OED s.v. *calends* 4).

¹⁵⁸ **Ac velly i tervyna y vvchedd.** Ni cheir y geiriau hyn yn y testunau cynharach, sy’n mynd ymlaen i ganmol rhinweddau Dewi ac i ddisgrifio’r nefoedd a’r sawl a oedd eisoes wedi eu croesawu yno, gan gloi gyda gweddi sy’n galw ar Ddewi fel eiriolwr. Tebyg yw diwedd glo fersiwn Pen 27ii i’r hyn a geir ar ddiwedd y fersiwn o fuchedd Mair Fadlen yn y llawysgrif hon (td. 59 (llau. 26–7) *Ac velly i tervyna bvchedd mair vadlen*). Gwelir fformiwla debyg yn cloi bucheddau eraill mewn llawysgrifau eraill hefyd, megis Buchedd Collen (Card 2.629, Llst 34), Buchedd Llawddog (Llst 34), Buchedd Susanna (Llst 34), Buchedd Sant Tomas yr Apostol o’r India (Llst 34) a Buchedd Mair o’r Aifft (Card 2.633).

Buchedd Dewi (fersiwn Peniarth 27ii)

golygwyd gan Jenny Day

[*Rhagymadrodd*](#)

[*Testun golygedig*](#)

[*Cyfeiriadau a byrfoddau*](#)

[*Atodiad: cyfieithiad Saesneg*](#)

Llawysgrifau

[*Ewch i drawsysgrifiad Pen 27ii*](#)

[*Ewch i drawsysgrifiad Llst 34*](#)

Mae fersiynau o fuchedd Dewi i'w cael mewn rhyw bedair llawysgrif ar ddeg, gan gynnwys saith sy'n dyddio o'r Oesoedd Canol (BDe xxxiv–xxxix; WLSL iv–lviii; ac ar y llawysgrifau unigol a drafodir isod, gw. RepWM). Y llawysgrif gynharaf yw J 119 neu *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, a ysgrifennwyd yn 1346 ar gyfer Gruffudd ap Llywelyn ap Phylip ap Trahaearn o'r Cantref Mawr. Ceir testun cynnar arall yn Llst 27 neu Lyfr Coch Talgarth, a ysgrifennwyd gan Hywel Fychan yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg neu chwarter cyntaf y ganrif ddilynol, ar gyfer Hopcyn ap Tomas ab Einion o Ynysforan, Cwm Tawe, o bosibl. Mae llawysgrif arall a ysgrifennwyd i'r un noddwr, sef Llst 4, yn cynnwys darnau o'r fuchedd. Mae testun Pen 15, a gofnodwyd tua'r un cyfnod gan law ddiennw, yn debyg iawn i destun J 119 ac fe'i hystyrid yn gopi o'r testun hwnnw gan D. Simon Evans ac eraill (RWM i, 334; James 1955: 2; BDe xxxiv, n. 1; WLSL iv, n. 201). Bellach, fodd bynnag, ymddengys yn fwy tebygol fod 'close collateral relationship' rhwng y ddau, fel yr awgryma Daniel Huws wrth drafod buchedd Dewi ynghyd â thestunau crefyddol eraill yn rhan gyntaf Pen 15 (RepWM i, 340; a gw. y drafodaeth isod ar gyffelybiaethau rhwng y fersiynau o fuchedd Dewi yn Pen 15 a Pen 27ii). Ceir testun cyflawn arall yn Cotton Titus D.xxii a ysgrifennwyd yn 1429, yn esgobaeth Llandaf yn ôl pob tebyg, a cheir testun anghyflawn yn LIGC 5267B, a ysgrifennwyd yn 1438 gan Siancyn ap Dafydd ap Gruffudd, ysgrifydd o'r de.

Mae'n bosibl fod pob un o'r chwe llawysgrif a drafodwyd uchod wedi ei llunio yn y de, ac mae'n eglur fod y testunau o'r fuchedd a geir ynddynt yn perthyn yn bur agos i'w gilydd. Gellir eu hystyried yn ddau grŵp o ran tarddiad, y naill yn cynnwys testunau J 119 a Pen 15, a'r llall yn cynnwys testunau Llst 27, Cotton Titus D.xxii a'r darnau yn Llst 4 a LIGC 5267B (BDe xxxvii–xxxix; gw. hefyd James 1955). Credir, fodd bynnag, fod pob testun yn tarddu yn y pen draw o'r un gynsail Gymraeg, sef y cyfieithiad neu'r addasiad gwreiddiol a wnaed o fersiwn o'r fuchedd Ladin (ar y gynsail Ladin, gw. y [*Rhagymadrodd*](#)).

Erys un testun canoloesol arall, sef yr un yn llawysgrif Pen 27ii, y credir iddi gael ei hysgrifennu yng ngogledd Cymru yn ail hanner y bymthegfed ganrif gan ysgrifydd anhysbys, medrus (RepWM i, 346). Nid ystyrir bellach mai'r bardd a'r polymath Gutun Owain oedd yr ysgrifydd hwn, fel yr awgrymwyd yn betrus yn RWM i, 355 (cf. BDe xxxiv n1; WLSD lv n201). Ymddengys, fodd bynnag, fod yr ysgrifydd, neu ei noddwr, yn rhannu rhai o ddiddordebau amrywiol Gutun, am fod Pen 27ii yn cynnwys barddoniaeth a thestunau'n ymdrin â hanes, seryddiaeth a meddyginiaeth, yn ogystal â 'Bonedd y Saint' a bucheddau Dewi, Mair Fadlen a Gwenfrewy (RWM i, 355–8; RepWM i, 346–7).

Dewiswyd testun Pen 27ii i'w olygu ar gyfer y prosiect hwn (gw. [BDewi \(Pen 27ii\)](#)) oherwydd ei ystyried yn 'aralleiriad' o'r fuchedd (BDe xxxiv) yn hytrach nag yn gopi ohoni; felly, mae'n cynrychioli cam diddorol yn hanes y fuchedd fel testun ac yn hanes cwlt Dewi Sant. Cyflwynir yma, hefyd, drawsysgrifiad o'r fersiwn o'r fuchedd a geir yn [Llst 34](#), llawysgrif sy'n cynnwys casgliad pwysig o fucheddau a ysgrifennwyd rhwng 1580 a 1600 gan Roger Morris o Goed-y-talwrn, Llanfair Dyffryn Clwyd. Trafodir isod (ac, ymhellach, yn Day 2022a) rai o nodweddion y fersiwn hwn, ynghyd â fersiwn a ysgrifennwyd yn 1598 gan Thomas Wiliems o Drefriw yn Pen 225. Ar y llawysgrifau diweddar eraill sy'n cynnwys fersiynau o'r fuchedd, gweler y [Rhestr lawysgrifau](#) isod ac ymdriniaethau James 1955 a Williams 1959.

Cyhoeddwyd eisoes ddau olygiad cynhwysfawr sy'n seiliedig ar gynrychiolwyr cynnar y fuchedd Gymraeg, sef BDe a WLSD, ac mae trawsysgrifiadau o'r rhan fwyaf o'r testunau canoloesol ar gael ar y We; gweler y [Rhestr lawysgrifau](#).

Perthynas testun Peniarth 27ii â'r testunau cynharach

Fel y nodwyd uchod, dangosodd D. Simon Evans y gellir dosbarthu'r rhan fwyaf o destunau canoloesol buchedd Dewi yn ddau grŵp yr ymddengys eu bod yn tarddu o ddwy gynsail goll, a'r cynseiliau hyn yn tarddu, yn y pen draw, o'r cyfieithiad Cymraeg gwreiddiol (BDe xxxvii–xxxix; cf. James 1955). Ni chynhwysodd Evans destun Pen 27ii yn ei astudiaeth gymharol ac ni roddwyd sylw manwl i'r 'aralleiriad' hwn yn astudiaeth gynharach J. W. James ychwaith. Fodd bynnag, wrth greu'r golygiad a gyhoeddir yma, sylwyd ar nifer o ddarlleniadau a all daflu goleuni ar berthynas fersiwn Pen 27ii â'r testunau hyn.

Gellid ystyried yn gyntaf nodwedd bwysig y tynnodd D. Simon Evans sylw ati (BDe xxxix), sef, na chynhwysir yn Llst 27 na Cotton Titus D.xxii frawddeg a geir yn nhestun J 119 (a Pen 15) yn rhan o hanes atgyfodi mab y weddw: *A syrthyaw a oruc Dewi ar y corff, a doddi y eneu wrth eneu y mab* (WLSD 10.7–8). Nis ceir yn nhestun Llst 34 ychwaith, ond ceir rhan ohoni yn Pen 27ii: *a doddi i enav wrth enav korff y mab* (§22). Yn yr un modd, yn achos cymal sy'n ymwneud â'r cynllun i wenwyno Dewi, mae'r ymadrodd yn Pen 27ii (§19 *val i mynasai y trywyr i wenwyno*) yn fwy tebyg i ddarlleniadau J 119 a Pen

15 (WLSO 8.7–8 *mal y mynnassei y twyllwr y wenwynaw*; cf. Pen 15, 20 (llau. 6–7)) nag i fersiwn Llst 27 (BDe 12.22–3 *bot y twyllwyr yn keissyaw y wenwynaw*), er cytuno â Llst 27 wrth ddefnyddio enw lluosog yn hytrach nag enw unigol (ar *trywyr* Pen 27ii, gw. [n. 103](#)). (Am ddarlleniadau eraill a all awgrymu bod testun Pen 27ii yn perthyn yn agosach at J 119/Pen 15 nag at Llst 27 neu Cotton Titus D.xxii, gw. [n. ix](#) (testunol, ar *dros i ffenn, y lleian*), [n. 144](#) (*servbin*) a [n. 147](#) (*kymin hvn*)).

Ar y llaw arall, un nodwedd sy'n gyffredin rhwng Pen 27ii a Pen 15, ond nas rhennir â J 119 (na Llst 27/Cotton Titus D.xxii), yw defnydd ansafonol y gair lluosog *gw(y)rth(i)au* fel pe bai'n enw unigol (gw. [n. 21](#)). Fodd bynnag, ni all testun Pen 15 fod yn gysail testun Pen 27ii am fod ynddo nifer o wallau nas ceir yn Pen 27ii. Er enghraifft, lle ceir pawb yn synod Brefi yn *adde yn ddyhvn* yn Pen 27ii (§23) ac yn *adef yn dukun* yn J 119 (WLSO 11.6), darlleniad llwgr a geir yn Pen 15, sef *adef yndv el vn* neu, yn fwy tebygol, *adef yndv ehvn*, a rhan o'r *b* wedi pylu neu dreulio (td. 22, ll. 17) (gthg. hefyd BDe 18.2 *adef yn gyfun* (Llst 27/Cotton Titus D.xxii)). Mae rhai darlleniadau amrywiol sylweddol yn Pen 15, hefyd, nas atgynhychir yn Pen 27ii. Er enghraifft, wrth ddisgrifio Dewi yn dod i Lyn Rhosyn am y tro cyntaf, cyfeiria testun Pen 15 at ddau ddisgybl yn unig, sef Aeddan ac Ismael (td. 17, llau 20–1), ond mae'r testunau canoloesol eraill, gan gynnwys Pen 27ii (§13), yn cynnwys enw Eliud (Teilo) rhwng y ddau arall. At hynny, yn Pen 15 mae un o'r brawddegau sy'n dilyn, *yny lle hwnnw ykynnevasant wy dan kyntaf* (td. 17, llau 22–3), wedi ei haildrefnu o'i chymharu â darlleniadau J 119, *Kyntaf lle dan yr awyr y kynnevasant wy tan uu yno* (WLSO 4.31), a Pen 27ii, *Kynta lle dan yr awyr y kynevasant wy dan vv yno* (§13). Ymddengys, felly, na tharddodd testun Pen 27ii o Pen 15 nac o J 119, er iddo berthyn yn agosach i'r ddau destun hyn nag i Llst 27 na Cotton Titus D.xxii.

Os na tharddodd testun Pen 27ii o'r un o'r testunau cynharach sydd wedi goroesi, fel y dadleuir uchod, cyfyd cwestiwn diddorol: a oes yn nhestun Pen 27ii ddarlleniadau sy'n cynrychioli'r cyfieithiad gwreiddiol yn well nag unrhyw fersiwn arall sydd gennym? Un achos posibl yw cyfeiriad Dewi at y *trywyr* (§19), yn hytrach na'r *twyllw(y)r*, wrth esbonio am y cynllwyn i'w wenwyno (cymharer VSD §38 *tribus ... uiris* 'tri gŵr', a gw. [n. 103](#)). Achos posibl arall yw'r cyfeiriad at wraig Boia fel y *wraic ynvyd* (§13) wrth iddi annog ei gŵr i weithredu yn erbyn Dewi a'i ddilynwyr (cymharer VSD §16 *Cui coniunx in insaniam uersa* 'His wife said to him, having turned angry'), a'r testunau Cymraeg cynharach yn cytuno ei bod hi'n galw ei gŵr yn *ynvyt* yn hytrach na'i bod yn *ynvyt* ei hunan (gw. [n. 73](#)). Gellid ystyried hefyd fersiwn Pen 27ii o weddi Dewi dros fab y weddw cyn ei atgyfodi, a'r disgrifiad o leoliad nyth y frân sy'n bwyta darn o'r bara gwenwynig (gw. [n. 122](#) (ar *dyrcha i hvn mab a'i enaid yno*), [n. 102](#) (*mewn onen a oydd rrwng y ffreitvr a'r avon*)).

Ni ellir bod yn sicr, fodd bynnag, a darddodd yr un o'r darlleniadau hyn yn Pen 27ii o'r cyfieithiad gwreiddiol; gallent fod yn addasiadau diweddarach. Yn achos y ddau ddarn olaf a nodwyd, yn arbennig,

gallai'r darlleniadau yn Pen 27ii fod wedi digwydd dod yn agosach at eiddo *Vita S. David* o ganlyniad i ymdrech addasw(y)r i gael synnwyr o ddarlleniad problemus yn y gysail. Gall hyn fod yn wir hefyd yn achos y disgrifiad o'r wyrth sy'n adfer golwg Paulinus (§10, a gw. y drafodaeth yn y [Rhagymadrodd](#); cymharer hefyd [n. 7](#) (ar *dev le ... y rrai a ddywetbwyd vchod*) a [n. 14](#) (*Ac ymbarodtoi a wnayth Padric i ado y lle hwnnw*)). Yn olaf, dylid nodi'r posibilrwydd fod rhyw fersiwn o'r fuchedd Ladin wedi dylanwadu ar fersiwn Pen 27ii o'r fuchedd Gymraeg wrth iddo gael ei drosglwyddo. Mae'n bosibl fod gwahanol fersiynau o fucheddau seintiau (Cymraeg, Lladin neu Saesneg) yn cael eu cymharu a'u cyfuno'n bur aml; ymddengys, yn sicr, fod hyn wedi cyfrannu at ddatblygiad y fersiwn o fuchedd Dewi a geir yn Llst 34, fel y trafodir isod.

Y fersiynau diweddarach yn Llanstephan 34 a Peniarth 225

Mae'r fersiwn o fuchedd Dewi a ysgrifennodd Roger Morris yn Llst 34 rhwng 1580 a 1600 (ac a gyhoeddir yma fel [trawsysgrifiad](#)) yn cynnwys cryn nifer o addasiadau, o'i gymharu â chynrychiolwyr cynnar y fuchedd. Er bod y newidiadau a wnaed yn wahanol, fel arfer, i'r rhai a welir yn Pen 27ii, ymddengys fod bwriad tebyg y tu ôl iddynt, sef peri bod y fuchedd yn hawdd ei deall, yn cadw sylw'r gynulleidfa, ac o fudd ysbrydol iddynt. Yn un peth, gwelir tuedd yn y ddau fersiwn i newid geiriau unigol fel eu bod yn fwy cyfarwydd neu'n haws i'w deall. Er enghraifft, yn hytrach na *tri dyuot* y testunau cynharach ceir *tri rryveddod* yn Pen 27ii a *[t]ri pheth* yn Llst 34 (BDe 1.11; [BDewi \(Pen 27ii\)](#) §1; Llst 34, 267 (ll. 7)), ac yn hytrach na *dubudaw* ceir *[d]iddanv* yn Pen 27ii a *[c]onphorddio* yn Llst 34 (BDe 2.11; [BDewi \(Pen 27ii\)](#) §3; Llst 34, 267 (ll. 26)). At hynny, ymddengys yn aml fod addasu yn y ddau fersiwn wedi ei ysgogi gan ryw air neu ymadrodd a ystyrid yn broblemus, ac mae'n ddiddorol cymharu sut mae'r gwahanol addaswyr yn ymdrin â'r darlleniadau hyn (gw. [n. 16](#), [n. 35](#), [n. 102](#) a [n. 122](#)). Fodd bynnag, ni welir yn fersiwn Llst 34 gynifer o achosion o grynhoi darlleniadau neu o hepgor geiriau, ymadroddion neu adrannau cyfan ag y gwelir yn Pen 27ii. Cedwir y cyfeiriad at y bryn gwrthiol yn codi ym Mrefi, yn ogystal â'r disgrifiad o'r nefoedd, a'r weddi ar ddiwedd y fuchedd (gyda mân newidiadau). Gwelir un achos sylweddol o hepgor deunydd o adrannau agoriadol y fuchedd, fodd bynnag, sef bod areithiau'r angel(ion) wrth Sant a Phadrig wedi eu cwtogi a'u cyfuno, ar draul synnwyr y stori (Llst 34, 267 (llau. 7–16); Day 2022a: 136–7).

Mae nifer o ddarlleniadau amrywiol sylweddol fersiwn Llst 34 i'w gweld hefyd yn y fersiwn o'r fuchedd a ysgrifennodd Thomas Wiliems (cyfaill i Roger Morris) yn llawysgrif Pen 225 yn 1598 (James 1955: 2; Williams 1959: 114–15; Day 2022a: 146). Ar y cyfan, mae testun Pen 225 yn debycach o lawer i destunau cynnar y fuchedd Gymraeg nag y mae fersiwn Llst 34. Ac eto, yn Llst 34 a Pen 225 fel ei gilydd gwelir llygriad tebyg ar enwau'r afonydd Tywi a Theifi yn yr adran am nawdd (BDe 18.22 *o Dyui hyt ar Deivi*; Llst 34, 284 (ll. 14) *o ðim hyd ar ðim*; Pen 225, 239 (ll. 8) *o dbim hyt ar dbim*; cymharer [n. 135](#), ar y darlleniad gwallus gwahanol yn Pen 27ii). At hynny, gwelir yn y ddau destun effaith

anffodus camddehongli'r ymadrodd *yr awr bonn* yn gyfeiriad at Arfon, wrth drafod yr enw lle Henllan (BDe 1.13 *Henllan yr awr bonn* (J 119 *yr awr bonn henllan*); Llst 34, 267 (ll. 11) *Henlan yn Arfon* (cf. Pen 225, 227 (llau. 18–19)); cymharer Pen 27ii, §1 *yr awron*, a bwlch yn dilyn lle disgwyliid yr enw lle; ar y darlleniad gwallus *yn Arfon*, gw. ymhellach Williams 1959: 114–15). Awgryma dosbarthiad y gwallau sylweddol hyn fod testunau Llst 34 a Pen 225 yn tarddu o gynsail gyffredin (yn anuniongyrchol, fwy na thebyg, yn achos fersiwn Llst 34, gyda'i addasiadau sylweddol). Mae'n bosibl y gellir uniaethu'r gynsail hon â'r *ben lhyver*, dau gan mlwydd oed, y cyfeiriodd Thomas Wiliems ato mewn coloffon ar ddiwedd testun Pen 225 (td. 242 (llau. 28–31) *Alban o'r vn ben lhyver awduredic ac y caphad Bûchedb Beûno, wedy'r escrivennû wrth amcan a thebygoliaeth er ys deucant mlynedb a llaw dec ar vemrwn*). Trwy gymharu'r fersiynau hyn ymhellach â thestunau cynnar y fuchedd, ymddengys fod cynsail gyffredin Llst 34 a Pen 225 yn perthyn yn agosach i Llst 27/Cotton Titus D.xxii nag i J 119/Pen 15, yn groes i'r hyn a welir yn achos Pen 27ii. Serch hynny, mae ychydig o nodweddion a rennir rhwng Llst 34, Pen 225 a Pen 27ii. Yn fwyaf trawiadol, mae'r tri thestun yn cynnwys achosion o ddefnyddio'r gair lluosog *gw(y)rth(i)au* fel pe bai'n air unigol. Fodd bynnag, am fod darlleniadau tebyg i'w gweld yn nhestun Pen 15, gallent darddu o gynsail gyffredin gynnar iawn, neu o'r cyfieithiad gwreiddiol hyd yn oed (gw. [n. 21](#)).

Nodwedd arbennig arall ar fersiwn Llst 34 yw'r cywiriadau neu'r darlleniadau amgen niferus a ychwanegwyd at y testun gan Roger Morris ei hunan, naill ai uwchben llinellau'r prif destun neu (yn llai aml) ar ymyl y ddalen. Ymddengys yn aml fod darlleniad sy'n sylweddol wahanol i'r fersiynau eraill wedi ei 'safoni' drwy ychwanegu darlleniad sy'n debyg i eiddo'r testunau cynnar. Mae'n debyg, felly, fod Morris wedi tynnu deunydd o ddwy gynsail, a bod un o'r testunau hyn wedi ei aralleirio'n sylweddol cyn dod i'w ddwylo, a'r llall yn eithaf tebyg i'r testunau cynnar sydd gennym. Gall mai aralleiriad coll o destun *ben lhyver* Wiliems oedd cynsail gyntaf Morris, ac efallai mai testun Wiliems ei hun yn Pen 225 (neu ryw berthynas agos i'r testun hwn) oedd ei ail gynsail (cymharer, e.e., *goleiuni heb diwed*^{ldouyluc} yn Llst 34, 288 (llau. 15–16), a *goleuni heb dywlhwc* yn Pen 225, 241 (ll. 45); gthg. BDe 22.19 *goleuni heb diwed*). Mae'r ddamcaniaeth hon yn esbonio pam na ddefnyddiodd Morris ei ail gynsail i gywiro gwallau difrifol megis *Henlan yn Arfon ac o dim hyd ar dim* (am fod y gwallau hyn yn Pen 225 hefyd). Yn olaf, dylid nodi ei bod yn bosibl iawn mai Roger Morris ei hun a fu'n gyfrifol am rai o'r darlleniadau unigryw a welir yn ei destun ef, ac y gallai Thomas Wiliems yntau fod wedi cyfrannu rhai addasiadau i'w fersiwn ef yn Pen 225, gan adlewyrchu diddordeb creadigol parhaus yn y fuchedd ar ran y ddau ysgolhaig Modern Cynnar hyn. (Am drafodaeth bellach ar y fersiynau o'r fuchedd yn Llst 34 a Pen 225, gweler Day 2022a.)

Rhestr lawysgrifau

(O RepWM y daw'r wybodaeth isod am y dyddiau a'r llawiau.)

Card 2.624, 4r–12r; llaw anhysbys, 1600 × 1650.

Card 4.22, 335–54; William Thomas, c.1716–18.

Cotton Titus D xxii, 138r–155v; llaw anhysbys, 1429. Ceir trawsysgrifiad diweddar yn Roberts et al 2015.

J 119 neu Lyfr Ancr Llanddewibrefi, 93r–103v; 'Ancr Llanddewibrefi', 1346. Mae golygiad cyflawn yn WLS D a thrawsysgrifiad yn RhyddGym 1300–1425, a gellir gweld y llawysgrif yn <https://digital.bodleian.ox.ac.uk/objects/7396c69b-67f6-4dc0-bf07-e035bc4addbe/>.

LlGC 5267B, 85r–v, 86r–v (anghyflawn); Siancyn ap Dafydd ap Gruffudd, 1438.

Llst 4, 18r–19v, 20r–21v, 24r–27v (anghyflawn); X91, 1375 × 1425. Mae trawsysgrifiad yn RhyddGym 1300–1425.

Llst 27, 62v–71v; Hywel Fychan ap Hywel Goch, 1375 × 1425. Dyma'r prif destun y seiliwyd testun cyfansawdd BDe arno, a cheir trawsysgrifiad yn RhyddGym 1300–1425.

Llst 34, 266–89; Roger Morris, 1580 × 1600. Gweler y [trawsysgrifiad](#).

Llst 104, 300–29; X27, cynorthwywr i Moses Williams, c.1710 × 1715.

Pen 15, 15–24; llaw anhysbys, 1375 × 1425. Mae trawsysgrifiad yn RhyddGym 1300–1425 a gellir gweld y llawysgrif yn <http://hdl.handle.net/10107/4779376>.

Pen 27ii, 35–49; llaw anhysbys, 1450 × 1500. Gweler y [trawsysgrifiad](#) a'r golygiad ([BDewi \(Pen 27ii\)](#)). Gellir gweld y llawysgrif yn <http://hdl.handle.net/10107/4575723>.

Pen 120, 253r–266r (tudalennau *recto* yn unig); un o gynorthwywyr Edward Lhuyd, c.1696–9. Gellir gweld y llawysgrif yn <http://hdl.handle.net/10107/4619123>.

Pen 225, 227–42; Thomas Wiliems, 1594–1610 (a thestun buchedd Dewi wedi ei gopïo yn 1598). Gellir gweld y llawysgrif yn <http://hdl.handle.net/10107/4575864>.

Pen 319, 156–75; Hugh Maurice, c.1806.

Defnyddiwyd inc coch i amlygu llythrennau, yn enwedig ar ddechrau brawddeg, neu i dynnu sylw at enwau priod. Weithiau defnyddiwyd inc coch wrth ddileu (tt. 39 (ll. 19), 41 (ll. 4), 42 (ll. 2), 45 (ll. 3)); nid oedd modd atgynhyrchu'r lliw yn y trawsysgrifiad, yn yr achosion hyn. Ceir cipeiriau wedi eu gosod dan y prif destun ar dudalennau 35 a 47 yn unig (ond cymharer yn yn cael ei ailadrodd ar dudalennau 36–7). Ychwanegwyd englyn a briodolir i *kadwgon ffol* ar waelod tudalen 38, gan yr un llaw â'r prif destun ond mewn inc gwahanol (*llawer brain eisie ir brenin heddiw / hawdd i gallwn chwertbin / llawer sais llevbais llibin / ar gro yn do ari din / kadwgon ffol ai kant pan voddes y sayson yn y ganwy*). Nid ymddengys fod unrhyw berthynas rhyngddo â'r prif destun. [Mae delweddau'r llawysgrif gyfan ar lein [yma](#).]

{35}

- 1 [§1] **Ky**redic vrenin a wledychodd Kyredigion drwy lawer
- 2 o vlenyddedd Ac o honaw i kavas keredigion i
- 3 henw A mab a vv iddaw sant oydd i heñw ir sant hwñw
- 4 yr ymddangoses angel yni hvn A dywedvd wrthaw y vor
- 5 v ti a ai i hely a thi a geffi dri rryveddod gar llaw avon
- 6 ddofn nid amgen karw a gleisiad a haid wenynn me
- 7 wn preñ vw^{ch}ben yr avoñ yny lle a elwir yr awron¹
- 8 a dyled y tir yw dyled i vab ni aned eto ef biev
- 9 vydd dev le hyd dydd brawd y rrai a ddywetbwyd vchod
- 10 [§2] **O**ddyna i doyth padric hyd ynglyn vwch rrosin Ac i myddyl
- 11 iodd ddwyn yno i vywyd hyd i ddiwedd **ac** **an**gangel a ddo
- 12 yth at badric ac a ddyvod wrtho gado di y lle hwñ ir mab
- 13 ni aned eto **sef** a orvc padric llidio a dywedud paham
- 14 i trymygawð yr arglwyð vyvi pañ wnai wasgaradigayth
- 15 arnaf A mine yn addoli iddaw drwy i ofn ai gariad **E**th
- 16 ol o hoño ynte yr awr hoñ y mab ni aned Ac ni enir y

¹ Gadawyd bwlch ar ddiwedd y llinell hon ac ar ddechrau'r nesaf.

17 dec mlyned arhvgain hyñ **Ac** ym barodtoi a wnayth
 18 padric i ado y lle hwñw **yr** arglwyð eisioys **A** garoð
 19 padric yn vawr **A** anvones angel ataw yw ddiddanv ar
 20 angel a ddyvod wrtho **p**adric llywenha yr arglwyð
 21 amanvones i i ddan~~x~~gos yt ynys ywerddon ysdedd
 22 va syð yt yno a elwir rosin **Ac** a elwir o hyñ allan
 23 ysdeddva badric a byð lawen heb ef ti a vyddy heddiw
 24 yn yr ynys hoño a thi a oddevi yno lawer ir kariad ar
 25 dduw a duw a vyð gidathi byth **Ac** yna i lloñyddoð
 26 meddwl

{36}

1 ~~A wnayth~~ mewl padric **Ac** i gydewis y lle hwñw ac
 2 yrayth i barotoi i long ir borthva **a** chyvodi gwr marw
 3 a gladdesid ar y morva irys ~~x~~ pymtheng mlyned **kvch**
 4 en oyð i henw **A** myned a wnayth padric i ywerddon
 5 ~~x~~ **A** hwñw gyd ac ef **A** hwñw gwedy hyñy a vv esgob
 6 [§3] **Ac** ymhen y deng mlyned ar hvgain wedi hyñy val
 7 i royð sant ap kyredic yn kerdded i hvn nycha leian
 8 yn kyvarvod ac ef sef a orvc ef ymavel a hi a dwyn
 9 trais arni ar lleian a gavas veichiogi **henw** y lleian
 10 oyð noñ **A** mab a aned iddi a **dd'** a royd yn henw ar
 11 y mab **A** gwr ni vynoð noñ na chynt na gwedi kans
 12 diwair oyð hi o veddwl a gweithred [§4] **kynta** gwyrthiav
 13 a wnayth dewi pañ gavas hi veichiogi ni mynoð hi
 14 namyn bara a dwr yni hoys **Ac** ni lewes dewi [§5] **ail**
 15 gwyrthiav oyð **Ai** vam yn myned ir eglwys i wrando

16 pregeth gan **g**ildas sant gildas ~~gil~~-~~preg~~ a ddechre
 17 voð prygethv Ac nis galloð yna i dyvod gildas
 18 ewch or eglwys allan Ac eilwaith provi prygethv ac
 19 nisgallai Ac yna i govynoð gildas a oyð neb ynyr
 20 eglwys ond y vo i hvn ydwyfi yma² heb y noñ rrwn[.]³
 21 y ddor ar pared dos di heb y sant allan or eglwys ac
 22 arch ir plwy ddyvod i mewn A ffob vn a ddoyth yw le
 23 i eiste val i byesynt Ac yna pregethv a orvc y sant yn

{37}

1 yn eglvr ac yn vchel **y**na i govynawð y plwy iddo pam na
 2 ellaisti bregethv ini gyne a nine yn llawen genym dywr
 3 ando di **G**elwch imewn y lleian a yrais i allan gyne
 4 or eglwys heb y noñ llyma vi ie heb y gildas ymab
 5 y syð yngroth y lleian hoñ y syð vwy i veddiant ai
 6 ras no myvi kans iddo i hvn i rroddes duw braint
 7 a ffenyduriayth yr holl saint kymrv yn dragywyddol
 8 kyñ dyð brawd a gwedi **A**c am hyñy nidoys i mi fford
 9 i drigo yma hwy no hyñ o achos mab y lleian akw
 10 i rroys duw iddo benedvriayth ar bawb or ynys hoñ
 11 A rraid i mi vyned i ynys arall a gado ir mab yr ynys
 12 hoñ [§6] **G**wy^rthie⁴ arall a wnayth dewi yr awr i ganed ef
 13 ef a ddoyth tyranav a mellt a charec a oyð gyverbyn
 14 a ffeñ noñ a holles yn ddav haner y naill hañer iddi

² **y**ma Ymddengys fod y llaw wedi ysgrifennu dau finim ar ddechrau'r gair a'u newid yn y.

³ **rrwn**[.] Mae difrod i myyl y ddalen yma, ac ymddengys fod diwedd y gair ar goll.

⁴ **G**wy^rthie Mae'r *G* yn arbennig o fawr ac yn addurnedig, fel y mae hefyd yn y geiriau *Gwyrth* a *Gwrthie* yn llinellau 16 a 18, isod.

15 a ayth dros i ffeñ y lleian hyd dros i thrayd pañ yd
 16 oyð hi yn esgor [§7] Gwyrth arall a wnayth dewi pañ
 17 vedyddiwyd vo a ymddangoses ffynon or ddayar lle ni
 18 biase ffynon irioyd [§8] Gwrthie arall a wnayth dewi
 19 gwr dall a oyð yni ddaly wrth vedyð a gollasai i olwc
 20 kyñ no hyñy Ac yna y dall a wybv vod y mab i royð
 21 ef yni ddal yn gyflawn o rad A chymrvd y dwr bedyð
 22 a golchi i wyneb Ar awr hoño i kavos i olwc sef a
 23 orvc pawb yna moli duw [§9] lle i dysgwyd dewi yn

{38}

1 ddaw a elwid uetvs rvbvs yno i dysgwyd iddo ef seilm yr holl
 2 vlwyddyn ai llythion ai efferenav yno i gweles i gyd ddis
 3 gyblon y glomen ar gylvin aur iddi yn dysgv dewi Ac
 4 yn gware yni gylch [§10] Oddyna i ddayth dewi hyd at athro A
 5 elwid pawlys a disgibl i esgob sant a oyð yn rrvain
 6 A hwñw a ddysgoð dewi oni vv athro Ac yna i damwyn
 7 ioð kolli or athro i olwc o dra ysdvdio y ni lyvre A galw
 8 a wnayth yr athro ato i holl ddisgyblon ol yn ol i geisio
 9 ganthvnt gymhorthwy am i lygaid Ac nidoyð yrvn
 10 yni allel iddaw ac yn ddiwaytha galw dewi dd' heb yr
 11 athro edrych vy llygaid i maynt im poyni Arglwyð
 12 heb y dd' nid edrychais i ith wyneb di eto sef i gwnayth
 13 yrathro yna rryveddv gwyled y mab dyro di heb yr ath
 14 ro dy law ar vwynebi a bendiga vy llygaid a mi a vy
 15 ddaf holl iach a ffan roddes dd' i law ari lygaid i bvant
 16 holl iach Ac yna i bendigoð powls ddewi o bob ben

17 dith a geffid yn ysgrivenedic yny ddeddf hen ac yny dde
 18 ddf newyð [§11] Ac yna i doyth angel at bowls A dywedvd
 19 wrthaw Amser yw i dd' sant vyned oddyma i wnevthur
 20 y pethe syð dynghedven gan dduw iddaw i wnevthur
 21 yna ir ayth dd' sant hyd ynglasnbri Ac yno ir adeiloð
 22 eglwys Ac yna i doyth dewi lle i royð ddwr yn llawn
 23 o wenwyn A bendigaw a wnayth y dwr hwñw yn dwym
 24 yn hyd dyddbrawd A hwñw a elwir yrenaint twymyn
 25 Oddyna i doyth hyd y growlan A hyd ym hepawn a g[.]⁵
 26 edi hyñy i gollan a glasgwm oddyna ir adeiloð lañ

{39}

1 lieni ynglan havren o ddyna i rroddes wared i beibiawc vrenin
 2 erging oyð ddall oddyna yr adeiloð eglwys yn llan gyvel^{4a}n
 3 ynglan gwyr oddyna yr adeilodd eglwys yngwent lle i gelwir
 4 rraglan dav sant a oyddynt ynghyd weli a elwid bodugad Ac
 5 elldrud a ymroddasant yn ddisgyblon i ddewi [§12] oddyna yr ym
 6 chweloð dewi ir lle a elwid uetres rrvbs Ac yno yroyð esgob a
 7 elwid gloyslan A hwñw oyð vrawd ffyð i ddewi A dewi a ddyvod
 8 wrth yr esgob Angel yr arglwyð a ddyvod ym o vraidid ir a vn
 9 o gant or lle hwñ i dyrnas nef ac a ddangoses imi le arall ac or
 10 lle hwnw nida neb i vffern ar a vo ffyddlawm ara gladder ymon
 11 went y lle hwñw [§13] A dyddgwaith i doyth dd' ai ddisgyblon ~~add~~
 12 ayddant ac eliut ac ismayl a llawer gyd ac wynt ir lle a nodasai
 13 dduw vddvnt nid amgen glyñ rosin yr hwñ a elwid hodnant
 14 kynta lle dan yrawyr y kynevasant wy dan vv yno A ffañ gynev

⁵ g[.] Mae difrod i ymyl y ddalen yma ond gellir gweld rhan o lythyren arall ar ôl yr g.

15 asant y tan y bore glas i kyvodes mwc Ac i kylchynoð y mwc
 16 hwñw yrynys hoñ oll a llawer o ynys ewerddon a hyñy or bore
 17 glas hyd bryd gosber Ar twysoc a elwid boya a arganv y mwc
 18 hwñw ari dir ac ef a ysdeddoð mewn kraic vchel or bore hyd bryd
 19 gosber heb vwyd a heb ddiod ai wraic a ddoyth ato yñ⁶ ac a ovyn
 20 oð iddo pam na vyñai ai bwyd ai diod dior heb ef trist wyfi
 21 a llidioc mwc heb ef a welais heddiw yn kyvodi o hodnant ac
 22 yn gogylchynv llawer o ddinasoyð y gwr heb ef a gynievoð
 23 y tan hwñw i veddiant ef a a dros fforð i kerddoð y mwc
 24 heb y wraic ynvyd kyvod i vyny heb hi a chymer dy ysgwieiriaid
 25 gydathi a llað y neb a gynevoð y tan hwnw ar dy dir di
 26 heb dy genA^d [§14] yna i doyth boya ai ysgwieriaid gyd ac ef ar vedr

{40}

1 llað Dewi ai ddisgyblon A ffañ ddoythant tv ar lle iddaythant
 2 yny kryd krynv hyd na ellynt wnevthvr drwc yny byd i ddewi
 3 nac yw ddisgyblon onid i gwatwar A dywedvd geirie dirmy
 4 gvs ar i kyvair ac ymchwelvd adref Ac ar y fforð nycha wraic
 5 boya yn kyvarvod ac wynt ac yn dywedvd yn bigelyð ni
 6 a ddywedasant i mi varw yn holl ysgrvbl ni nid amgen yn
 7 y⁷ gwarthec añ ychē⁸ ar greoyð ar devaid oll yn veirw ai llygaid
 8 yn y gored kwynaw ac vdaw a griddvan a wnayth boya ai wr
 9 aic ai dylwyth a dywedvd y sant i bvom i yni watwar a wn
 10 ayth hyñ sef a orvgant gweddio y sant a cheisio i voð ef ai

⁶ yñ Defnyddiwyd inc coch i ddileu'r gair.

⁷ y Tynnwyd llinell ysgafn, hir, letraws drwy'r y yn y llawysgrif, ond mae'n bosibl mai gwaith llaw ddiweddarach oedd hyn. Llinell lorweddol a ddefnyddiodd y brif law gan amlaf wrth ddileu, neu linell fertigol weithiau.

⁸ ychē Ysgrifennwyd y marc estyn ar ôl y llythyren e yn hytrach na bod uwchben.

11 dylwyth **Ac** yna i rroddes boya hodnant yn dragwyddol ir
 12 sant ac ymchwelvd adref a orvc boya ai dylwyth **a** ffañ ddoym
 13 thant adref i kowsant i haniveiliaid yn vyw ac yn iach
 14 [§15] **Ac** yna i dyvod y wraic wrth i llaw voryñion **ewch** heb hi
 15 hyd yr avon y syð garllaw y sant a diosgwch ych dillad ac
 16 ewch ynoyth lvmvn dywedwch wrthvn eirie aniwair kywil
 17 yddvs **A** holl ddisgyblon dewi a vv anoð ganthvnt odde y
 18 kywilyð hwñw **Ac** y dywedasant wrth ddewi ffown oddyma
 19 ymaith heb wynt ni allwn i oddef hyñ nac edrych ar y gwr
 20 ageð drwc **Ac** yna i dyvod y sant panid gwell ini beri vdd
 21 vntwy ado y lle hwñ i ni **Ac** yna dewi ai ddisgyblon a ddyr
 22 west asan hyd trañoyth **A** thranoyth i dyvod gwraic boya
 23 wrth i llysverch **tydi** vorwyn kyvod i vyny awn i ddyved hyd
 24 ynglyn alvn mi a wnañ heb y vorwyn parod wyf i vnyed
 25 a cherdded illdweð hyd yngwaylød y glyn **A** ffañ ddoymthan[.]⁹
 26 eise a orvc i llysvam **A** dywedud wrth y verch dyro dy beñ ar
 27 vy arffed iw ddihayddvd **sef** a orvc i llysvam tyñv kylllell a llað

{41}

1 peñ y vorwyn santes **ac** yny lle i digwyddoð y gwayd ir llawr
 2 yr ymddangoses ffynoñ **A** llawer o ddynion a gowsant iechyd
 3 oi heiniey yno a heddiw i gelwir hi ffynon **ddvnt a** dvnt oyð
 4 henw y vorwyn **yna** i ffoys i llysvam ddrwc **hi**¹⁰ ac ni wybv
 5 neb i ble ir ayth na ffa ange ai dvc **A** boya a ddychrevoð dryc
 6 arvathv a dewi ai ddisgyblon ai llaenhasant ef [§16] **yna** i myddyli

⁹ **ddoythan[.]** Mae difrod i ymyl y ddalen ond gellir gweld rhan o lythyren arall, sef strôc lorweddol, ar ôl yr *n*.

¹⁰ **hi** Defnyddiwyd inc coch i ddileu'r gair.

7 oð boya lað dewi ai ddisgyblon **ac** eisioys sef a ddamwein
 8 ioð y bore dyvod i elyn hyd y twr lle i royð boya yn kysgv
 9 wedi kaffel y porth yn egored a llað peñ boya yni wely **ac**
 10 yn ddi anod i doyth tan o nef a llosgi yr ydeiliadav hyd y lla
 11 wr **A** gwybydded bawb lað or arglwyð boya o achos dewi
 12 **A sarapa** i wraic [§17] **O**ddyna ir adeiloð dewi y glyn hodnant
 13 **Ac** nidoyð yno ddwr ond ychydic o ddwr rrydegoc **ac** yna
 14 i gweddioð dewi yr arglwyð **Ac** yn ddianod i kavas ffynon
 15 yn llawn o win val nabv ar ddewi yni oys eisie gwinn **a** llyna
 16 roð deilwng i gan dduw a gavas **G**wedi hyny gwayslan
 17 esgob brawd ffyð dewi **A** disgibl i ddewi a elwid **eliud**¹¹ illdav
 18 a ddyrwestasant i geisio gan yr arglwyð grist synon o ddwr
 19 kroyw rrac syched yr amser ac a gowsant gan duw dwy ffyn
 20 on **ac** a elwir heddiw ffynon waslan ac eluid **ar** krvplaid
 21 ar deillion ar byddair a geffynt wared yny tair ffynon
 22 hyñy [§18] **Ac** ymysc hyñy iroyð addan sant yni eglwys i hvn
 23 yny dinas a elwid **gwernin** yn gweddio nos basc **ac** ar hyñy
 24 nycha angel yr arglwyð yn dyvod ato tydi wrda gwynvyd
 25 edic pañ nawddost yr hyñ iddys yni ddarparv i ddavyð
 26 sant dy athro di ynglyn rrosin **dioyr** heb yr angel ner ddarvv

{42}

1 i dri oi dylwyth or vanachloc wnevthvr i vrad doddi gwenwyn
 2 mewn bara ar bara hwnw a roir iddo yw vwyta ~~**Ac anvon di**~~¹²
 3 **Ac anvon di** genad hyd at dy athro i erchi iddo ymoglud y

¹¹ **eliud** Gellid darllen naill ai'n *eliud* neu'n *eluid*, am nad oes strôc uwchben yr un o'r tri minim; gweler n. xx (testunol).

¹² ~~**Ac anvon di**~~ Defnyddiwyd inc coch i ddileu'r geiriau.

4 bara sef a orvc y sant tristav ac wylo arglwyð paddelw ir
 5 anvonaf i genad yno ac mor vyr yw yr oyd nidoys long yn
 6 barod val i galler i chaffel anvon heb yr angel dy gyd ddisgibl
 7 esgŷdyn hyd y trayth a mi a baraf iddo vyned drwoð sef a orvc
 8 ysgvdyn gwnevt h yn llawen hyn iroyddid yni erchi iddo A
 9 dyvod tv ar trayth a cherdded yn y dwfr yni ddoyth y dwfr
 10 hyd i linie Ac yn ddisyvdyd llyma anghenvil or mor yni
 11 gymrvd ari gefn ac yn myned ac ef drwoð ir tv arall ac
 12 erbyn hanc hAner dyð dduw pasc i royð gidai athro [§19] Ac val
 13 iroyð ddewi yn dyvod or eglwys gwedi yffirenaw a ffregeth
 14 av ar holl vrodvr nycha i gwelai y genad yn kyfarvod ac
 15 ef lle a elwir beð ysgolan a dewi a vv lawen wrthaw a
 16 myned ddwylo mwnwcl iddo Ac ymovyn ac ef am ansod
 17 addan sant i ddisgibl mawr a garai A gwedi darvod ir genad
 18 ddywedud iddo gwbl o ansod i disgibl i gelwis ysgvdvn ddewi
 19 o ddiwrth y llall a dadkanv iddaw y genadwri megis i dywe
 20 dasai yr angel sef a orvc davyð kynhewi a diolwch i dduw
 21 A dyvod rracddvn tv ar vanachloc A wedi eisde pawb yn y moð
 22 i dylnt A dywedvd gras kyvodi a wneyth dvlcon yr hwñ
 23 a wasnaythai ar ddewi i wasnaythv o vara gwenwynic
 24 sef a orvc ysgvdyn kyvodi i vyny a dywedvd tydi heb ef ni
 25 wasneithi di heddiw namyn myvi a vyð gwasnaythwr
 26 sef a orvc hwñw myned i eiste a sanv arno kanys ef a wyddiad
 27 y kareð a oyð yni veddwl ac yna i kymyrth dewi [.] bara

{43}

1 gwenwynic ai ranv yn dair rrañ a rroi vn i asd a oyð yn sevyll

2 or tv allan ir drws ar awr i llewes yrast y bara i bv allmarw
 3 Ac ef a syrthioð i blew oll yrawr hono a thori yn ddav
 4 gelwrn a syrthio yn varw i lawr sef a orvc yr holl vrodur
 5 pañ welsant hyñy sanv yn vawr arnvnt ac yna ir anvon
 6 es dewi yr ail rrañ or bara i vran a wyð yn eisde ar nyth
 7 a oyð mewn onen a oyð rrwng y ffreitvr ar avon yr awr
 8 i kymyrth hi y bara hi a syrthioð i lawr yn varw y drydeð
 9 ran or bara a gymerth dewi ai vendigaw ai vwyta sef a orvc
 10 yr holl vrodur edrych ar hyñy ac ofni yn vawr Ac yna i my
 11 negis yr holl ddamwain ir brodur val i mynasai y trywyr i
 12 wenwyno Ac yna i rroddeð yr holl vrodur i hymelldith ir gwyr
 13 hyñy Ac i gyd^a rroddeð i hymelldith roi i gweddi ar y tad or nef
 14 na cheffyntwy y dragwyddol gyvran o dyrnas nef [§20] A gwedi
 15 kydarnhav ffyð a chred nys dyrnas hoñ holl lavrwyr yr ynys
 16 a ddoythant hyd yn hor seneð vrevi Ar esgyb ar dysgwyr ar
 17 athraon ar effeiriaid ar brenhineð ar tywysogion ar ieirll ar
 18 barwniaid ar ysgwieriaid ar krevyddwr ar gorevgwyr yn llwyr
 19 a ffawb heb allel rrif arnvnt A ymgnvllasant hyd yn seneð
 20 vrevi Ac amod awynaythbwyd yn y gnvlleidva hoño pwy
 21 pynac or saint a brygethe val i klywai y gnvlleidva hoño yn
 22 gyffredin gadv hwñw yn benadur ar saint ynys brydain ac
 23 yna i dychrevoð y saint bregethv bob ailwers Ac yna i dyvod
 24 vn dros y kyffredin y kanved dyn or gnvlleidva hoñ ni
 25 chlyw dim or bregeth irydych yni llavvriaw heb ef yna
 26 i dyvod pob vn or saint wrth i gilyð nidoys neb o honom
 27 a allo pregethv ir niver hyñ ac yna ir atebawð pawlus

{44}

1 sant a hen egob oyð ef v myvi heb ef awn lle may gwas iyva
 2 nk tec addwyn ac angel yn wasdad yni gedymddeithas a mi
 3 a wn ivod ef yn gymen ac yn ddiwair Ac yn karv duw a mi
 4 a wn i kar duw yntav ai vod yn rranoc ar yr holl voysav da
 5 mi a wn may mwya dyn yn yr ynys hoñ yw hwñw a dd'
 6 sant i gelwir yn gynta ef a ddysgoð y llen a byrthynai iddo
 7 i dysgv ar y dechrev ac wedi hyñy ef a ddysgoð yr ysgvthr ac
 8 a vv athro Ac yn rrvvain ir vrddwyd yn archesgob a mi a wel
 9 ais angel duw yn dyvod ato ac yn galw arno ac yn erchi
 10 iddaw vyned yw wlad i gyvanheddv y lle i darparasai dduw
 11 iddaw yn hyrnas demetica sef yw hoño mynyw yny deav
 12 ewch a gelwch atoch hwnw syð yn karv duw yn vawr ac yn
 13 bregethwr i grist a mi awn may iddo i rroys duw y gras [§21] ac
 14 yna ir anvones y saint genadav ƿ¹³ hyd yn inas rvbi lle yr
 15 oyð dd' sant gwas duw yn gweddio A ffan glybv ef neges
 16 y kenadav i dyvod nid af heb ef yno ysgwell genyf weddio
 17 duw yma ewchwi ynhyngneveð dduw ai gariad Ac eilw
 18 aith y saint a wahoddasant ddewi Ac yntav a roys yr vn
 19 ateb ar drydeð waith o gydyhvndeb yr holl sant yr anvon
 20 asant yn ganadav benaf a oyð yno nid amgen bevno
 21 A dubri[.]cus¹⁴ ar nos kyn dyvod y kynadav at ddewi i dy
 22 vod wrth y disgyblon gwybyddwchwi i daw kynadav yma
 23 y vorv ewch i bysgota ir mor a dygwch yma ddwr gloyw

¹³ ƿ Defnyddiwyd llinell fertigol wrth ddileu, yma (cf. tt. 45 (ll. 26), 48 (ll. 12), ac, efallai, td. 44 (ll. 21) (gw. y nodyn nesaf), yn hytrach na'r llinell lorweddol sy'n fwy arferol yn y testun.

¹⁴ dubri[.]cus Mae marc fertigol rhwng yr *i* a'r *c*. Ymddengys fod yr ysgrifydd wedi dechrau ysgrifennu llythyren arall (ai *t*?) a newid ei feddwl, ond cymharer hefyd y defnydd achlysurol o linell fertigol wrth ddileu (gw. y nodyn blaenorol).

24 or ffynon ar kenav a ddoythant y dyð i dyv^od dewi ac wy
 25 ntav a ba^fotasant vddvnt i kiniaw disgyblon dd' a rodd
 26 asant a^ry bwrð y pysgod ar dwr or ffynon **ar** dwr a ayth
 27 yn win **a dd'** a ddyvod bwydtewch vrodur yn llawen **ac**

{45}

1 yna i dyvod y ddav sant ni chymerwn na bwyd na diod
 2 heb wynt onid addewi di ddyvod gyda ni ir lle i may llu
 3 anod i rivo ith aros di wrth hyñy ~~wyn~~¹⁵ debre gyda ni
 4 er duw ac ir bendith y saint ac oni myny hayddv i hym
 5 elldith **heb** y dewi mi af ir kariad duw ar kydymddeithion
 6 eisioys yr hyn a erchwchwi nis gallaf mi a gerddaf gyda
 7 chwi hyd y seneð a chwithe gweddiwch y tad penaf yni ro
 8 ddo ef gymhorthwy i mi **A** mine ach gweddiaf chwithev
 9 vrodur hyd pan gymeroch vwyd a diod or alusen gardod
 10 a rodded i mi or nef [§22] **a** gwedi hyny kychwyn a wnaythant
 11 dewi ar kynadav i seneð vrevi **A** chyⁿ i dyvod ir gynvlleidva nycha
 12 i klywynt yn dyvod yni herbyn wraic weddw wedi marw i hvn
 13 mab ar wraic yn gweiddi ac yn disgrethain **A** ffan weles dewi
 14 y wraic yn drycarvaythv gorsevyll a gillwng y llaill or blayn
 15 **sef** a orvc y wraic druan a glowsai glod dewi syrthio ari gliniev
 16 a mynegi iddo vod i hvn mab wedi i varw **sef** a orvc dewi trvgar
 17 hav wrthi a throsi gyda hi ir lle iroyð y mab yn varw yn emyl
 18 avon deiui a myned ir ty lle iroyð y korff a doddi i enav wrth enav
 19 y korff y mab a gweddio ar yr arglwyð **a** dywedud ti a ddisgy
 20 naist o arffed y tad vy arglwyð dduw or nef ir byd hwñ *on*

¹⁵ ~~wyn~~ Defnyddiwyd inc coch i ddileu'r llythrennau.

21 achos ni bechaduriaid in arddyrcha ni o safn yn gelyn trvgar
 22 ha arglwyð wrth y wraic weddw hoñ A dyrcha i hvn mab ai
 23 enaid yno mal y mawl^hayr dy enw di ar y ddayar oll a ffañ
 24 ddarvv iddo i weddi kyvodi a wnayth y mab yn vvw ac yn
 25 holl i ach yw vam sef a orvc y mab or lle i kyvoded kalyn dewi
 26 o veddwl a gweithred Ac ef a vv drwy lawer o vlyxnyddeð
 27 gida dewi yn gwasnaythv duw [§23] oddyna i kerddoð dd' gyda
 28 chynadav y saint hyd yn seneð vrevi A ffañ ddoyth dd' i
 29 kyvodes y saint oll yni erbyn a chyvarch gwell iddo a syrthio ari

{46}

1 gliniev ac erchi iddo b^fegethv ac ymddychavay^l i beñ y bryn
 2 vchel yn lle i biase bregethe kyñ no hyñy Ac ysgvsodi a
 3 wnayth dewi ar dalm o ddwrthvnt a dywedvd na allai
 4 ef gwnevthvr y peth iroyddynt yni erchi eisioys ef a
 5 gymerth bendith y kyffredin ac ef a vvdhað vddvnt
 6 a gwrthod a orvc ysgyn i beñ y byñ A dywedvd na mynai
 7 ef le i sevyll ond ary llawr gwasdad A dechre awnayth
 8 pregev kyvraith grist ar evengylwyr a hyñy megis
 9 llef groyw eglvr a hyñy yn amlwc i bob dyn ir pella
 10 kyn eglvred ac ir nesa kyn eglured ac i byddai yr havl
 11 eglur haner dyð A moli hyñy awnayth pawb Ac yn
 12 gytvn moli dewi sant Ac adde yn ddyhvn i adel yn dw
 13 ysoc ar y sa'nt yn ynys brydain a dywedvd mal i soys
